RHIF YMCHWIL CYMDEITHASOL:
77/2022
DYDDIAD CYHOEDDI: 08/12/2022

# Asesiad Gwerthusadwyedd o Strategaeth Pwysau Iach: Cymru Iach

© Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-80535-032-3

# Asesiad Gwerthusadwyedd o Strategaeth Pwysau Iach: Cymru Iach

Adroddiad gan:

alma economics

Safbwyntiau'r ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:
Victoria Seddon
Is-adran Ymchwil a Gwybodaeth Gymdeithasol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 0300 062 8348
Ebost: ymchwil.iechydagwasanaethaucymdeithasol@llyw.cymru

## Tabl Cynnwys

Crynodeb Gweithredol ........ 3
1. Cefndir ........ 7
2. Adolygiad llenyddiaeth: gwerthusiadau tebyg ........ 10
3. Cyfweliadau â rhanddeiliaid ........ 13
4. Model rhesymeg a damcaniaethau newid ........ 16
5. Fframwaith gwerthuso ........ 30
6. Dull gwerthuso ........ 40
7. Asesiad gwerthusadwyedd: pecyn cymorth ........ 46
8. Asesiad gwerthusadwyedd: enghreifftiau ........ 56
9. Materion gwerthuso ymarferol ........ 66
10. Casgliad ac argymhellion ........ 73
Cyfeiriadau ........ 76
Atodiad A – Sail dystiolaeth damcaniaeth newid ........ 80
Atodiad B - Banc data ........ 83

**Byrfoddau**

| Byrfodd | Diffiniad |
| --- | --- |
| AHWA | Dull Pwysau Iach Amsterdam |
| AHNE | Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol |
| BMI | Mynegai Màs y Corff |
| CBA | Dadansoddiad cost a budd |
| GDPR | Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol |
| CMP | Rhaglen Mesur Plant |
| Trysorlys EM | Trysorlys ei Mawrhydi |
| HWHW | Pwysau Iach: Cymru Iach |
| IMTP | Cynllun Tymor Canolig Integredig |
| NERS | Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff |
| RDD | Dyluniad diffyg parhad atchweliad |
| ToC | Damcaniaeth Newid |

# Crynodeb Gweithredol

Mae strategaeth Pwysau Iach: Cymru Iach (HWHW) yn gynllun 10 mlynedd a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru i helpu i wneud y dewis iachach yn ddewis hawdd i bobl yng Nghymru. Nod y strategaeth yw siapio'r amgylcheddau a'r lleoliadau y mae pobl yn byw ynddynt er mwyn galluogi'r boblogaeth i wneud gwell dewisiadau cadarnhaol o ran ffordd o fyw er mwyn cynnal neu gadw at bwysau iach.

Disgwylir i werthusiad o'r strategaeth a'i pholisïau cyfansoddol fod yn allweddol i sicrhau bod y strategaeth yn cyflawni ei nodau i'r graddau mwyaf posibl ac ar sail gwerth am arian, yn ogystal â llywio'r broses o wneud penderfyniadau parhaus. Fodd bynnag, er mwyn i hyn ddigwydd, mae angen asesiad gwerthuso i asesu dichonoldeb a graddau gweithgareddau gwerthuso. Comisiynwyd Alma Economics  gan Lywodraeth Cymru i asesu gwerthusadwyedd y strategaeth HWHW a'i pholisïau sylfaenol. Mae'r asesiad yn ystyried ehangder y mathau o werthusiadau a nodir yn Llyfr Magenta Trysorlys EM ac yn ceisio pennu'r ffordd orau o'u cyfuno i ddarparu dull gwerthuso cyfannol.

## Adolygiad o werthusiadau tebyg

Fel rhan o'n hasesiad o werthusadwyedd y strategaeth Pwysau Iach: Cymru Iach, cynhaliwyd adolygiad o lenyddiaeth gyda'r nod o ddeall dulliau diweddar o werthuso strategaethau tebyg i HWHW naill ai o ran cymhlethdod neu bwnc.

Canfyddiad allweddol yr adolygiad hwn yw bod tystiolaeth ar werthusiadau o strategaethau a chydrannau yn brin iawn. Gellir dadlau nad oedd yr un o'r astudiaethau a adolygwyd yn cynnig llawer o fewnwelediad i sut i gynhyrchu asesiad gwerthusadwyedd cynhwysfawr o HWHW, ac mae'r maes hwn yn cynrychioli bwlch tystiolaeth yn y llenyddiaeth.

## Model rhesymeg a damcaniaethau newid


Un o amcanion yr astudiaeth werthusadwyedd hon oedd datblygu fframwaith dadansoddol cadarn sy'n nodi'r mecanweithiau i ymdrin â gweithgareddau'r strategaeth Pwysau Iach: Cymru Iach a sut maent yn effeithio ar ganlyniadau sy'n gysylltiedig â gordewdra yng Nghymru. I'r diben hwn, rydym wedi datblygu fframwaith integredig o Ddamcaniaethau Newid (ToCs) a Modelau Rhesymeg sy'n darparu ffordd strwythuredig o feddwl ynghylch p'un a fydd y strategaeth gyfan yn gwireddu ei nod o atal a lleihau gordewdra, a sut y bydd yn gwneud hynny. Mae'r fframwaith yn nodi'n benodol y cadwyni achosol i ddangos y llwybr

damcaniaethol y bydd gweithgareddau'n eu defnyddio i drosi'n ddilyniannol i allbynnau, canlyniadau tymor byr ac effeithiau tymor hir.

Mae'r strategaeth Pwysau Iach: Cymru Iach yn hynod gymhleth yn yr ystyr ei bod yn ceisio defnyddio dull cyfannol sy'n seiliedig ar systemau i fynd i'r afael â gordewdra. O'r herwydd, mae'n cynnwys degau o bolisïau a rhaglenni sy'n ceisio mynd i'r afael â'r mater o amrywiaeth o onglau. I roi cyfrif am y cymhlethdod hwn, tra'n darparu ffordd strwythuredig a defnyddiol o feddwl am y mecanweithiau achosol sy'n sail i waith y strategaeth, rydym wedi datblygu fframwaith sy'n cyfuno model rhesymeg â chwe Damcaniaeth Newid. Mae'r dull yn cyfuno'r ehangder y gellir ei gyflawni drwy ddefnyddio modelau rhesymeg â'r dyfnder a ychwanegir trwy gymhwyso methodoleg ToC.

## Fframwaith gwerthuso

Yn ôl y Llyfr Magenta (2020) Trysorlys EM, mae tri phrif fath o weithgaredd gwerthuso: gwerthuso proses, gwerthuso effaith a gwerthuso gwerth am arian (economaidd). Mae'r asesiad gwerthusadwyedd hefyd yn ystyried gwerthuso canlyniadau fel pedwerydd math o werthusiad, y gellir ei weld fel is-gategori o werthuso effaith sy'n canolbwyntio ar newidiadau tymor byr mewn canlyniadau.




Mae'r pedwar categori hyn yn ceisio mynd i'r afael â'r cwestiynau canlynol:

- **Proses** – Beth ellir ei ddysgu o'r ffordd y darparwyd yr ymyriad?
- **Canlyniad** – Pa wahaniaeth y mae ymyriad wedi'i wneud yn y tymor byr?
- **Effaith** – Pa wahaniaeth y mae ymyriad wedi'i wneud yn y tymor hir?

- **Economaidd** – A oedd yr ymyriad hwn yn ddefnydd da o adnoddau?

Un ystyriaeth bwysig ar gyfer y dull gwerthuso trosfwaol yw sut y dylid dyrannu adnoddau rhwng y gwahanol fathau o werthusiadau ar wahanol adegau yn oes y strategaeth. Dylid gwneud y penderfyniad hwn ar sail dau brif ffactor:

- Yr angen i sicrhau fod y gwerthusiad yn ei gyfanrwydd yn rhoi darlun cyfannol o berfformiad y strategaeth.
- Argaeledd data ar wahanol adegau yn oes y strategaeth.

Ar draws oes y strategaeth, disgwylir y bydd pwyslais y gwerthusiad yn symud o werthuso proses yn gynnar tuag at werthuso effaith ac economaidd wrth i'r data angenrheidiol ddod ar gael. Bydd gwerthuso canlyniadau yn ffurfio pont rhwng y ddau gam hyn drwy ddarparu tystiolaeth o unrhyw newidiadau sy'n dod i'r amlwg mewn canlyniadau cyn gynted â phosibl fel y gellir defnyddio'r canfyddiadau hyn i lywio cynlluniau cyflenwi terfynol y strategaeth.

## Dull gwerthuso a phecyn cymorth gwerthusadwyedd

Er mwyn darparu ffordd strwythuredig o feddwl am werthusiad o HWHW, awgrymir pedair ystyriaeth i asesu gwerthusadwyedd gwahanol agweddau ar HWHW, fel yr amlinellir isod.

- **Argaeledd Data** – Beth ellir ei wneud gyda'r data sy'n cael ei gasglu ar hyn o bryd neu y gellir ei gasglu'n ymarferol yn ystod oes y strategaeth?
- **Cost** – A yw cost unrhyw werthusiad posibl yn realistig mewn termau gros ac o ran ei gymesuredd â chost gweithredu'r rhaglen?
- **Amseroldeb** – A yw'r gwerthusiad yn ddigon amserol i ganiatáu i'w ganlyniadau gael eu bwydo'n ôl i benderfyniadau cynllunio'r strategaeth?
- **Cadernid** – A yw'r gwerthusiad yn ddigon cadarn yn ei ddulliau ac yn ddigon cyfannol ei ddulliau i ddarparu tystiolaeth gredadwy o lwyddiant y strategaeth?

Mae'r pecyn cymorth yn darparu ffordd strwythuredig o flaenoriaethu gwerthuso mewn amgylchedd sy'n gyfyngedig o ran adnoddau. Mewn theori, gallai fod digon o ddata ac adnoddau i bob polisi HWHW gael gwerthusiad proses, canlyniad, effaith ac economaidd cynhwysfawr, ond yn ymarferol nid yw hyn yn ddichonadwy oherwydd cyfyngiadau data, adnoddau ac, mewn rhai achosion, argaeledd technegau gwerthuso cadarn addas.

Mae hefyd yn darparu dull o ystyried dichonoldeb y gwerthusiadau yn ystod oes y strategaeth. Fodd bynnag, cydnabyddir y gellid pennu gwerthusiadau fesul achos a gall fod

achosion lle gallai gwerthusiad symud ymlaen hyd yn oed os bydd y pecyn cymorth yn cynhyrchu argymhelliad gwahanol. Cymhwysir y pecyn cymorth mewn dau gam:

- **Cam 1** – Mae dichonoldeb y math o werthusiad sy'n cael ei ystyried ar gyfer y rhaglen/polisi dan sylw yn cael ei sgorio allan o 4 ar gyfer pob un o'r pedair ystyriaeth allweddol.
- **Cam 2** – Cyfunir y pedwar sgôr hyn i ffurfio sgôr gyfartalog wedi'i thalgrynnu sy'n benodol i'r rhaglen/polisi a'r math o werthusiad a gynigir. Bydd y sgôr gyfartalog hon yn rhoi arweiniad ynghylch a yw'r math hwnnw o werthusiad yn ymarferol ac yn ddymunol ar gyfer y rhaglen/polisi dan sylw. Mae cyfartaledd wedi'i dalgrynnu o 3 neu 4 yn dynodi argymhelliad ar gyfer gwerthuso. Yr eithriad i'r rheol hon yw'r achos lle ceir sgôr o 0 allan o 4 ar gyfer unrhyw un o'r pedair ystyriaeth allweddol sydd wedyn yn drech na'r cyfartaledd ac yn dangos na argymhellir gwerthuso.

Nodir system sgorio lawn a darperir enghreifftiau wedi'u gweithio allan yn adrannau 7 ac 8 i ddangos sut y gallai hyn weithio'n ymarferol.

## Casgliad ac argymhellion

Un casgliad y gellir ei dynnu o'r ymchwil a gynhaliwyd yw bod llawer o gyfle ar gyfer gwerthusiadau proses, effaith ac economaidd, ac mae'n bosibl bwrw ymlaen â rhai ar gyfer y strategaeth gyffredinol ac ar gyfer sawl polisi unigol. Bydd rhai rhannau o HWHW hefyd nad yw'n ymarferol eu gwerthuso'n unigol oherwydd cyfyngiadau data, cost, amseroldeb neu gadernid. Byddai angen mireinio'r asesiad gwerthuso wrth i fanylion pellach ddod ar gael am y strategaeth a pholisïau unigol.

Mae'r pwynt terfyn ar gyfer ble i dynnu llinell rhwng yr hyn sy'n werthusadwy a'r hyn nad yw'n werthusadwy yn dibynnu ar rai penderfyniadau nad ydynt wedi'u gwneud, megis cyfanswm y gwariant ar werthusiad HWHW dros ei oes a natur y newidiadau polisi a wneir yn y dyfodol i weithredu'r strategaeth. Rydym wedi darparu pecyn cymorth ar gyfer asesu ble i dynnu'r llinell wrth i'r penderfyniadau hyn gael eu gwneud.

Rhai argymhellion a fydd yn helpu i gynyddu gwerthusadwyedd:

- Cymhwyso'r pecyn cymorth yn gynnar a'i adolygu'n rheolaidd.
- Ystyried cynlluniau monitro yn gynnar a phenderfynu lle mae angen casglu data ychwanegol.
- Casglu data gwaelodlin, yn enwedig o ran gwerthuso newid systemau a yrrir gan strategaeth gyffredinol HWHW.

# 1. Cefndir

1.1 Comisiynwyd Alma Economics gan Lywodraeth Cymru i asesu gwerthusadwyedd eu strategaeth Pwysau Iach: Cymru Iach i atal a lleihau gordewdra. I'r diben hwn, rydym wedi asesu'r opsiynau sydd ar gael ar gyfer gwerthuso strategaeth o'r math hwn ac wedi darparu argymhellion ynghylch pa un ohonynt sydd fwyaf priodol a pham. Mae'r asesiad yn ystyried ehangder y mathau o werthusiadau a nodir yn Llyfr Magenta Trysorlys EM ac yn ceisio pennu'r ffordd orau o'u cyfuno i ddarparu dull gwerthuso cyfannol.

1.2 Elfen allweddol arall o'r gwaith hwn fu darparu dealltwriaeth fanwl o'r 'llwybrau newid' sy'n gysylltiedig â strategaeth HWHW. I'r diben hwn, datblygwyd fframwaith rhesymeg sy'n nodi'r mecanweithiau y disgwylir i weithgareddau'r strategaeth eu defnyddio i arwain at welliannau yn iechyd a llesiant pobl.

1.3 Mae gweddill yr adroddiad hwn wedi'i strwythuro fel a ganlyn. Yng ngweddill Adran 1, ceir rhoi rhywfaint o wybodaeth gefndir am gyd-destun gordewdra yng Nghymru a'r strategaeth Pwysau Iach: Cymru Iach ei hun. Mae Adran 2 yn cyflwyno canfyddiadau'r adolygiad llenyddiaeth o'r dulliau gwerthuso strategol. Dengys Adran 3 y fframwaith rhesymeg a ddatblygwyd gennym ac mae'n amlinellu'r tybiaethau sylfaenol. Mae Adran 4 yn crynhoi allbynnau o gyfweliadau â rhanddeiliaid a ddefnyddiwyd i lywio'r asesiad gwerthuso. Noda Adrannau 5 a 6 y damcaniaethau a dulliau gwerthuso, gan gynnwys esboniad o dechnegau gwerthuso a ffynonellau data perthnasol. Mae Adrannau 7 ac 8 yn egluro'r pecyn cymorth a ddatblygwyd gennym ar gyfer asesu gwerthusadwyedd y rhaglenni a'r polisïau sy'n rhan o'r strategaeth HWHW ac mae'n rhoi enghreifftiau o gymhwyso'r pecyn cymorth. Noda Adran 9 rai o'r pryderon ymarferol a fydd yn berthnasol i werthuswyr y dyfodol eu cadw mewn cof. Yn olaf, mae Adran 10 yn amlinellu ein casgliadau a'n hargymhellion.

## Pwysau Iach: Cymru Iach

1.4 Mae'r strategaeth Pwysau Iach: Cymru Iach yn gynllun 10 mlynedd a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru i helpu i wneud y dewis iachach yn ddewis hawdd i bobl Cymru. Nod y strategaeth yw siapio'r amgylcheddau a'r lleoliadau y mae pobl yn byw ynddynt er mwyn galluogi'r boblogaeth i wneud gwell dewisiadau cadarnhaol o ran ffordd o fyw er mwyn cynnal neu gadw at bwysau

iach. Drwy rymuso pobl Cymru yn y modd hwn, nod y strategaeth yw rhoi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd i genedlaethau'r presennol a'r dyfodol a'r cyfle i fyw bywydau hirach, gwell a hapusach.

1.5 Gellir ystyried bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn gosod y sylfeini ar gyfer dylunio'r strategaeth (Llywodraeth Cymru, 2015). Mae'r strategaeth yn defnyddio pum ffordd o weithio'r Ddeddf fel set o egwyddorion arweiniol ar gyfer ei dull seiliedig ar systemau o annog pwysau iach yng Nghymru.[1] Cynlluniwyd y ffyrdd o weithio i alluogi arweinyddiaeth ar bob lefel a'u bwriad yw cynyddu effaith y strategaeth ar brofiadau bywyd cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol. Bwriad y strategaeth hefyd yw cyfrannu'n uniongyrchol at nodau'r Ddeddf o greu Cymru iachach, fwy cyfartal a chydnerth.

1.6 Dechreuodd y strategaeth o ddifrif yn 2019 pan nododd y llywodraeth eu cynllun cyflenwi cyntaf ar gyfer 2020-22. Hwn oedd y cyntaf mewn cyfres o bum cynllun cyflenwi 2 flynedd a fydd yn nodi gweithgareddau'r strategaeth wrth iddynt esblygu dros ei hoes.[2] Drwy rannu'r cyfnod 10 mlynedd yn 5 cynllun cyflenwi, gellir diweddaru'r strategaeth yn rheolaidd i ddiwallu unrhyw anghenion sy'n dod i'r amlwg neu'n newid.

1.7 Bydd gwaith y strategaeth yn ceisio ysgogi cynnydd ar hyd pedair thema eang:

- **Amgylcheddau iach** – ei nod yw cefnogi pobl i allu gwneud dewisiadau iach. Bydd hyn yn canolbwyntio ar newid y ffordd y mae pobl yn siopa, yn bwyta allan, yn teithio, neu sut y maent yn defnyddio mannau awyr agored.
- **Lleoliadau iach** – yn datblygu amgylcheddau cefnogol i hyrwyddo dewisiadau iachach. Mae hyn yn cynnwys lleoliadau gofal plant, ysgolion ac addysg uwch ac addysg bellach, gweithleoedd a lleoliadau cymunedol.
- **Pobl iach** – darparu cyngor, gwybodaeth a chefnogaeth. Mae hyn yn cynnwys rhoi cyfle i bobl drafod eu dewisiadau ffordd o fyw yn rheolaidd gyda gweithwyr iechyd a gofal proffesiynol.
- **Arweinyddiaeth a galluogi newid** – i ysgogi gwell arweinyddiaeth ac atebolrwydd i gyflenwi Pwysau Iach: Cymru Iach ar draws pob sector.

[1] Pum ffordd o weithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yw meddwl tymor hir, integreiddio, cynnwys, cydweithio ac atal.
[2] Yn anffodus, fe wnaeth pandemig Covid-19 ddileu agweddau ar gynllun cyflenwi 2020-22 ac adlewyrchwyd hyn mewn cynllun cyflenwi diwygiedig ar gyfer 2021-22.

## Gwerthusiad yng nghyd-destun Pwysau Iach: Cymru Iach

1.8 Fel rhan o'r strategaeth, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i fonitro a gwerthuso cynnydd yn barhaus. Bydd gwerthuso'r strategaeth yn darparu buddion o safbwynt dysgu ac atebolrwydd a bydd yn hanfodol i sicrhau bod adnoddau'n cael eu dyrannu i bolisïau a rhaglenni y dangosir eu bod yn arwain at ganlyniadau.

1.9 Bydd elfen werthuso'r strategaeth yn chwarae rhan fawr wrth sicrhau aliniad rhwng y strategaeth a phum ffordd o weithio Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Llywodraeth Cymru, 2015). Gwerthuso yw'r unig ffordd o sicrhau y gellir gwneud penderfyniadau ynghylch pa agweddau o’r strategaeth y dylid eu haddasu, eu hehangu, eu parhau neu eu dirwyn i ben gyda'r dystiolaeth orau bosibl. Fel budd deuol, gallai'r gwerthusiad ysgogi cydweithrediad a chyfranogiad y cyhoedd a rhanddeiliaid, os caiff ei ddylunio'n gywir. Byddai cynnwys dulliau gwerthuso ansoddol sy'n ceisio mewnbwn y grwpiau hyn yn caniatáu iddynt ddylanwadu'n uniongyrchol ar esblygiad y strategaeth wrth symud ymlaen.

1.10 Nid ystyriaeth ddibwys yw'r ffordd y mae ac y dylai’r ymrwymiad hwn i werthuso edrych yn ymarferol, o ystyried cymhlethdod y strategaeth, y cyfyngiadau ynghylch argaeledd data a’r gyllideb, a’r angen i unrhyw werthusiad fod yn ddigon cadarn ac amserol. Dylai unrhyw ddull posibl ddod mor agos at fodloni’r holl ofynion hyn â phosibl, felly mae angen ffordd strwythuredig o feddwl am sut y dylid barnu’r cyfaddawdu rhwng y gofynion cystadleuol hyn.

1.11 Gellid gwerthuso strategaeth o’r cwmpas a’r cymhlethdod hwn mewn amrywiaeth o ffyrdd. Diben yr adroddiad hwn yw datblygu asesiad gwerthuso i benderfynu pa opsiwn, neu gyfuniad o opsiynau, sy’n briodol ar gyfer y strategaeth Pwysau Iach: Cymru Iach.

# 2. Adolygiad llenyddiaeth: gwerthusiadau tebyg

1.12 Fel rhan o'n hasesiad o werthusadwyedd y strategaeth Pwysau Iach: Cymru Iach, cynhaliwyd adolygiad llenyddiaeth a oedd â'r nod o ddeall dulliau diweddar o werthuso strategaethau tebyg i HWHW o ran cymhlethdod a chynnwys. Ystyriodd yr adolygiad hwn lenyddiaeth a gyhoeddwyd yn ystod y 5 mlynedd diwethaf a chanfuwyd nifer fach o ddulliau gwerthuso perthnasol drwy ddefnyddio technegau ansoddol a meintiol.

1.13 Canfyddiad allweddol yr adolygiad hwn oedd bod tystiolaeth o werthusiadau cyfannol a chynhwysfawr o strategaethau perthnasol a'u cydrannau yn brin. Gellir dadlau nad oedd yr un o'r astudiaethau a adolygwyd yn cynnig cipolwg sylweddol ar sut y dylai gwerthusiad cynhwysfawr o HWHW edrych, ac mae'r maes hwn yn cynrychioli bwlch tystiolaeth clir yn y llenyddiaeth ddiweddar. Wedi dweud hynny, darparodd nifer o werthusiadau rai mewnwelediadau sydd, o'u cyfuno, yn mynd beth o'r ffordd i ddangos sut beth y dylai gwerthusiad o'r strategaeth Pwysau Iach: Cymru Iach fod.

1.14 Efallai mai'r enghraifft fwyaf perthnasol yn y llenyddiaeth ddiweddar yw Dull Pwysau Iach Amsterdam (AHWA) o ystyried ei fod yn debyg iawn i HWHW o ran ei gwmpas a'i nodau. Mae'r AHWA yn strategaeth sy'n defnyddio dull system gyfan i wella gweithgarwch corfforol, diet a chwsg plant trwy weithredu yn y cartref, y gymdogaeth, yr ysgol a'r ddinas (Sawyer et al., 2021). Mae adolygiad o lwyddiant AHWA yn seiliedig ar setiau o nodau allbwn, canlyniadau ac effaith sy'n cael eu diweddaru bob dwy i dair blynedd. Y syniad yw fod y cynlluniau cyflenwi cychwynnol yn canolbwyntio ar allbynnau, gyda'r ffocws wedyn yn symud i ganlyniadau ac effeithiau wrth i'r strategaeth aeddfedu. Mae'r nodau'n cynnwys metrigau fel:

- Gweithgareddau: 'Gosod 50 o ffynhonnau dŵr ychwanegol mewn mannau cyhoeddus, 1,734 o ymgynghoriadau bwyta'n iach, cyhoeddi 2 lyfr ryseitiau cymdogaeth, 300 o lysgenhadon iechyd i hybu ffyrdd iach o fyw, 14 ffreutur chwaraeon iach, 11 cymdogaeth wedi ymrwymo i Gytundeb Pwysau Iach ar y cyd'.

- Allbynnau: ‘Nodi 1,200 o blant sy’n ddifrifol ordew ac yn cael eu trin, dwy ran o dair o blant 14 ac 16 oed yn cerdded neu’n beicio i’r ysgol, mwy o blant yn yfed uchafswm o ddau wydraid o ddiodydd llawn siwgr y dydd’ (UNICEF, 2020).

1.15 Er nad yw AHWA wedi’i werthuso’n ffurfiol, mae’r dull hwn yn rhoi syniad o sut y gallai ffocws gwerthusiad strategol newid dros amser o ran allbynnau, canlyniadau ac effeithiau, ac mae’n darparu dangosyddion a allai fod yn bwysig ar gyfer asesu llwyddiant HWHW.

1.16 Mae astudiaeth berthnasol arall yn ymwneud â gwerthusiad o Raglen Gordewdra Plentyndod Leeds. Defnyddiodd y gwerthusiad ddulliau meintiol i asesu effaith y rhaglen ar gyfraddau gordewdra ar lefel dinas, ac yn benodol mewn ardaloedd o amddifadedd uwch (Rudolf et al., 2018). Cynhaliwyd atchweliad syml a oedd yn cymharu cyfraddau gordewdra ymhlith plant yn Leeds â rhai'r cymdogaethau cyfagos a Lloegr (fel sefyllfa lled-wrthffeithiol) dros amser. Fe wnaethant hefyd haenu'r canlyniadau yn ôl amddifadedd ardal gan fod hyn yn dangos cydberthynas uchel â gordewdra. Felly, mae'r strategaeth yn manteisio ar debygrwydd rhwng ardaloedd gyda’r ymyriad a heb yr ymyriad i greu math o arbrawf naturiol.

1.17 Er bod modd cymharu’r pwnc dan sylw, mae hwn yn werthusiad o raglen lawer culach o safbwynt thematig a daearyddol na HWHW, gan ei bod yn canolbwyntio’n llwyr ar ddadansoddi canlyniadau terfynol (h.y. lefelau gordewdra). O ganlyniad, mae ffocws cul y gwerthusiad hwn yn annhebygol o fod yn addas at y diben i rywbeth mor eang â HWHW. Fodd bynnag, gallai’r enghraifft hon fod yn ddefnyddiol i ddeall sut y gallai agwedd feintiol gwerthusiad o’r strategaeth gyfan edrych, er enghraifft ar lefel genedlaethol neu ranbarthol.

1.18 O ystyried y dystiolaeth ddiweddar gyfyngedig ar werthuso strategaethau atal a lleihau gordewdra, rydym hefyd wedi ystyried dau adolygiad systematig. Mae’r adolygiadau’n ystyried gwerthusiadau o ymyriadau atal gordewdra cymhleth ac maent yn ychwanegu persbectif ar sut yr oedd llenyddiaeth ychydig yn hŷn yn ceisio delio â’r her unigryw o werthuso dulliau system gyfan o ymdrin â gordewdra. Ystyriodd Bagnall et al., (2019) 33 o astudiaethau blaenorol a chanfuwyd bod technegau gwerthuso proses ac economaidd wedi’u tangynrychioli’n arbennig mewn dulliau gwerthuso diweddar ac awgrymodd y dylid eu gwneud yn fwy amlwg wrth symud ymlaen. Mae hyn oherwydd y gallant alluogi canlyniadau gwell ar gyfer yr ymyriad presennol ac ymyriadau yn y

dyfodol trwy alluogi penderfynwyr i ddod o hyd i ffyrdd o oresgyn rhwystrau i effeithiolrwydd a dysgu o brofiadau blaenorol yn ogystal â phenderfynu sut y gellir cyflawni gwerth am arian.

1.19 Mae’r Cyngor Ymchwil Feddygol (2021) hefyd yn awgrymu y gall gwerthuso proses helpu i benderfynu pam fod ymyriad yn methu neu’n arwain at ganlyniadau nas rhagwelwyd, neu pam ei fod yn gweithio a sut y gellir ei optimeiddio. Gall canfyddiadau o'r fath hwyluso datblygiad pellach o ddamcaniaeth y rhaglen ymyrraeth. Maent hefyd yn amlygu pwysigrwydd ymgysylltu â rhanddeiliaid fel rhywbeth sy’n hanfodol ar gyfer blaenoriaethu cwestiynau ymchwil, cyd-ddatblygu damcaniaeth rhaglen, dewis y persbectif ymchwil mwyaf defnyddiol, a goresgyn rhwystrau ymarferol i werthuso a gweithredu. Fodd bynnag, mae hefyd yn argymell y dylai ymchwilwyr fod yn ymwybodol o wrthdaro buddiannau ymhlith rhanddeiliaid a defnyddio dulliau tryloyw i gofnodi gwrthdaro buddiannau posibl.

1.20 Yn yr un modd, cynhaliodd Karacebeyli et al., (2018) adolygiad o werthusiadau canlyniadau meintiol, a daethpwyd i’r casgliad bod rhaid i ymyriad atal gordewdra plentyndod aml-leoliad ac aml-gydran sy’n dibynnu ar gyfranogiad gweithredol rhanddeiliaid cymunedol fuddsoddi amser ac ymdrech i ymgysylltu â’r gymuned yn gyntaf cyn dechrau gwerthuso canlyniadau. Trafodir pwysigrwydd ymgysylltu â rhanddeiliaid ymhellach yn Adran 9. Mae'r adolygiad yn tynnu sylw at y ffaith bod dull system gyfan o leihau ac atal gordewdra yn dal i fod yn fethodoleg gymharol newydd ac, yn yr un modd, fod enghreifftiau ansawdd uchel o'i werthusiad yn brin.

1.21 I grynhoi, mae’r llenyddiaeth wedi dangos mai ychydig iawn o ymdrechion diweddar a wnaed i werthuso strategaeth sy’n debyg i HWHW o ran cwmpas, cymhlethdod a ffocws ar ordewdra. Eithriad i'r canfyddiad cyffredinol hwn yw'r dull gwerthuso ar gyfer AHWA. Mae adroddiad 2020 UNICEF yn rhoi enghraifft o sut yr aethpwyd ati i werthuso strategaeth hynod debyg, sydd â goblygiadau uniongyrchol i’r asesiad gwerthuso. Yn ogystal, mae gwerthusiad Rhaglen Gordewdra Plentyndod Leeds yn rhoi enghraifft o sut y gellir gwerthuso effaith lefel uchel y strategaeth ar ganlyniadau gordewdra yn feintiol.

# 3. Cyfweliadau â rhanddeiliaid

1.22 Er mwyn llywio datblygiad yr adroddiad hwn, cyfwelwyd 18 o randdeiliaid a oedd â dealltwriaeth fanwl o HWHW. Roedd hyn yn cynnwys cynrychiolaeth o Lywodraeth Cymru, Cynghrair Gordewdra Cymru, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe a Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

1.23 Bwriad y cyfweliadau hyn oedd ceisio deall strategaeth HWHW a'r polisïau sylfaenol yn well, yn ogystal â thrafod rôl monitro a gwerthuso i lywio'r pecyn cymorth asesu gwerthusadwyedd. Roedd y cyfweliadau yn ymdrin â pholisïau ac ymyriadau perthnasol, monitro a chasglu data ac ystyriaethau ar gyfer gwerthuso.

1.24 Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pwyntiau trafod allweddol o'r cyfweliadau, a ddefnyddiwyd fel man cychwyn i lunio'r asesiad gwerthuso.

| Thema | Pwyntiau trafod allweddol |
|---|---|
| **Polisïau ac ymyriadau** | • Gallai enghraifft o ymyriad perthnasol gynnwys newidiadau mewn hysbysebu bwyd a diod afiach.<br>• Gallai fod cyfyngiadau hefyd ar leoliad siopau cludfwyd ger ysgolion.<br>• Gallai gwahardd bwydydd sy'n uchel mewn braster, siwgr a halen (HFSS) yn rhannol helpu i orfodi newidiadau mewn ymddygiad. Gallai'r cyfyngiadau hyn fod yn wahanol i ddarparwyr gwahanol sydd i gyd o dan yr un cyfyngiadau ar hyn o bryd, ond sydd â lefelau gwahanol o ryngweithio â gordewdra ymhlith plant.<br>• Mae targedu plant yn eu blynyddoedd cynnar yn hanfodol i gael effaith.<br>• Mae cael dewisiadau fforddiadwy a digon o ddewis yn bwysig. |
| **Damcaniaeth Newid** | • Mae Covid-19 wedi gwaethygu anghydraddoldebau iechyd ac wedi gwneud pobl yn fwy ymwybodol o'r angen i fod yn iach.<br>• Mae angen canolbwyntio ar wneud dewis iach yn haws yn hytrach na hysbysu a chynyddu cynigion. Mae'n ymwneud â bod pethau'n hygyrch, yn weladwy, yn fforddiadwy ac yn hyfyw.<br>• Her allweddol i effaith yw bod gordewdra wedi ei normaleiddio. |

| Thema | Pwyntiau trafod allweddol |
|---|---|
| | • Bydd Brexit, Covid-19 a'r argyfwng costau byw yn gwaethygu amddifadedd ac yn gwneud bwydydd iach sydd eisoes yn ddrutach yn gymharol ddrutach fyth. |
| **Ffynonellau data a awgrymir** | • Arolwg Cenedlaethol Cymru.<br>• Rhaglen Mesur Plant Cymru.<br>• Chwaraeon Cymru.<br>• Fframwaith canlyniadau iechyd y cyhoedd.<br>• Bwrdd gweithredu cenedlaethol.<br>• Arolwg chwaraeon ysgol.<br>• Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion. |
| **Cyfyngiadau data** | • Mae angen gwella'r broses o gasglu data yn sylweddol. Mae angen i'r broses fod yn fwy ystyriol ac mae angen ei chyfleu i'r rhai sy'n casglu'r data o ran pam y dylai fod yn flaenoriaeth i osgoi problemau cyfredol o ran data coll.<br>• Ar hyn o bryd, dim ond data da ar ddangosyddion proses sy'n bodoli, gyda chymharol ychydig ar allbynnau a chanlyniadau.<br>• Mae angen cymryd mesuriadau cenedlaethol yn amlach.<br>• Mae casglu data ar draws rhanbarthau yn dameidiog ac felly mae angen ei gysoni.<br>• Mae data lefel poblogaeth yn gyfyngedig, yn enwedig i'r rhai nad ydynt yn rhyngweithio â gwasanaethau monitro ac sydd ar goll o'r data.<br>• Mae bwlch data dros y ddwy flynedd ddiwethaf oherwydd cau ysgolion o ganlyniad i bandemig Covid-19.<br>• Dylai mwy o ddata gael ei gasglu gan feddygon teulu (e.e., taldra a phwysau), ond bydd hyn angen cymhelliant i feddygon teulu gasglu'r data.<br>• Ni chesglir dadansoddiadau ar rai grwpiau, megis grwpiau ethnigrwydd a grwpiau anabledd. |
| **Ystyriaethau ar gyfer gwerthusiadau** | • Nid yw bob amser yn glir o werthusiadau a yw'r strategaeth yn bodloni'r amcanion, y dylid eu diffinio'n glir.<br>• Mae angen inni benderfynu a oes amrywiad yn yr effaith ar draws byrddau iechyd.<br>• Dylid ystyried yr effaith ar anghydraddoldeb ac ar draws rhanbarthau gwahanol.<br>• Dylid barnu HWHW ar sail a yw'n gwneud gweithgaredd yn fwy hygyrch a fforddiadwy, gan eu bod yn rhwystrau mawr. |

| Thema | Pwyntiau trafod allweddol |
|---|---|
| | • Dylid canolbwyntio ar ganlyniadau plant, gan fod newid eu hymddygiad yn haws ac yn cael effaith hirach.<br>• Mae ymgysylltu â rhanddeiliaid a'u hymrwymiad yn hollbwysig.<br>• Dylid defnyddio offer ansoddol hefyd i gofnodi ymddygiad a phenderfyniadau pobl.<br>• Dylid gwerthuso a yw'r ymyriadau wedi arwain at newid mewn ymddygiad a phenderfyniadau.<br>• Mae angen i werthusiadau fod yn rhai tymor hir gan na fydd canlyniadau i'w gweld am gyfnod, ond dylai fod allbynnau/canlyniadau tymor byr hefyd. |
| **Dangosyddion ar gyfer gwerthuso** | • Mynegai Màs y Corff.<br>• Ansawdd bywyd sy'n benodol i ordewdra (QSQL) gan ddefnyddio holiadur cyd-destunol.<br>• Effaith ar wasanaethau iechyd (cost a galw).<br>• Cyfraddau clefydau cronig.<br>• Dangosyddion proses.<br>• Canran yr oedolion/plant sydd â dau neu fwy o ymddygiadau ffordd iach o fyw (o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol).<br>• Iechyd corfforol a meddyliol cyffredinol pobl.<br>• Rhestrau aros y GIG.<br>• Cyfraddau atgyfeirio gan feddygon teulu i ganolfannau/ cyfleusterau ymarfer corff.<br>• Gostyngiadau yn nifer yr achosion o salwch sy'n gysylltiedig â gordewdra (h.y., diabetes).<br>• Canran y plant sy'n mynd i'r dosbarth derbyn/ ysgol gynradd/ ysgol uwchradd sy'n ordew neu dros bwysau.<br>• Newidiadau yn nosbarthiad pwysau, nid dim ond y rhai sydd dros y trothwy dros bwysau neu drothwy gordew.<br>• Mesur lefelau cyfranogiad mewn teithio llesol ac ymarfer corff.<br>• Mae defnyddio arolygon i brofi a yw dealltwriaeth pobl o sut mae ennill pwysau yn digwydd a sut y gall colli pwysau ddigwydd wedi gwella ers HWHW.<br>• Dangosydd llwyddiant fyddai i ba raddau y mae'r GIG a sefydliadau iechyd eraill wedi integreiddio HWHW yn eu cynlluniau.<br>• Mesur faint o’r bwyd sy’n cael ei fwyta yng Nghymru sy’n ‘iach’. |

# 4. Model rhesymeg a damcaniaethau newid

1.25 Un o amcanion yr astudiaeth werthusadwyedd hon oedd datblygu fframwaith dadansoddol cadarn sy'n nodi'r mecanweithiau i ymdrin â gweithgareddau'r strategaeth Pwysau Iach: Cymru Iach a sut maent yn effeithio ar ganlyniadau sy'n gysylltiedig â gordewdra yng Nghymru. I'r diben hwn, rydym wedi datblygu fframwaith integredig o Ddamcaniaethau Newid (ToCs) a Modelau Rhesymeg sy'n darparu ffordd strwythuredig o feddwl ynghylch a fydd y strategaeth gyfan yn gwireddu ei nod o atal a lleihau gordewdra, a sut y bydd hynny'n digwydd. Mae'r fframwaith yn nodi'n benodol y cadwyni achosol i ddangos y llwybr damcaniaethol y bydd gweithgareddau'n eu defnyddio i drosi'n ddilyniannol i allbynnau, canlyniadau tymor byr ac effeithiau tymor hir.

1.26 Ategwyd datblygiad y fframwaith hwn gan broses ymgysylltu helaeth â rhanddeiliaid a oedd yn cynnwys rhanddeiliaid o Fyrddau Iechyd Cymru, Llywodraeth Cymru, y byd academaidd, Iechyd Cyhoeddus Cymru a Chynghrair Gordewdra Cymru.

1.27 Diffinnir yr elfennau penodol yn y fframwaith hwn fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| **Gweithgareddau:** | yn cynnwys y gweithgareddau yr ymgymerir â hwy fel rhan o'r strategaeth Pwysau Iach: Cymru Iach – *er enghraifft, buddsoddi mewn llwybrau teithio llesol i Barciau Cenedlaethol Cymru* |
| **Allbynnau:** | yn cynrychioli cynnyrch uniongyrchol Pwysau Iach: Cymru Iach – *er enghraifft, cilomedrau ychwanegol o lwybrau beicio* |
| **Canlyniadau:** | yn cynrychioli'r canlyniadau canolradd sy'n llifo o allbynnau – *er enghraifft, gwneud teithio llesol yn fwy hygyrch* |
| **Effaith:** | yn cynrychioli'r manteision mewn meysydd allweddol sy'n deillio o ganlyniadau – *er enghraifft, mwy o oedolion a phlant yn cynnal pwysau iach* |

1.28 Mae'n bwysig nodi, er bod y dilyniant rhesymegol yn cael ei gyflwyno'n weledol ar ffurf llinellol, mae hyn yn amlwg yn symleiddio realiti. Mae'r ffyrdd y bydd allbynnau pob gweithgaredd yn rhyngweithio â'i gilydd i gynhyrchu'r newidiadau mewn canlyniadau ac effeithiau disgwyliedig yn hynod rifog a chymhleth. Fel y

cyfryw, byddai ceisio eu cynnwys i gyd yn y graffeg yn difetha pwynt yr ymarfer, sef darparu fframwaith defnyddiol ac ymarferol i feddwl am y mecanweithiau sydd wrth wraidd y strategaeth.

1.29 Mae’n bwysig gwahaniaethu rhwng damcaniaeth newid a model rhesymeg. Er bod y termau yn aml yn cael eu defnyddio'n gyfnewidiol, maent mewn gwirionedd yn cyfeirio at ddulliau ychydig yn wahanol. Mae ein hdull ni'n harneisio manteision cymharol pob un i fynd i'r afael â'r her benodol o fodelu strategaeth gyda chymhlethdod HWHW. Rydym yn defnyddio'r diffiniadau gweithredol canlynol:

- **Damcaniaeth Newid (ToC):** Siart llif, diagram neu ddisgrifiad sy'n dangos **sut** a **pham** y bydd y gweithgareddau a gynhelir yn amlygu eu hunain trwy newidiadau mewn canlyniadau ac/neu effeithiau. Manylir ar y Damcaniaethau Newid ar gyfer chwe is-thema HWHW yn yr adran nesaf.
- **Model Rhesymeg:** Graffeg sy'n cynrychioli'r ddamcaniaeth o sut mae ymyriad yn cynhyrchu ei ganlyniadau. Mae’n cynrychioli, mewn ffordd **symlach**, ddamcaniaeth neu ‘ddamcaniaeth newid’ ynghylch sut mae ymyriad yn gweithio. Cynhyrchwyd model rhesymeg ar gyfer y strategaeth HWHW trosfwaol o ystyried cymhlethdod y rhaglen.

1.30 Y gwahaniaeth rhwng y ddau ddull hyn yw’r dyfnder y maent yn ei ddefnyddio o ran disgrifio’r dilyniant rhesymegol a ysgogir gan bolisi, rhaglen, digwyddiad neu strategaeth. Mae model rhesymeg yn nodi'r dilyniant rhesymegol yn unig, sef **sut**, tra bod Damcaniaeth Newid (ToC) yn cynnwys ystyriaeth o'r mecanweithiau achosol sy'n gyrru'r dilyniant, neu **pam**.

## Y dull trosfwaol

1.31 Mae'r strategaeth Pwysau Iach: Cymru Iach yn hynod gymhleth yn yr ystyr ei bod yn ceisio defnyddio dull cyfannol sy'n seiliedig ar systemau i fynd i'r afael â gordewdra. O'r herwydd, mae'n cynnwys degau o bolisïau a rhaglenni sy'n ceisio ymdrin â'r mater o amrywiaeth o onglau. I roi cyfrif am y cymhlethdod hwn, tra’n darparu ffordd strwythuredig a defnyddiol o feddwl am y mecanweithiau achosol sy’n sail i waith y strategaeth, rydym wedi datblygu fframwaith sy’n cyfuno model rhesymeg â chwe Damcaniaeth Newid. Mae'r dull yn cyfuno'r ehangder y gellir ei gyflawni drwy ddefnyddio modelau rhesymeg â'r dyfnder a ychwanegir trwy gymhwyso methodoleg ToC. Mae’r model rhesymeg yn rhoi trosolwg eang o’r

strategaeth, tra bod y damcaniaethau yn manylu ar y cadwyni achosol ar lefel polisi a rhaglen.

| **Model Rhesymeg** | **Strategaeth Pwysau Iach: Cymru Iach** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Damcaniaethau Newid** | Amgylcheddau Bwyd Iach | Amgylcheddau Actif Iach | Lleoliadau Dysgu Iach | Lleoliadau Gwaith a Chymunedol Iach | Pobl Iach: Atal ac Ymyrraeth Gynnar | Pobl Iach: Gwasanaethau wedi'u Targedu ac Arbenigol |

1.32 Mae'r model rhesymeg lefel strategaeth yn rhoi darlun symlach o'r dilyniannau rhesymegol sy'n sail i'r strategaeth gyfan. Hefyd, mae'r model rhesymeg yn dwyn ynghyd holl is-gydrannau'r strategaeth ac yn rhoi trosolwg o sut y byddant yn ategu ei gilydd wrth gyflawni nodau'r strategaeth. Yn yr achos hwn, y model rhesymeg yw'r offeryn gorau gan ei fod yn darparu ffordd hygyrch o ystyried ehangder y strategaeth a'r ffyrdd y bydd gwahanol gydrannau'n gweithio gyda'i gilydd.

1.33 Ategir y model rhesymeg trosfwaol hwn gan chwe damcaniaeth newid sy'n darparu sylfaen ddamcaniaethol ar gyfer y mecanweithiau achosol sy'n sail i chwech o brif is-themâu'r strategaeth. Rhennir y ToCs yn ôl is-thema gan ei fod yn cynrychioli lefel o ronynnedd, lle gall pob ToC amlinellu'n gynhwysfawr y mecanweithiau achosol perthnasol sydd ar waith tra'n parhau i fod yn ddigon hygyrch i fod yn ymarferol ddefnyddiol. Wedi dweud hynny, nid oes yr un o is-elfennau'r strategaeth yn gweithredu ar eu pen eu hunain, ac felly mae'n ymhlyg mai dim ond o ganlyniad i'r dull systemau y seiliwyd y strategaeth arno y gellir cyflawni llawer o'r canlyniadau a'r effeithiau a ragwelir. Gall hyn hefyd fod â goblygiadau o ran gweithgareddau gwerthuso, gan y gallai'r canlyniadau a ddisgwylir ym mhob gwerthusiad prosiect fod yn wahanol i'r gwerthusiad strategaeth cyffredinol sy'n cyfuno'r holl brosiectau.

1.34 Mae pedwaredd thema'r strategaeth, sef arweinyddiaeth a galluogi newid, wedi'i gwreiddio drwy'r saith graffeg fel galluogwr i'r themâu eraill a'r strategaeth yn ei chyfanrwydd. Mae'r thema hon yn wahanol i'r lleill gan ei bod wedi'i theilwra'n benodol ar gyfer creu fframwaith a phensaernïaeth sy'n cyfoethogi'r gwaith a wneir o dan y themâu eraill yn hytrach na chael polisïau neu raglenni annibynnol eu hunain. Er ei bod yr un mor hanfodol i lwyddiant y strategaeth, mae ei natur yn

ddigon gwahanol fel ei bod yn haeddu dull amgen o’i chynnwys yn y fframwaith hwn.

## Y model rhesymeg

1.35 Rhennir y model yn bennaf yn dair colofn a phedair rhes. Mae'r rhesi'n adlewyrchu'r strwythur gweithgareddau, allbynnau, canlyniadau ac effeithiau a amlinellir ym mharagraff 1.20. Mae pob rhes yn cynnwys saith adran sy'n cwmpasu'r chwe is-thema yn ogystal â'r gydran arweinyddiaeth a galluogi newid, sydd, fel y disgrifiwyd yn flaenorol, yn cael ei weld fel galluogwr sy'n cyfoethogi'r tair thema arall. Yn weledol, mae'r rhyngweithio hwn â'r tair thema arall yn cael ei gynrychioli gan ei rychwant ar draws colofnau'r thema arall.

1.36 Mae pob adran yn nodi’r gweithgareddau lefel uchel, yr allbynnau neu’r canlyniadau ar gyfer y priod (is-)themâu, gyda’r gweithgareddau mewn un is-thema yn arwain yn uniongyrchol at yr allbynnau sy’n gysylltiedig â’r is-thema honno, ac ati. Mae effeithiau tymor hir yn eithriad gan mai dim ond o ganlyniad i’r canlyniadau cyfunol a gynhyrchir gan bob un o’r pedair thema y bydd yr effeithiau hyn yn cael eu cyflawni. O ganlyniad, ni ellir eu priodoli i unrhyw thema neu is-thema ar wahân, ond yn hytrach i'r strategaeth gyfan. Yn weledol, adlewyrchir hyn gan absenoldeb unrhyw raniadau cysylltiedig â thema neu is-thema yn y rhes hon.

| Amgylcheddau Iach | Lleoliadau Iach | Pobl Iach |
|---|---|---|

## Gweithgareddau

### Amgylchedd Bwyd
- Cymell hysbysebu cyfrifol.
- Hyrwyddo ailfformiwleiddio bwyd a diod.
- Creu rhwystrau i gyrchu bwydydd afiach.
- Annog pecynnu llawn gwybodaeth.
- Cefnogi darpariaeth bwyd a diod iach.

### Dysgu Iach
- Hyrwyddo diet iach a symudiad cynnar mewn lleoliadau gofal plant.
- Integreiddio maeth iach a gweithgaredd corfforol i gwricwlwm ysgol.
- Darparu bwyd a diod iach yn ogystal â llwybrau teithio llesol sy'n cysylltu ysgolion a chymunedau

### Atal ac Ymyrraeth Gynnar
- Darparu cymorth ymarferol ac ariannol ychwanegol i rieni newydd a darpar rieni, yn enwedig i'r rheini mewn ardaloedd difreintiedig.
- Annog cyfathrebu ac ymgysylltu rhwng gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a'r cyhoedd ynghylch manteision cynnal pwysau iach.

### Amgylchedd Actif
- Ehangu rhwydwaith teithio llesol.
- Buddsoddi mewn llwybrau beicio diogel a pharthau cerddwyr.
- Creu mannau gwyrdd newydd ac ehangu mynediad i Barciau Cenedlaethol ac AHNE.
- Gwella cyfleusterau chwaraeon a chwarae.

### Lleoliadau Gwaith a Chymunedol Iach
- Gwreiddio rhaglenni ffordd iach o fyw yn y gweithle.
- Cynyddu opsiynau bwyd iach a theithio llesol mewn gweithleoedd.
- Cynyddu'r ddarpariaeth o fwyd a diod iach mewn lleoliadau cymunedol.

### Gwasanaethau wedi'u Targedu ac Arbenigol
- Ehangu'r defnydd o NERS yng Nghymru.
- Datblygu rhaglenni a arweinir gan ddeieteg.
- Darparu gwasanaethau rheoli pwysau arbenigol i'r rhai mewn angen.
- Galluogi mynediad i lawdriniaeth bariatrig i'r rhai mewn angen.

### Arweinyddiaeth Integredig a Galluogi Newid
- Datblygu dull systemau yn seiliedig ar y dyfodol.
- Monitro a gwerthuso cerrig milltir a chanlyniadau.
- Adrodd cynnydd yn erbyn dangosyddion allweddol yn rheolaidd.
- Datblygu cynllun cyfathrebu clir ac effeithiol.
- Integreiddio ffyrdd iachach o fyw a gweithgarwch corfforol yn fframwaith cynllunio'r GIG ar gyfer darparu gwasanaethau clinigol.

## Canlyniad

### Amgylchedd Bwyd
- Symud tuag at hysbysebu cynnyrch iachach.
- Mwy o fwyd a diod iach ar gael.
- Cynhyrchion afiach yn wynebu trethi ychwanegol.
- Mwy o wybodaeth i ddefnyddwyr.
- Llai o fynediad at fwydydd afiach mewn cymunedau.

### Dysgu Iach
- Mwy o raglenni hyfforddi ar gyfer gweithwyr lleoliadau blynyddoedd cynnar.
- Cwricwlwm sy'n integreiddio maeth a gweithgaredd corfforol drwyddo draw.
- Rhwydwaith teithio llesol mwy o amgylch campysau.
- Mwy o ddarpariaeth o fwyd a diod iach mewn ysgolion.

### Atal ac Ymyrraeth Gynnar
- Cefnogaeth ehangach i rieni newydd a darpar rieni i annog arferion magu plant cadarnhaol.
- Mwy o sianeli cyfathrebu rhwng gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a'r cyhoedd, gan gynnwys drwy ymgyrchoedd addysgiadol.

### Amgylchedd Actif
- Rhwydwaith teithio llesol mwy.
- Mwy o gymunedau a llwybrau cyfeillgar i gerddwyr a beicwyr.
- Mwy o fannau gwyrdd a gwell defnydd ohonynt.
- Cyfleusterau chwaraeon a chwarae ychwanegol a gwell.

### Lleoliadau Gwaith a Chymunedol Iach
- Rhaglenni a pholisïau ffordd iach o fyw newydd ar gyfer gweithleoedd a chymunedau.
- Rhwydwaith teithio llesol ehangach ac opsiynau prydau iachach mewn gweithleoedd.
- Mwy o ddewisiadau bwyd iach ar gael

### Gwasanaethau wedi'u Targedu ac Arbenigol
- Mwy o atgyfeiriadau trwy NERS.
- Ehangu'r ddarpariaeth o wasanaethau rheoli pwysau, rhaglenni dan arweiniad dieteteg a llawfeddygaeth bariatrig, yn enwedig i'r rhai mewn ardaloedd difreintiedig.

### Arweinyddiaeth Integredig a Galluogi Newid
- Dull systemau o ymdrin â gordewdra a phwysau iach yng Nghymru.
- Cyhoeddi adroddiadau technegol rheolaidd sy'n dangos cynnydd.
- Partneriaid cyflenwi atebol.
- Ffyrdd iach o fyw a gweithgarwch corfforol yn rhan annatod o gynllunio'r GIG.

## Canlyniadau Tymor Byr

### Amgylchedd Bwyd
- Gwell mynediad at fwyd a diod iach.
- Llai o fwyta braster dirlawn, halen a siwgr.
- Defnyddwyr mwy gwybodus.

### Dysgu Iach
- Opsiynau hamdden egnïol a theithio yn ddewis sy'n apelio fwyfwy.
- Plant a phobl ifanc â dealltwriaeth well o'r hyn sy'n gyfystyr â diet iach a ffordd o fyw actif iach.

### Atal ac Ymyrraeth Gynnar
- Mynediad ehangach i rieni newydd a darpar rieni at y cymorth sydd ei angen arnynt i wneud penderfyniadau iach ar gyfer eu plant.
- Mae dewisiadau magu plant iach yn gynyddol yn ddewis hawdd.

### Amgylchedd Actif
- Mwy o ardaloedd mynediad ar gyfer hamdden egnïol fel mannau gwyrdd, Parciau Cenedlaethol ac AHNE
- Mae opsiynau teithio llesol yn gynyddol ddiogel, ymarferol ac apelgar ar gyfer

### Lleoliadau Gwaith a Chymunedol Iach
- Gwell mynediad at opsiynau teithio llesol iach ar gyfer cymudo.
- Opsiynau bwyd a diod iach mwy hygyrch a fforddiadwy mewn gweithleoedd a chymunedau.

### Gwasanaethau wedi'u Targedu ac Arbenigol
- Mwy o fynediad at ystod o wasanaethau arbenigol ar gyfer cymunedau lleol, yn enwedig i gymunedau mewn ardaloedd o amddifadedd.

### Arweinyddiaeth Integredig a Galluogi Newid
- Amgylchedd lle mae arweinyddiaeth gref, atebolrwydd a
- llywodraethu yn amlwg ar bob lefel o'r strategaeth a lle maent yn
- gweithredu fel sail ar gyfer cynnydd ar bob dimensiwn.
- Monitro effeithiol o'r cynnydd a wneir yn erbyn meini prawf gwerthuso'r strategaeth.
- Bydd y cyhoedd a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn ymwybodol o sut mae cynnydd yn erbyn gordewdra yn esblygu ledled Cymru.

## Effeithiau Hirdymor

### Unigolion
- Arferion maeth iachach i blant ac oedolion.
- Gwell llesiant corfforol a meddyliol.
- Mwy o blant ac oedolion yn cynnal pwysau iach.
- Llai o ordewdra ymhlith plant ac oedolion.
- Llai o achosion o glefydau cronig a achosir gan ordewdra.
- Mwy o blant yn dechrau ysgol gyda phwysau iach.

### Cymdeithas
- Llai o anghydraddoldebau iechyd a diet.
- Amgylchedd mwy cynaliadwy.
- Llai o absenoldebau salwch yn y gweithle.
- Llai o wariant ar gostau gofal iechyd sy'n gysylltiedig â gordewdra.

## Damcaniaethau Newid

1.37 Mae'r damcaniaethau newid i gyd wedi'u strwythuro yn yr un ffordd:

- Mae'r **problemau** yn amlygu'r materion allweddol gyda'r status quo mewn perthynas â'r thema dan sylw.
- Mae **rhagdybiaeth** sy'n nodi mewn geiriau y rhesymeg y bydd gweithgareddau'r thema yn ei defnyddio i fynd i'r afael â'r problemau.
- Mae **gweithgareddau ac allbynnau** fel y'u diffinnir ym mharagraff 1.20.
- Mae **canlyniadau tymor byr** yn cael eu rhannu i ehangu dewisiadau a llunio dewisiadau. Mae achosion o **ehangu dewisiadau** yn cyfeirio at gynnydd mewn mynediad at rai cyfleoedd neu ddewisiadau iach, megis cynnydd mewn mynediad at gyfleusterau chwarae a chwaraeon o ansawdd uchel mewn ardaloedd o amddifadedd. Mae **llunio dewisiadau** yn cyfeirio at ganlyniadau lle y gwnaed dewis iach presennol yn gymharol haws neu'n fwy apelgar o'i gymharu â'r dewis afiach presennol, fel defnyddwyr yn dod yn fwy ymwybodol o gynnwys caloriau eu pryniannau.
- Mae **effeithiau tymor hir** wedi'u rhannu'n **well llesiant**, sy'n cyfeirio at fuddion i unigolion, a **buddion ehangach i gymdeithas,** sy'n cyfeirio at fuddion i gymdeithas gyfan. Er y gall pob un o'r gweithgareddau a gyflawnir fel rhan o'r strategaeth fod yn ymylol gysylltiedig â phob un o'r buddion tymor hir a nodir yn y model rhesymeg, dim ond y rhai y gellir eu holrhain yn uniongyrchol yn ôl i weithgareddau thema benodol sydd wedi'u cynnwys yn y ToCs.
- Mae'r adran **arweinyddiaeth integredig a galluogi newid** yn gyson ar draws y chwe ToC ac yn nodi'r ffyrdd y bydd y maes hwn o'r strategaeth yn sail i'r gwaith a wneir ym mhob un o'r is-themâu eraill ac yn ei wella.

1.38 Mae **dylanwadau ehangach** yn cynrychioli'r tueddiadau cenedlaethol a byd-eang sydd allan o reolaeth llunwyr polisi neu bartneriaid cyflenwi, ac a fydd yn gweithredu naill ai fel galluogwyr neu gyfyngiadau i'r is-thema gyflawni ei nodau. Cefnogir y rhagdybiaethau yn ogystal â'r cysylltiadau rhwng gweithgareddau'r strategaeth a'r effeithiau yn y pen draw gan dystiolaeth o'r llenyddiaeth academaidd a'r llenyddiaeth lwyd. Isod, rhestrir crynodeb o'r canfyddiadau allweddol, gyda'r rhestr lawn o ffynonellau ar gael yn Atodiad A.

| Is-thema | Crynodeb o’r canfyddiadau |
|---|---|
| **Amgylchedd bwyd** | • Oedolion a oedd yn gweld hysbysebion bwyd yn cynyddu eu defnydd o fyrbrydau afiach o 28%.[3]<br>• Trethiant ar fwyd a diod afiach yn arwain at lai o ddefnydd o'r cynhyrchion hyn ac at i gwmnïau ailfformiwleiddio eu cynhyrchion.[4]<br>• Labelu calorïau yn arwain at ostyngiad yn y defnydd o galorïau.[5] |
| **Amgylchedd actif** | • Manteision iechyd teithio llesol ar lefel y boblogaeth yn cynnwys llai o ordewdra a chyfraddau uwch o weithgarwch corfforol.[6]<br>• Arweiniodd y rhaglen Llwybrau Diogel i'r Ysgol yn UDA at gynnydd o hyd at 25% mewn cerdded a beicio.[7]<br>• Mae tystiolaeth yn awgrymu y gall cyfrannau ardal leol o fannau gwyrdd fod yn gysylltiedig â hapusrwydd a boddhad bywyd.[8]<br>• Mae mynychu ysgol â seilwaith a chyfleusterau is-safonol yn lleihau'r tebygolrwydd o gymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol pan yn oedolyn. Mae anweithgarwch corfforol yn cynyddu'r risg o ganser, clefyd y galon, strôc a diabetes o 20–30%.[9] |
| **Lleoliadau dysgu iach** | • Lleoliadau gofal plant iach: arweiniodd darparu prydau iach i blant at sgorau ansawdd diet uwch.[10]<br>• Ysgolion iach: roedd ysgolion gyda seilwaith a chyfleusterau gwael yn lleihau'r tebygolrwydd o wneud gweithgareddau corfforol pan yn oedolion.[11] |
| **Lleoliadau Gwaith a Chymunedol Iach** | • Arweiniodd darparu gwasanaethau bwyd iach mewn gweithleoedd at fwyta mwy o ffrwythau a llysiau a llai o fwyta bwyd cyflym.[12] |
| **Atal ac ymyrraeth gynnar** | • Mae maint ac/neu ansawdd diet is-safonol yn cyfrannu at golli potensial datblygu a gwahaniaethau iechyd ac economaidd gydol oes.[13] |
| **Gwasanaethau wedi’u targedu ac arbenigol** | • Mae maint ac/neu ansawdd diet is-safonol yn cyfrannu at golli potensial datblygu a gwahaniaethau iechyd ac economaidd gydol oes.[14] |

[3] Zimmerman, F.J. and Shimoga, S.V., 2014. The effects of food advertising and cognitive load on food choices. BMC Public Health, 14(1), pp.1-10.
[4] Economics observatory, 2021. Would taxes on unhealthy foods reduce obesity?
[5] Crockett, R., King, S., Marteau, T., Prevost, A., Bignardi, G., Roberts, N., Stubbs, B., Hollands, G., Jebb, S., 2018. Nutritional labelling for healthier food or non-alcoholic drink purchasing and consumption. Cochrane Database of Systematic Reviews 2018, Issue 2.
[6] Pucher, J., Buehler, R., Bassett, D.R. and Dannenberg, A.L., 2010. Walking and cycling to health: a comparative analysis of city, state, and international data. American journal of public health, 100(10), pp.1986-1992.
[7] McDonald, N.C., Steiner, R.L., Lee, C., Rhoulac Smith, T., Zhu, X. and Yang, Y., 2014. Impact of the safe routes to school program on walking and bicycling. Journal of the American Planning Association, 80(2), pp.153-167.
[8] Houlden, V., Weich, S. and Jarvis, S., 2017. A cross-sectional analysis of green space prevalence and mental wellbeing in England. BMC public health, 17(1), pp.1-9.
[9] (a) Black, N., Johnston, D.W., Propper, C. and Shields, M.A., 2019. The effect of school sports facilities on physical activity, health and socioeconomic status in adulthood. Social Science & Medicine, 220, pp.120-128. (b) WHO, 2022. Physical activity.

Mae’r Damcaniaethau Newid ar gyfer pob un o'r is-themâu hyn fel a ganlyn.

---

[10] Yoong, S.L., Grady, A., Seward, K., Finch, M., Wiggers, J., Lecathelinais, C., Wedesweiler, T. and Wolfenden, L., 2019. The impact of a childcare food service intervention on child dietary intake in care: an exploratory cluster randomized controlled trial. American Journal of Health Promotion, 33(7), pp.991-1001.
[11] Black, N., Johnston, D.W., Propper, C. and Shields, M.A., 2019. The effect of school sports facilities on physical activity, health and socioeconomic status in adulthood. Social Science & Medicine, 220, pp.120-128.
[12] Dodson, E.A., Hipp, J.A., Gao, M., Tabak, R.G., Yang, L. and Brownson, R.C., 2016. The impact of worksite supports for healthy eating on dietary behaviors. Journal of occupational and environmental medicine/American College of Occupational and Environmental Medicine, 58(8), p.e287.
[13] Hurley, K., Yousafzai, A. and Lopez-Boo, F., 2016. Early Child Development and Nutrition: A Review of the Benefits and Challenges of Implementing Integrated Interventions. Advances in Nutrition, Volume 7, Issue 2.
[14] Douglas, I.J., Bhaskaran, K., Batterham, R.L. and Smeeth, L., 2015. Bariatric surgery in the United Kingdom: a cohort study of weight loss and clinical outcomes in routine clinical care. PLoS medicine, 12(12), p.e1001925.

# Amgylcheddau Actif Iach

## Rhagdybiaeth

Drwy barhau i ehangu'r seilwaith teithio llesol yng Nghymru a thrwy wneud opsiynau teithio llesol yn fwy diogel, yn fwy hygyrch, ac yn fwy fforddiadwy, bydd teithio llesol yn dod yn ddewis amlwg dros ddewisiadau mwy eisteddog. Ymhellach, os bydd hygyrchedd mannau gwyrdd Cymru, parciau cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol yn cael eu gwella, bydd llawer mwy o Gymry yn gallu manteisio ar y lleoedd hyn ar gyfer gweithgareddau awyr agored egnïol a hamdden.

## PROBLEMAU

- Mae'r amgylchedd presennol yn dal i gefnogi'r defnydd o geir dros ddewisiadau teithio llesol fel cerdded neu feicio.
- Nid yw mannau gwyrdd, tirweddau ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) Cymru yn ddigon hygyrch i bawb fel mannau ar gyfer teithio llesol a hamdden..

## GWEITHGAREDDAU

- **Teithio Llesol:**
- Buddsoddi pellach mewn llwybrau teithio llesol a gwella Mapiau Rhwydwaith. **(ii)** Darparu asesiadau ac offer o'r effaith ar iechyd i gynllunwyr lleol. **(iii)** Buddsoddi mewn trafnidiaeth gyhoeddus a chreu canolfannau trafnidiaeth hygyrch.
- **Cymunedau Diogelach:**
- Cynnydd yn nifer y parthau 20mya mewn cymunedau a ger ysgolion. **(ii)** Buddsoddiad pellach mewn llwybrau cerdded a beicio i ysgolion.
- **Mannau Gwyrdd/Tirweddau:**
- Hwyluso mynediad i fannau gwyrdd ac arloesi ynddynt, yn enwedig mewn ardaloedd difreintiedig. **(ii)** Ehangu hygyrchedd Parciau Cenedlaethol Cymru ac AHNE.
- **Seilwaith a Chyfleusterau:**
- Gwreiddio'r goblygiadau ar gyfer gweithgarwch corfforol mewn penderfyniadau seilwaith a chyllid. **(ii)** Buddsoddiad pellach mewn cyfleusterau chwarae a chwaraeon o ansawdd uchel.

## ALLBYNNAU

### Gwell mynediad i amgylcheddau iach

- **Teithio Llesol:** Rhwydwaith ehangach o lwybrau cerdded a beicio.
- **Cymunedau Diogelach:** Mwy o barthau cyflymder isel (20mya) mewn ardaloedd preswyl a ger ysgolion.
- **Mannau Gwyrdd/Tirweddau:** **(i)** Mwy o barciau a mannau gwyrdd, yn enwedig mewn ardaloedd o amddifadedd. **(ii)** Gwell cysylltiadau trafnidiaeth rhwng cymunedau, Parciau Cenedlaethol Cymru ac AHNE naill ai trwy deithio llesol neu gludiant cyhoeddus.
- **Seilwaith a Chyfleusterau:** **(i)** Mwy o gyfleusterau chwarae a chwaraeon o ansawdd uchel, yn enwedig mewn ardaloedd o amddifadedd. **(ii)** Mwy o seilwaith sy'n cefnogi ffordd egnïol o fyw.

## CANLYNIADAU TYMOR BYR

### Ehangu dewis

- Mwy o gyfleoedd ar gyfer teithio llesol diogel ac ymarferol i oedolion a phlant.
- Ffyrdd mwy hygyrch i Gymry fanteisio ar fannau gwyrdd, Parciau Cenedlaethol ac AHNE.
- Mwy o fynediad at gyfleusterau chwarae a chwaraeon o ansawdd uchel, yn enwedig mewn ardaloedd amddifad.

### Llunio dewis

- Yn gynyddol, opsiynau teithio llesol yw'r dewis mwyaf ymarferol o'u cymharu â dewisiadau eraill eisteddog.
- Mae defnydd gweithredol o fannau gwyrdd, tirweddau ac AHNE yn cael eu gweld yn gynyddol fel dewisiadau amgen ymarferol i opsiynau hamdden mwy eisteddog.

## EFFEITHIAU HIRDYMOR

### Gwell llesiant

- Gwell llesiant corfforol a meddyliol.
- Llai o ordewdra ymhlith plant ac oedolion.
- Mwy o bobl yn cynnal pwysau iach.
- Llai o achosion o glefydau cronig.

### Buddion ehangach i gymdeithas

- Gostyngiad mewn anghydraddoldeb iechyd
- Llai o lygredd aer ac allyriadau CO2.
- Amgylchedd mwy cynaliadwy.
- Llai o absenoldebau salwch yn y gweithle.

## ARWEINYDDIAETH INTEGREDIG A GALLUOGI NEWID

- **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru):** Mae pum ffordd o weithio'r Ddeddf (tymor hir, atal, integreiddio, cydweithio a chynnwys) yn darparu'r offer a'r fframweithiau cywir i'r sefydliadau a'r partneriaethau sy'n cefnogi'r strategaeth ddangos sut y maent yn cyflenwi a chyflawni rhwymedigaethau.
- **Dull seiliedig ar systemau:** Anogir partneriaid cyflenwi i ymrwymo i siarter sy'n ceisio grymuso ffyrdd iachach o fyw a hybu gweithgaredd corfforol. Bydd y siarter hon, drwy'r Bwrdd Gweithredu Cenedlaethol, yn dwyn i gyfrif bob partner a all gefnogi a galluogi newid ledled Cymru.
- **Cyfathrebu ac ymgysylltu:** Bydd cynllun cyfathrebu yn helpu i ddod â diet iach a ffyrdd egnïol o fyw i reng flaen y drafodaeth genedlaethol. Bydd hyn yn cael ei gyfuno â dull ymgysylltu cryf sy'n derbyn ac yn cyfleu negeseuon allweddol i ac oddi wrth bartneriaid a chymunedau.

## DYLANWADAU EHANGACH

- Mae tueddiad i blant ac oedolion ifanc dreulio mwy o amser yn chwarae gemau fideo a defnyddio sgriniau yn lle cymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored, ac mae hyn yn aml yn parhau pan fyddant yn oedolion.
- Mae'r canfyddiad o'r hyn sy'n gyfystyr â phwysau iach wedi bod yn newid dros amser i'r pwynt lle mae pwysau afiach bellach yn aml yn cael ei ystyried yn 'normal'.
- Bydd yr argyfwng costau byw yn ei gwneud yn anoddach i bawb dalu am y teithio a'r offer sy'n gysylltiedig â chymryd rhan mewn rhai chwaraeon a gweithgareddau, yn enwedig i deuluoedd incwm is.
- *(Covid-19)* Efallai bod cyfyngiadau cyfnod clo wedi creu sioc barhaus mewn arferion bwyta, yn gadarnhaol ac yn negyddol.
- *(Covid-19)* Mae bregusrwydd cynyddol unigolion gordew oherwydd Covid-19 wedi cynyddu ymwybyddiaeth o beryglon gordewdra.

# Amgylcheddau Bwyd Iach

## Rhagdybiaeth

Os caiff amgylcheddau bwyd eu hailgynllunio fel bod modd sicrhau bod bwydydd iach ar gael yn well, yn fforddiadwy ac yn ddeniadol, bydd gwneud y dewis iach yn dod yn ddewis amlwg. At hynny, trwy gyfyngu ar hysbysebu cynhyrchion afiach a thrwy gryfhau'r gofynion labelu ar gyfer bwyd a diod, bydd defnyddwyr yn cael eu grymuso i wneud dewisiadau mwy gwybodus yn y siopau a'r archfarchnadoedd.

## PROBLEMAU

- Yn aml nid yw opsiynau bwyd a diod iach ar gael yn hawdd, nid ydynt mor ddeniadol a fforddiadwy â'r dewisiadau llai iach.
- Mae pobl yn cael eu peledu'n gyson â hysbysebion a chynigion sy'n eu hannog i fwyta'n afiach. Mae'r rhain yn aml yn cael eu targedu at blant ac yn ysgogi ymddygiad a phatrymau bwyta.
- Mae labeli bwyd a diod yn aml yn anghyflawn neu'n aneglur, gan ei gwneud hi'n anodd i ddefnyddwyr wneud penderfyniadau gwybodus am yr hyn y maent yn ei fwyta neu ei yfed.

## GWEITHGAREDDAU

- **Hysbysebu: (i)** Cyfyngu ar hysbysebu a hyrwyddo bwydydd sy'n uchel mewn braster dirlawn, siwgr a halen, ac annog hyrwyddo dewisiadau iach yn lle hynny.
- **Ailfformiwleiddio a chynhyrchu: (i)** Cymell ailfformiwleiddio bwyd a diod sy'n uchel mewn siwgr, halen a/neu frasterau dirlawn er mwyn datblygu dewisiadau iachach. **(ii)** Cynyddu trethiant ar gynnyrch bwyd a diod afiach.
- **Manwerthu Iachach a Gwell Gwybodaeth i Ddefnyddwyr:**
- Cymell disgownt ar gyfer cynhyrchion iach. **(ii)** Gwahardd gwerthu diodydd egni i blant a phobl ifanc. **(iii)** Deddfwriaethu ar gyfer gwell labelu maeth ar du blaen pecynnau cynhyrchion wedi'u rhagbecynnu, mewn cydweithrediad â Llywodraeth y DU.
- **Bwydydd iachach sy'n cael eu prynu a'u bwyta allan o'r cartref: (i)** Deddfu ar gyfer labelu mwy o galorïau.
- Ail-ddosbarthu sefydliadau cludfwyd poeth i gyfyngu ar eu gweithrediadau o amgylch ysgolion a chymunedau. **(iii)** Cydweithio gyda chynhyrchwyr i gynyddu faint o ffrwythau a llysiau sydd mewn prydau parod.
- **Amgylchedd Bwyd Cymunedol: (i)** Cefnogi darparwyr opsiynau bwyd iach ar y stryd fawr. **(ii)** Darparu mynediad i ddŵr yfed am ddim. **(iii)** Cefnogi busnesau bwyd lleol i ddatblygu dewisiadau bwyd iach a chynyddu cyfleoedd tyfu bwyd lleol.

## ALLBYNNAU

### Gwell mynediad i amgylcheddau iach

**Hysbysebu:** Symudiad ym mhwyslais hysbysebu bwyd a diod tuag at gynnyrch iachach.

**Ailfformiwleiddio a chynhyrchu:** Bydd llai o siwgr, halen a braster dirlawn mewn bwydydd a bydd bwyd afiach yn cael ei wneud yn ddrutach.

**Manwerthu Iachach a gwell gwybodaeth i ddefnyddwyr:** Cynhyrchion iach sy'n gymharol rhatach, llai o blant a phobl ifanc yn yfed diodydd egni, a labelu cynnyrch mwy addysgiadol.

**Amgylchedd Bwyd Cymunedol:** Mwy o opsiynau bwyd iach ar y stryd fawr gan fusnesau lleol a thu hwnt.

## CANLYNIADAU TYMOR BYR

### Ehangu dewis

Pobl yn cynyddu mynediad at gynhyrchion bwyd a diod iach

### Llunio dewis

Gostyngiad yng nghyfartaledd braster dirlawn, halen a siwgr mewn bwyd a diod.

Defnyddwyr mwy gwybodus ynghylch cynnwys y bwyd a diod y maent yn ei brynu.

## EFFEITHIAU HIRDYMOR

### Gwell llesiant

Arferion maeth iachach i blant ac oedolion.

Llai o ordewdra ymhlith plant ac oedolion.

Mwy o bobl yn cynnal pwysau iach.

Gwell llesiant corfforol a meddyliol.

Llai o achosion o glefydau cronig.

### Buddion ehangach i gymdeithas

Gostyngiad mewn anghydraddoldeb diet ac iechyd

Amgylchedd mwy cynaliadwy.

Llai o absenoldeb salwch yn y gweithle.

## ARWEINYDDIAETH INTEGREDIG A GALLUOGI NEWID

- **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru):** Mae pum ffordd o weithio'r Ddeddf (tymor hir, atal, integreiddio, cydweithio a chynnwys) yn darparu'r offer a'r fframweithiau cywir i'r sefydliadau a'r partneriaethau sy'n cefnogi'r strategaeth ddangos sut y maent yn cyflenwi a chyflawni rhwymedigaethau.
- **Dull seiliedig ar systemau:** Anogir partneriaid cyflenwi i ymrwymo i siarter sy'n ceisio grymuso ffyrdd iachach o fyw a hybu gweithgarwch corfforol. Bydd y siarter hon, drwy'r Bwrdd Gweithredu Cenedlaethol, yn dwyn i gyfrif bob partner a all gefnogi a galluogi newid ledled Cymru.
- **Cyfathrebu ac ymgysylltu:** Bydd cynllun cyfathrebu yn helpu i ddod â diet iach a ffyrdd egnïol o fyw i reng flaen y drafodaeth genedlaethol. Bydd hyn yn cael ei gyfuno â dull ymgysylltu cryf sy'n derbyn ac yn cyfleu negeseuon allweddol i ac oddi wrth bartneriaid a chymunedau.

## DYLANWADAU EHANGACH

- Bydd yr argyfwng costau byw yn gwneud unrhyw ddewisiadau bwyd neu ddiod iach sy'n ddrutach na dewisiadau eraill afiach yn llai hygyrch ac apelgar i ddefnyddwyr.
- Mae'r canfyddiad o'r hyn sy'n gyfystyr â phwysau iach wedi bod yn newid dros amser i'r pwynt lle mae pwysau afiach bellach yn aml yn cael ei ystyried yn 'normal'.
- *(Covid-19*) Mae bregusrwydd cynyddol unigolion gordew oherwydd Covid-19 wedi cynyddu ymwybyddiaeth o beryglon gordewdra.
- *(Covid-19*) Efallai bod cyfyngiadau cyfnod clo wedi creu sioc barhaus mewn arferion bwyta, yn gadarnhaol ac yn negyddol.

# Lleoliadau Dysgu Iach

## Rhagdybiaeth

Os bydd manteision diet iach a ffordd egnïol o fyw yn cael mwy o amlygrwydd yng nghwricwlwm Cymru, ac os caiff lleoliadau dysgu eu hail-ddychmygu i wneud dewisiadau iach yn haws, yna bydd plant a phobl ifanc yn fwy parod i wneud dewisiadau iach yn eu hieuenctid ac wrth iddynt symud ymlaen i fod yn oedolion.

## PROBLEMAU

- Ar hyn o bryd, nid yw llawer o leoliadau dysgu wedi'u sefydlu gyda gweithgarwch corfforol a bwyta'n iach mewn golwg, ac mae hyn yn arwain at rwystrau diangen rhwng myfyrwyr a gwneud dewisiadau iach.
- Nid yw pynciau sy'n ymwneud â maeth iach, paratoi bwyd a gweithgarwch corfforol bob amser yn cael digon o flaenoriaeth yn y cwricwlwm i gefnogi plant a phobl ifanc i wneud dewisiadau iach yn eu hieuenctid ac yn ddiweddarach mewn bywyd.

## GWEITHGAREDDAU

- **Lleoliadau Gofal Plant Iach: (i)** Cefnogi lleoliadau gofal plant i alinio eu hunain â chanllawiau bwyd, maeth a gweithgarwch corfforol Llywodraeth Cymru. **(ii)** Cefnogi ymyriadau sy'n hybu symudiad cynnar a chwarae.
- **Ysgolion Iach: (i)** Addasu'r cwricwlwm i gynnwys mwy o bynciau'n ymwneud â maeth iach a gweithgarwch corfforol. **(ii)** Hyfforddi staff fel y gallant gefnogi dysgu disgyblion ynghylch bwyd, gweithgaredd corfforol, maeth a hydradu. **(iii)** Datblygu ystod o raglenni integredig sy'n hyrwyddo bwyta'n iach, gweithgaredd corfforol, hamdden a chwaraeon ysgol. **(iv)** Integreiddio ystyriaethau bwyd a gweithgaredd corfforol i feini prawf asesu ysgolion.
- **Lleoliadau Addysg Uwch, Addysg Bellach ac Eraill Iach: (i)** Cymell darparu bwyd a diod iach ar gampysau a safleoedd. **(ii)** Cynnal ymgyrchoedd wedi'u targedu sy'n anelu at hyrwyddo dewisiadau ffordd iach o fyw. **(iii)** Gwella llwybrau teithio llesol i gampysau ac annog gweithgarwch corfforol ymhlith myfyrwyr.

## ALLBYNNAU

### Gwell mynediad i amgylcheddau iach

**Lleoliadau Gofal Plant Iach: (i)** Mwy o raglenni hyfforddi ar fwyd, maeth a gweithgarwch corfforol i weithwyr lleoliadau blynyddoedd cynnar. **(ii)** Mwy o ymyriadau sy'n hybu symudiad cynnar a chwarae

**Ysgolion Iach: (i)** Cwricwlwm sy'n hysbysu plant a phobl ifanc am fanteision diet iach a ffordd egnïol o fyw, ac athrawon sydd wedi'u hyfforddi i gyflwyno'r cwricwlwm yn effeithiol. **(ii)** Ystod o raglenni integredig sy'n hyrwyddo bwyta'n iach, gweithgarwch corfforol, hamdden a chwaraeon ysgol. **(iii)** Meini prawf asesu ysgolion sy'n gwobrwyo ysgolion am ddarparu addysg effeithiol ar fanteision diet iach a ffordd egnïol o fyw.

**Lleoliadau Addysg Uwch, Addysg Bellach ac Eraill Iach: (i)** Mwy o ddewisiadau bwyd a diod iach ar y campysau, gan gynnwys mwy o ffrwythau a llysiau ar fwydlenni ffreutur. **(ii)** Mwy o lwybrau teithio llesol i gampysau.

## CANLYNIADAU TYMOR BYR

### Ehangu dewis

- Cyfleoedd mwy hygyrch ac apelgar i blant a phobl ifanc gymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol a chwaraeon
- Opsiynau bwyd a diod iach mwy hygyrch a fforddiadwy mewn ysgolion.
- Mwy o gyfleoedd teithio llesol diogel i ysgolion.

### Llunio dewis

- Opsiynau teithio llesol yw'r dewis mwyaf apelgar yn gynyddol o'u cymharu â dewisiadau eisteddog eraill.
- Bydd plant a phobl ifanc yn tyfu i fyny gyda gwell dealltwriaeth o'r hyn sy'n gyfystyr â diet iach a ffordd o fyw actif iach.

## EFFEITHIAU HIRDYMOR

### Gwell llesiant

- Arferion maeth iachach i blant.
- Gwell llesiant corfforol a meddyliol i blant.
- Mwy o blant yn dechrau ysgol gyda phwysau iach.
- Mwy o blant yn cynnal pwysau iach.
- Llai o ordewdra plant
- Llai o achosion o glefydau cronig mewn plant.

### Buddion ehangach i gymdeithas

- Gostyngiad mewn anghydraddoldeb diet ac iechyd
- Amgylchedd mwy cynaliadwy
- Llai o absenoldeb salwch yn yr ysgol.

## ARWEINYDDIAETH INTEGREDIG A GALLUOGI NEWID

- **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru):** Mae pum ffordd o weithio'r Ddeddf (tymor hir, atal, integreiddio, cydweithio a chynnwys) yn darparu'r offer a'r fframweithiau cywir i'r sefydliadau a'r partneriaethau sy'n cefnogi'r strategaeth ddangos sut y maent yn cyflenwi a chyflawni rhwymedigaethau.
- **Dull seiliedig ar systemau:** Anogir partneriaid cyflenwi i ymrwymo i siarter sy'n ceisio grymuso ffyrdd iachach o fyw a hybu gweithgaredd corfforol. Bydd y siarter hon, drwy'r Bwrdd Gweithredu Cenedlaethol, yn dwyn i gyfrif bob partner a all gefnogi a galluogi newid ledled Cymru.
- **Cyfathrebu ac ymgysylltu:** Bydd cynllun cyfathrebu yn helpu i ddod â diet iach a ffyrdd egnïol o fyw i reng flaen y drafodaeth genedlaethol. Bydd hyn yn cael ei gyfuno â dull ymgysylltu cryf sy'n derbyn ac yn cyfleu negeseuon allweddol i ac oddi wrth bartneriaid a chymunedau.

## DYLANWADAU EHANGACH

- Mae tueddiad i blant ac oedolion ifanc dreulio mwy o amser yn chwarae gemau fideo a defnyddio sgriniau yn lle cymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored, ac mae hyn yn aml yn parhau pan fyddant yn oedolion.
- Mae'r canfyddiad o'r hyn sy'n gyfystyr â phwysau iach wedi bod yn newid dros amser i'r pwynt lle mae pwysau afiach bellach yn aml yn cael ei ystyried yn 'normal'.
- Bydd yr argyfwng costau byw yn gwneud unrhyw ddewisiadau bwyd neu ddiod iach sy'n ddrutach na dewisiadau eraill afiach yn llai hygyrch ac apelgar i ddefnyddwyr.
- Bydd yr argyfwng costau byw yn ei gwneud yn anoddach i bawb dalu am y teithio a'r offer sy'n gysylltiedig â chymryd rhan mewn rhai chwaraeon a gweithgareddau, yn enwedig i deuluoedd incwm is.
- *(Covid-19)* Mae bregusrwydd cynyddol unigolion gordew oherwydd Covid-19 wedi cynyddu ymwybyddiaeth o beryglon gordewdra.
- *(Covid-19)* Efallai bod cyfyngiadau cyfnod clo wedi creu sioc barhaus mewn arferion bwyta, yn gadarnhaol ac yn negyddol.

.

# Lleoliadau Gwaith a Chymunedol Iach

**Rhagdybiaeth**
Os caiff gweithleoedd Cymru eu cymell a'u cefnogi i greu lleoliad iachach ar gyfer eu gweithwyr, yna bydd hyn yn helpu i gefnogi'r boblogaeth oedolion yng Nghymru i barhau i fod yn egnïol, hyrwyddo ymgysylltiad cymunedol a chynnal pwysau iach.

## PROBLEMAU

- Nid yw lleoliadau gwaith a chymunedol bob amser yn canolbwyntio ar hyrwyddo ffordd iach o fyw. Mae'r bwyd a diod a gynigir yn gyffredinol yn afiach ac mae gweithleoedd yn aml wedi'u hanelu at fod â ffordd o fyw eisteddog.

## GWEITHGAREDDAU

- **Gweithleoedd Iach: (i)** Cefnogi'r gwaith o wella rhaglenni a pholisïau ffordd iach o fyw yn y gweithle. **(ii)** Treialu a gwreiddio rhaglenni gyda chyflogwyr y sector cyhoeddus i brofi mentrau bwyd a gweithgaredd corfforol. **(iii)** Defnyddio statws gwobr genedlaethol iechyd a llesiant i gymell gweithleoedd i fodloni'r meini prawf darparu bwyd a diod.
- **GIG Iach: (i)** Datblygu a gweithredu meini prawf llym sy'n sicrhau darpariaeth bwyd a diod iach ar safleoedd y GIG. **(ii)** Datblygu cynlluniau teithio llesol clir ar gyfer holl safleoedd y GIG. **(iii)** Pennu bod rhaid i Fyrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau ddangos cynnydd o ran cymorth sy'n ymwneud ag iechyd a gweithgarwch yn ogystal â gwasanaethau rheoli pwysau i'w cyflogeion.
- **Cymunedau Iach: (i)** Cynyddu darpariaeth bwyd a diod iach ar draws lleoliadau megis hamdden, sinemâu a chanolfannau cymunedol.
- **(ii)** Archwilio sut y gallai amrywiaeth o anogaethau newid y ffordd y mae arferion gwerthu bwyd yn gweithredu.

## ALLBYNNAU

### Gwell mynediad i amgylcheddau iach

- **Gweithleoedd Iach: (i)** Mwy o raglenni a pholisïau ffordd o fyw iach sy'n ymestyn yn ehangach i weithleoedd a chymunedau. **(ii)** Mentrau bwyd a gweithgarwch corfforol arloesol mewn gweithleoedd sector cyhoeddus. **(iii)** Defnydd ehangach o'r statws gwobr genedlaethol llesiant i gymell gwell ymlyniad yn y gweithle at safonau bwyd a gweithgarwch.
- **GIG Iach: (i)** Mwy o opsiynau bwyd iach ar safleoedd y GIG (ffreuturau, peiriannau gwerthu, ac ati) gyda mwy o ddognau o ffrwythau a llysiau. **(ii)** Mwy o opsiynau teithio llesol i safleoedd y GIG. **(iii)** System fonitro i asesu lefel y gefnogaeth gan Fyrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau i'w staff ynghylch iechyd a gweithgarwch.
- **Cymunedau Iach: (i)** Mwy o ddewisiadau bwyd a diod iach mewn lleoliadau fel hamdden, sinemâu a chanolfannau cymunedol. **(ii)** Offer newydd i ddylanwadu ar arferion gwerthu bwyd.

## CANLYNIADAU TYMOR BYR

### Ehangu dewis

- Opsiynau bwyd a diod iach mwy hygyrch a fforddiadwy mewn gweithleoedd a chymunedau.
- Opsiynau teithio llesol iach mwy hygyrch ar gyfer cymudo.

### Llunio dewis

- Dewisiadau bwyd a diod iach yn gynyddol yw'r dewis mwyaf deniadol.
- Opsiynau teithio llesol yw'r dewis mwyaf apelgar yn gynyddol o'u cymharu â dulliau cymudo mwy eisteddog.

## EFFEITHIAU HIRDYMOR

### Gwell llesiant

- Arferion maeth iachach
- Mwy o bobl yn cynnal pwysau iach.
- Llai o ordewdra ymhlith plant ac oedolion.
- Gwell llesiant corfforol a meddyliol.
- Llai o achosion o glefydau cronig.
- Cynnydd mewn boddhâd gwaith.

### Buddion ehangach i gymdeithas

- Gostyngiad mewn anghydraddoldeb diet ac iechyd
- Amgylchedd mwy cynaliadwy
- Llai o absenoldeb salwch yn y gweithle.

## ARWEINYDDIAETH INTEGREDIG A GALLUOGI NEWID

- **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru):** Mae pum ffordd o weithio'r Ddeddf (tymor hir, atal, integreiddio, cydweithio a chynnwys) yn darparu'r offer a'r fframweithiau cywir i'r sefydliadau a'r partneriaethau sy'n cefnogi'r strategaeth ddangos sut y maent yn cyflenwi a chyflawni rhwymedigaethau.
- **Dull seiliedig ar systemau:** Anogir partneriaid cyflenwi i ymrwymo i siarter sy'n ceisio grymuso ffyrdd iachach o fyw a hybu gweithgaredd corfforol. Bydd y siarter hon, drwy'r Bwrdd Gweithredu Cenedlaethol, yn dwyn i gyfrif bob partner a all gefnogi a galluogi newid ledled Cymru.
- **Cyfathrebu ac ymgysylltu:** Bydd cynllun cyfathrebu yn helpu i ddod â diet iach a ffyrdd egnïol o fyw i reng flaen y drafodaeth genedlaethol. Bydd hyn yn cael ei gyfuno â dull ymgysylltu cryf sy'n derbyn ac yn cyfleu negeseuon allweddol i ac oddi wrth bartneriaid a chymunedau.

## DYLANWADAU EHANGACH

- Mae'r canfyddiad o'r hyn sy'n gyfystyr â phwysau iach wedi bod yn newid dros amser i'r pwynt lle mae pwysau afiach bellach yn aml yn cael ei ystyried yn 'normal'.
- Bydd yr argyfwng costau byw yn gwneud unrhyw ddewisiadau bwyd neu ddiod iach sy'n ddrutach na dewisiadau eraill afiach yn llai hygyrch ac apelgar i ddefnyddwyr.
- Bydd yr argyfwng costau byw yn ei gwneud yn anoddach i bawb dalu am y teithio a'r offer sy'n gysylltiedig â chymryd rhan mewn rhai chwaraeon a gweithgareddau, yn enwedig i deuluoedd incwm is.
- *(Covid-19)* Efallai bod cyfyngiadau cyfnod clo wedi creu sioc barhaus mewn arferion bwyta, yn gadarnhaol ac yn negyddol.
- *(Covid-19)* Mae bregusrwydd cynyddol unigolion gordew oherwydd Covid-19 wedi cynyddu ymwybyddiaeth o beryglon gordewdra.

# Pobl Iach: Atal ac Ymyrraeth Gynnar

## Rhagdybiaeth

Os bydd rhieni newydd a darpar rieni, yn enwedig y rheiny mewn ardaloedd amddifad, yn cael mwy o gymorth gyda dewisiadau iach y gallant eu gwneud ar gyfer eu plant, byddant yn fwy abl i sefydlu arferion iach yn y rhan hollbwysig hon o blentyndod. At hynny, trwy feithrin yr ymddygiadau hyn yn ifanc, maent yn fwy tebygol o barhau â nhw pan ydynt yn oedolion.

## PROBLEMAU

- Nid yw rhieni bob amser yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt i wneud penderfyniadau hyderus a gwybodus am eu maethiad a gweithgarwch corfforol eu hunain na'u plant.
- Mae rhieni mewn ardaloedd lle mae anghydraddoldebau iechyd ar eu huchaf yn aml yn wynebu heriau o ddydd i ddydd sy'n amharu ar eu gallu i droi bwriadau da yn ddewisiadau iach.

## GWEITHGAREDDAU

- **Y Cychwyn Gorau: (i)** Rhoi gwybodaeth ac arweiniad i bob darpar riant ar gynllunio dewisiadau ffordd o fyw cadarnhaol. **(ii)** Rhoi hyfforddiant ychwanegol i fydwragedd ac ymwelwyr iechyd trwy raglen Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif fel y gallant roi cymorth i bobl ar ddiet a maeth. **(iii)** Rhoi mynediad i bob rhiant newydd at gymorth ar gyfer dechrau a chynnal bwydo ar y fron. **(iv)** Datblygu cynlluniau i gefnogi teuluoedd i weithredu arferion rhianta cadarnhaol. **(v)** Cefnogi rhieni ar incwm isel gyda chefnogaeth ariannol ychwanegol a gyda gwybodaeth sy'n hyrwyddo dewisiadau maeth da i'w plentyn. **(vi)** Defnyddio marchnata digidol a ffynonellau gwybodaeth ar y we i ddarparu negeseuon wedi'u teilwra i rieni (newydd).
- **Twf a Datblygiad Iach:** Datblygu rhaglenni sy'n annog maethiad da a gweithgarwch corfforol, yn enwedig mewn ardaloedd gyda lefelau uchel o anghydraddoldebau iechyd.
- **Yn Iach am Oes: (i)** Annog gweithwyr gofal iechyd proffesiynol i gychwyn sgyrsiau gyda phobl am bwysau fel mater o drefn. **(ii)** Datblygu ymgyrchoedd addysgiadol ar gyfer oedolion a phlant sy'n darparu cyngor dibynadwy a chyfredol yn seiliedig ar wyddor ymddygiad a gwybodaeth awdurdodol ar y we. **(iii)** Darparu cymorth rheoli pwysau ymyrraeth gynnar a gwasanaethau sy'n seiliedig ar weithgarwch corfforol trwy bresgripsiynu cymdeithasol. **(iv)** Gweithio gyda Byrddau Iechyd Lleol i fonitro effeithiolrwydd cymorth atal ac ymyrraeth gynnar.

## ALLBYNNAU

### Atal effeithlon, ymyrraeth gynnar a gwasanaethau arbenigol

**Y Cychwyn Gorau: (i)** Mwy o wybodaeth i ddarpar rieni ar gynllunio ffordd iach o fyw. **(ii)** Mwy o fydwragedd ac ymwelwyr iechyd sy'n gallu darparu gwybodaeth arbenigol am ddiet a maeth.**(iii)** Mwy o wybodaeth i rieni ar sut i reoli bwydo ar y fron. **(iv)** Mwy o gefnogaeth i rieni o ran arferion rhianta cadarnhaol. **(v)** Cefnogaeth ariannol a gwybodaeth ychwanegol i rieni incwm isel.

**Twf a Datblygiad Iach: (i)** Atebion a arweinir yn lleol i annog bwyta'n iach a symud mwy. **(ii)** Darparu bwyd iach yn ystod gwyliau ysgol.

**Yn Iach am Oes: (i)** Pwyslais ychwanegol ar weithwyr gofal iechyd proffesiynol a phobl yn trafod gordewdra a ffyrdd o fynd i'r afael ag ef. **(ii)** Ymgyrchoedd gwybodaeth newydd yn seiliedig ar wyddoniaeth sy'n rhoi cyngor ar iechyd a maeth. **(iii)** Mwy o fynediad at gymorth rheoli pwysau ymyrraeth gynnar a gweithgareddau corfforol a ragnodwyd yn gymdeithasol.

## CANLYNIADAU TYMOR BY

### Ehangu dewis

Bydd rhieni newydd a darpar rieni yn cael mwy o fynediad at gymorth ymarferol, gwybodaeth ac ariannol ynghylch arferion rhianta cadarnhaol ac iach.

### Llunio dewis

Bydd gwneud dewisiadau iach a hybu arferion maeth da ar gyfer eu plant yn dod yn gymharol haws i rieni newydd a darpar rieni.

## EFFEITHIAU HIRDYMOR

### Gwell llesiant

- Arferion maeth iachach i blant a rhieni.
- Mwy o fenywod beichiog a phlant ifanc yn cynnal pwysau iach.
- Gwell llesiant corfforol a meddyliol.
- Llai o ordewdra ymhlith plant ac oedolion.
- Llai o achosion o glefydau cronig.

### Buddion ehangach i gymdeithas

- Gostyngiad mewn anghydraddoldeb diet ac iechyd
- Amgylchedd mwy cynaliadwy

## ARWEINYDDIAETH INTEGREDIG A GALLUOGI NEWID

- **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru):** Mae pum ffordd o weithio'r Ddeddf (tymor hir, atal, integreiddio, cydweithio a chynnwys) yn darparu'r offer a'r fframweithiau cywir i'r sefydliadau a'r partneriaethau sy'n cefnogi'r strategaeth ddangos sut y maent yn cyflenwi a chyflawni rhwymedigaethau.
- **Dull seiliedig ar systemau:** Anogir partneriaid cyflenwi i ymrwymo i siarter sy'n ceisio grymuso ffyrdd iachach o fyw a hybu gweithgaredd corfforol. Bydd y siarter hon, drwy'r Bwrdd Gweithredu Cenedlaethol, yn dwyn i gyfrif bob partner a all gefnogi a galluogi newid ledled Cymru.
- **Cyfathrebu ac ymgysylltu:** Bydd cynllun cyfathrebu yn helpu i ddod â diet iach a ffyrdd egnïol o fyw i reng flaen y drafodaeth genedlaethol. Bydd hyn yn cael ei gyfuno â dull ymgysylltu cryf sy'n derbyn ac yn cyfleu negeseuon allweddol i ac oddi wrth bartneriaid a chymunedau.

## DYLANWADAU EHANGACH

- Mae'r canfyddiad o'r hyn sy'n gyfystyr â phwysau iach wedi bod yn newid dros amser i'r pwynt lle mae pwysau afiach bellach yn aml yn cael ei ystyried yn 'normal'.
- Bydd yr argyfwng costau byw yn gwneud unrhyw ddewisiadau bwyd neu ddiod iach sy'n ddrutach na dewisiadau eraill afiach yn llai hygyrch ac apelgar i ddefnyddwyr.
- *(Covid-19)* Efallai bod cyfyngiadau cyfnod clo wedi creu sioc barhaus mewn arferion bwyta, yn gadarnhaol ac yn negyddol.
- *(Covid-19)* Mae bregusrwydd cynyddol unigolion gordew oherwydd Covid-19 wedi cynyddu ymwybyddiaeth o beryglon gordewdra.

# Pobl Iach: Gwasanaethau Wedi'u Targedu

## Rhagdybiaeth

Bydd darparu cymorth wedi'i dargedu ac arbenigol i gymunedau lleol yn helpu i atal achosion o ordewdra a, lle mae gordewdra eisoes yn bresennol, gall y gwasanaethau hyn leihau'r tebygolrwydd y byddant yn dod yn achosion eithafol.

## PROBLEMAU

- Nid yw cymorth arbenigol yn ddigon hygyrch i lawer o bobl a theuluoedd a all fod ei angen. Mae hyn yn arbennig o wir yn achos y rhai sydd mewn ardaloedd amddifad.

## GWEITHGAREDDAU

- **Cymorth Arbenigol: (i)** Monitro llwybr gordewdra a arweinir yn glinigol i ddangos sut mae gwasanaethau wedi'u targedu ac arbenigol yn perfformio, yn atebol trwy fframweithiau cynllunio'r GIG. **(ii)** Targedu'r Cynllun Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff i'r rhai â chyflyrau cronig sy'n gysylltiedig â gordewdra. **(iii)** Datblygu rhaglenni a arweinir gan ddeieteg a yrrir gan dystiolaeth **(iv)** Darparu gwasanaethau rheoli pwysau arbenigol amlbroffesiynol o ansawdd uchel i gymunedau lleol. **(v)** Sicrhau mynediad cyfartal i lawfeddygaeth bariatrig i'r rhai mewn angen.

## ALLBYNNAU

### Atal effeithlon, ymyrraeth gynnar a gwasanaethau arbenigol

**Cymorth Arbenigol: (i)** System fonitro y gellir ei defnyddio i werthuso gwasanaethau wedi'u targedu ac arbenigol. **(ii)** Mwy o atgyfeiriadau i unigolion â salwch cronig i raglenni ymarfer corff. **(iii)** Mynediad at raglenni iechyd a arweinir gan ddeieteg. **(iv)** Mynediad at wasanaethau rheoli pwysau o ansawdd uchel mewn cymunedau lleol. **(v)** Mynediad i lawdriniaeth bariatrig i'r rhai mewn angen.

## CANLYNIADAU TYMOR BYR

### Ehangu dewis

Mwy o fynediad at ystod o wasanaethau cymorth arbenigol ar gyfer cymunedau lleol, yn enwedig i gymunedau mewn ardaloedd o amddifadedd.

### Llunio dewis

Bydd gan y rhai sy'n ordew neu mewn perygl o ordewdra fwy o fynediad at wybodaeth am eu hopsiynau a sut i fynd i'r afael â'u cyflwr.

## EFFEITHIAU HIRDYMOR

### Gwell llesiant

- Llai o ordewdra ymhlith plant ac oedolion.
- Mwy o bobl yn cynnal pwysau iach.
- Llai o achosion o glefydau cronig.
- Gwell llesiant corfforol a meddyliol.
- Arferion maeth iachach i blant ac oedolion.
- Achosion llai eithafol o ordewdra.

### Buddion ehangach i gymdeithas

- Gostyngiad mewn anghydraddoldeb diet ac iechyd
- Amgylchedd mwy cynaliadwy
- Llai o absenoldeb salwch yn y gweithle.
- Integreiddio'r llwybr gordewdra gyda fframweithiau cynllunio'r GIG.

## ARWEINYDDIAETH INTEGREDIG A GALLUOGI NEWID

- **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru):** Mae pum ffordd o weithio'r Ddeddf (tymor hir, atal, integreiddio, cydweithio a chynnwys) yn darparu'r offer a'r fframweithiau cywir i'r sefydliadau a'r partneriaethau sy'n cefnogi'r strategaeth ddangos sut y maent yn cyflenwi a chyflawni rhwymedigaethau.
- **Dull seiliedig ar systemau:** Anogir partneriaid cyflenwi i ymrwymo i siarter sy'n ceisio grymuso ffyrdd iachach o fyw a hybu gweithgaredd corfforol. Bydd y siarter hon, drwy'r Bwrdd Gweithredu Cenedlaethol, yn dwyn i gyfrif bob partner a all gefnogi a galluogi newid ledled Cymru.
- **Cyfathrebu ac ymgysylltu:** Bydd cynllun cyfathrebu yn helpu i ddod â diet iach a ffyrdd egnïol o fyw i reng flaen y drafodaeth genedlaethol. Bydd hyn yn cael ei gyfuno â dull ymgysylltu cryf sy'n derbyn ac yn cyfleu negeseuon allweddol i ac oddi wrth bartneriaid a chymunedau.

## DYLANWADAU EHANGACH

- Mae'r canfyddiad o'r hyn sy'n gyfystyr â phwysau iach wedi bod yn newid dros amser i'r pwynt lle mae pwysau afiach bellach yn aml yn cael ei ystyried yn 'normal'.
- Bydd yr argyfwng costau byw yn gwneud unrhyw ddewisiadau bwyd neu ddiod iach sy'n ddrutach na dewisiadau eraill afiach yn llai hygyrch ac apelgar i ddefnyddwyr.
- Bydd yr argyfwng costau byw yn ei gwneud yn anoddach i bawb dalu am y teithio a'r offer sy'n gysylltiedig â chymryd rhan mewn rhai chwaraeon a gweithgareddau, yn enwedig i deuluoedd incwm is.
- *(Covid-19)* Efallai bod cyfyngiadau cyfnod clo wedi creu sioc barhaus mewn arferion bwyta, yn gadarnhaol ac yn negyddol.
- *(Covid-19)* Mae bregusrwydd cynyddol unigolion gordew oherwydd Covid-19 wedi cynyddu ymwybyddiaeth o beryglon gordewdra.

# 5. Fframwaith gwerthuso

## Mathau o werthusiadau

1.39 Yn ôl Llyfr Magenta (2020) Trysorlys EM, mae tri phrif fath o weithgaredd gwerthuso: gwerthuso proses, gwerthuso effaith a gwerthuso gwerth am arian (economaidd). Mae ein fframwaith hefyd yn ystyried gwerthuso canlyniadau fel pedwerydd math o werthusiad y gellir ei weld fel is-gategori o werthuso effaith sy'n canolbwyntio ar newidiadau tymor byr mewn canlyniadau (Public Health England, 2018). Mae'r pedwar categori hyn yn ceisio mynd i'r afael â'r cwestiynau canlynol:

**Proses** – Beth ellir ei ddysgu o'r ffordd y darparwyd yr ymyriad?

**Canlyniad** – Pa wahaniaeth y mae ymyriad wedi'i wneud yn y tymor byr?

**Effaith** – Pa wahaniaeth y mae ymyriad wedi'i wneud yn y tymor hir?

**Economaidd** – A oedd yr ymyriad hwn yn ddefnydd da o adnoddau?

1.40 Y rheswm pam ein bod yn cynnwys gwerthusiad canlyniadau ar wahân yma yw'r diffyg cyfatebiaeth rhwng gorwel amser safonol gwerthusiad effaith a chwmpas y strategaeth ar gyfer ymgorffori canlyniadau gwerthuso mewn penderfyniadau dylunio strategol yn y tymor byr i ganolig. Mae ystyried rhywfaint o effaith tymor byr (canlyniad) gwerthuso yn ychwanegu cwmpas penodol ar gyfer y math hwn o werthusiad i fwydo i mewn i ddyluniad cynlluniau cyflenwi diweddarach.

1.41 Mae Llyfr Magenta (2020) Trysorlys EM yn esbonio gwerthuso proses, effaith ac economaidd yn fanwl iawn, ac felly dim ond ar eu hagweddau a'u technegau pwysicaf ar gyfer gwerthuso HWHW y bydd yr adran hon yn canolbwyntio.

## Gwerthusiad proses

1.42 Mae gwerthusiad proses, y cyfeirir ato weithiau fel gwerthusiad gweithredu, yn asesu i ba raddau y mae ymyriad yn cael ei roi ar waith yn ôl y bwriad, a yw'r cynllun yn gweithio, a pha agweddau arno nad ydynt yn gweithio cystal a pham. Mae'r tabl isod yn amlinellu meysydd a awgrymir y gellid eu cwmpasu mewn gwerthusiad proses.

| Dimensiwn | Cwestiynau enghreifftiol ar gyfer gwerthuso proses |
|---|---|
| **Meini prawf llwyddiant** | • A oes disgrifiad clir o'r rhaglen a weithredwyd a'r hyn y mae'n ceisio ei gyflawni?<br>• Sut mae llwyddiant yn cael ei ddiffinio?<br>• A oes dealltwriaeth gyffredin o amcanion allweddol a chanlyniadau dymunol ar draws rhanddeiliaid?<br>• Sut mae'r amcanion a'r canlyniadau arfaethedig yn cael eu hadlewyrchu yn y modd y penderfynir ar lwyddiant yr ymyriad? |
| **Dysgu gwersi ar weithredu** | • Beth oedd i'w weld yn gweithio'n dda? Beth na wnaeth weithio'n dda?<br>• Pa wersi ydych chi wedi'u dysgu? Beth ellid ei wneud yn wahanol y tro nesaf?<br>• Pa rwystrau sy'n dal i fodoli? Beth ddylid ei newid neu ei wella?<br>• A fu unrhyw anghysondebau o ran cyflwyno ar draws gwahanol grwpiau? |
| **Dosbarthu gwybodaeth ac addysg** | • Pa ddull a ddefnyddiwyd i drosglwyddo cyllid i ddarparwyr?<br>• Beth oedd i'w weld yn gweithio'n dda? Beth na wnaeth weithio'n dda?<br>• Pa wersi a ddysgwyd? Beth ellid ei wneud yn wahanol y tro nesaf?<br>• Pa rwystrau sy'n dal i fodoli? Beth hoffech chi ei weld yn cael ei newid neu ei wella?<br>• A fu unrhyw anghysondebau o ran cyflwyno ar draws gwahanol grwpiau? |
| **Monitro a dysgu parhaus** | • Sut mae llwyddiant yn cael ei ddiffinio? Pa ganlyniadau dymunol fyddai hyn yn eu cynnwys?<br>• A oes cynllun cydlynol i gasglu data at ddiben monitro parhaus?<br>• A fyddai'r data a gasglwyd yn galluogi mesur llwyddiant?<br>• I ba raddau y gellir casglu data yn gyson ac yn gyfnodol yn ddibynadwy ar lefel ddigonol o fanylder a haeniad?<br>• Pa brosesau sydd ar waith i alluogi adrodd ar ddata a'i uwchgyfeirio i'r cyrff llywodraethu cywir os oes angen? |

1.43 Mae gwerthusiadau proses fel arfer yn defnyddio dull cymysg a byddant yn ymdrin â mesurau goddrychol a gwrthrychol o ba mor dda y mae ymyriad wedi'i roi ar waith. Bydd y dull cyfannol hwn o werthuso yn nodwedd allweddol o unrhyw werthusiad o HWHW, o ystyried natur ddynol-ganolog y newidiadau y

mae'r strategaeth yn ceisio eu cyflawni. Wedi dweud hynny, gall rhai technegau gwerthuso ansoddol fod yn arbennig o ddwys o ran adnoddau, ac felly gall cyfyngiadau ar adnoddau olygu efallai y bydd angen blaenoriaethu technegau sy’n cynnwys ymgysylltu’n uniongyrchol â rhanddeiliaid (h.y. cyfweliadau, grwpiau ffocws ac astudiaethau achos) ar gyfer rhai elfennau o’r strategaeth dros eraill.

1.44 Ystyriaeth allweddol arall ar gyfer gwerthuso proses yng nghyd-destun HWHW yw mynd y tu hwnt i asesu pa agweddau ar ymyriad sy’n gweithio fwy neu lai yn dda, ac ystyried sut mae hyn yn gwahaniaethu rhwng grwpiau demograffig a rhanbarthol. Bydd sicrhau bod asesiad o’r gwahaniaethau hyn yn cael ei gynnwys mewn unrhyw ddadansoddiad yn rhan hanfodol o asesu cynnydd y strategaeth tuag at ddau o’i nodau craidd, sef lleihau anghydraddoldebau iechyd a lleihau anghydraddoldebau diet. Trafodir hyn ymhellach yn Adran 9.

### Gwerthuso canlyniad ac effaith

1.45 Gellir gwerthuso effaith drwy ddefnyddio ystod eang o ddulliau, gyda'r cydbwysedd rhwng dulliau meintiol ac ansoddol yn dibynnu i raddau helaeth ar argaeledd ac ansawdd data. Gyda hynny mewn golwg, mae'n debygol y bydd unrhyw werthusiad o effaith y strategaeth HWHW neu ei chydrannau yn cynnwys dulliau cymysg i ryw raddau.

1.46 O safbwynt meintiol, mae dulliau fel dylunio diffyg parhad atchweliad (RDD),[15] gwahaniaeth-mewn-gwahaniaethau,[16] cyfateb sgôr tueddiad [17] a dulliau rheoli synthetig[18] yn rhoi ffyrdd dichonadwy o amcangyfrif yn achosol effaith rhai polisïau/rhaglenni, yn ogystal â’r strategaeth ehangach, ar ystod o ganlyniadau.

1.47 Yn ansoddol, bydd defnyddio offer megis astudiaethau achos, astudiaethau arsylwi, cyfweliadau a grwpiau ffocws yn ychwanegu haen ychwanegol o gyd-destun at y gwaith meintiol a wneir. Mae llawer o fesurau cynnydd yn heriol i’w

[15] Mae RDD yn ddull lled-arbrofol sy'n ceisio pennu effeithiau achosol ymyriadau trwy bennu terfyn neu drothwy y caiff ymyriad ei neilltuo uwchlaw neu islaw iddo.
[16] Mae hwn yn ddull lled-arbrofol sy'n cymharu'r newidiadau mewn canlyniadau dros amser rhwng poblogaeth sydd wedi cofrestru ar raglen (y grŵp triniaeth) a phoblogaeth nad yw (y grŵp cymhariaeth).
[17] Dull lle mae'r ymchwilydd yn defnyddio technegau ystadegol i lunio grŵp rheoli artiffisial trwy baru pob uned sydd wedi'i thrin ag uned heb ei thrin sydd â nodweddion tebyg. Gan ddefnyddio'r parau hyn, gall yr ymchwilydd amcangyfrif effaith ymyriad.
[18] Mae hyn yn gwerthuso effaith triniaeth mewn astudiaethau achos cymharol i bennu effaith ymyriad. Mae'n creu fersiwn synthetig o unedau wedi'u trin trwy bwysoli newidynnau ac arsylwadau yn y grŵp rheoli.

hamcangyfrif yn empirig ac felly mae profiadau a barn rhanddeiliaid yn aml yn rhoi mewnwelediad a fyddai'n cael ei golli wrth ystyried data meintiol yn unig.

1.48 Gellid ystyried gwerthusiad ar sail theori lle mae cyfyngiadau sylweddol ar gynnal technegau lled-arbrofol, yn enwedig lle mae cyfyngiadau data, cyfyngiadau cyllidebol neu lle mae angen archwilio pam na fyddai ymyriad yn gweithio, sy'n dueddol o beidio â chael ei ystyried yn astudiaethau arbrofol. Cynhelir gwerthusiadau seiliedig ar theori trwy ddatblygu Damcaniaeth Newid neu fodelau Rhesymeg yn gyntaf, fel y gwneir yn Adran 4 ac yna casglu tystiolaeth sy'n bodoli a chynnal dadansoddiad (lle bo'n bosibl) i asesu'r mecanwaith achos-ac-effaith dan sylw.

1.49 Gall dulliau gwerthuso effaith meintiol ac ansoddol fod yn gyfle gwych i ystyried goblygiadau anghydraddoldeb ymyriad. Drwy ystyried sut mae effeithiau'n amrywio rhwng grwpiau demograffig a rhanbarthol, gallant roi cipolwg ar bwy sy'n cael y budd mwyaf o'r strategaeth ac, o ganlyniad, darparu tystiolaeth o effeithiau'r strategaeth ar iechyd ac anghydraddoldebau diet. Mae ystyriaethau ymarferol o ran pennu'r grwpiau hyn a sut y dylid eu cynnwys yn cael eu trafod yn Adran 9.

1.50 Bydd gwerthuso canlyniadau tymor byr yn cynnwys yr un dulliau a nodir yn yr adran hon, ond mae'n debygol y bydd yn pwyso mwy ar dechnegau ansoddol nag sy'n wir ar gyfer gwerthuso effaith tymor hir. Mae hyn oherwydd y diffyg data priodol sydd ar gael ar yr adeg y byddai gwerthusiad canlyniad yn cael ei gynnal yng nghyd-destun HWHW.

### Gwerthusiad economaidd

1.51 Mae gwerthusiad economaidd, a elwir fel arall yn werthusiad gwerth am arian, yn cymharu costau a buddion ymyriadau i asesu i ba raddau y maent yn darparu enillion ar fuddsoddiad. Gall cwmpas y gwerthusiadau hyn amrywio'n sylweddol, a'r ffordd y caiff buddion eu diffinio yw un o brif benderfynyddion y cwmpas. Efallai y bydd gwerthusiad ehangach, mwy cyfannol yn ceisio rhoi gwerth ariannol ar fuddion llesiant cymdeithasol, tra gallai dadansoddiad mwy cyfyngedig ymwneud yn unig â buddion sy'n gwbl economaidd.

1.52 Cyfeirir yn aml at y fethodoleg werthuso ehangach hon fel dadansoddiad cost a budd (CBA), sy'n debygol o fod yr arf mwyaf priodol ar gyfer gwerthuso economaidd yng nghyd-destun HWHW. Gyda dadansoddiad cost a budd, mae'n

bosibl cael y buddion ehangach i gymdeithas sy'n gysylltiedig â gostyngiadau mewn anghydraddoldeb, llygredd aer ac allyriadau $CO_2$. Mae Llyfr Gwyrdd Trysorlys EM yn rhoi arweiniad cynhwysfawr ar y ffordd orau o amcangyfrif buddion o'r fath yn ogystal â sut i ddylunio a gweithredu CBA cadarn.

1.53 Mae ansawdd CBA sy'n cydymffurfio â'r Llyfr Gwyrdd yn dibynnu i raddau helaeth ar ansawdd y mewnbynnau data y mae'n seiliedig arnynt. Yn y senario a ffefrir, mae amcangyfrifon meintiol o effeithiau'r ymyriad a astudiwyd yn deillio o ddulliau gwerthuso effaith arbrofol, lled-arbrofol neu synthesis. Mae hyn yn amlygu'r angen i gynnal gwerthusiad economaidd ochr yn ochr â gwerthusiad effaith trwyadl. Yn absenoldeb y dystiolaeth hon, gall y llenyddiaethau llwyd ac academaidd roi sylfaen dystiolaeth o astudiaethau perthnasol a gynhaliwyd mewn cyd-destunau cymaradwy y gellir eu defnyddio i amcangyfrif buddion, ond mae'r dull hwn yn dibynnu ar lawer o ragdybiaethau ychwanegol.

1.54 Agwedd arall ar CBA a fydd yn debygol o fod yn ddefnyddiol i unrhyw werthusiad economaidd o HWHW yw dadansoddi dosbarthiad. Gellir defnyddio'r dechneg hon i ystyried costau a buddion fel y maent yn berthnasol i wahanol grwpiau poblogaeth a daearyddiaeth, felly gall gyfrannu at ddeall effeithiau dosbarthiadol ymyriad. Yn ymarferol, mae hyn yn cynnwys gwerthuso a chymharu'r buddion a'r costau ar gyfer gwahanol grwpiau yr ystyrir eu bod yn berthnasol i amcanion yr ymyriad neu'r strategaeth. Awgryma Llyfr Gwyrdd Trysorlys EM y gellid cymhwyso pwysoliadau i gostau/buddiannau pob grŵp er mwyn galluogi cydgasglu hawdd i un amcangyfrif meintiol. Er enghraifft, byddai rhoi pwysau uwch i aelwydydd incwm isel i adlewyrchu awydd i ailddosbarthu incwm yn golygu y byddai unrhyw fudd o £1 i aelwydydd incwm is yn golygu mwy na £1 o fudd i aelwydydd incwm uwch.

1.55 Mae canllawiau wedi'u diweddaru gan y Cyngor Ymchwil Feddygol (2021) yn argymell y bydd 'dulliau eang fel dadansoddi cost a budd neu ddadansoddi canlyniadau cost, sy'n ceisio casglu'r ystod lawn o gostau a buddion iechyd a chostau heb fod yn iechyd ar draws gwahanol sectorau, yn aml yn fwy addas ar gyfer gwerthusiad economaidd o ymyriad cymhleth na dulliau gweithredu culach megis cost-effeithiolrwydd neu ddadansoddiad cost-ddefnydd'.

## Esblygiad y gwerthusiad


1.56 Un ystyriaeth bwysig ar gyfer y dull gwerthuso trosfwaol yw sut y dylid dyrannu adnoddau rhwng y gwahanol fathau o werthusiadau ar wahanol adegau yn ystod oes y strategaeth. Dylid gwneud y penderfyniad hwn ar sail dau brif ffactor:

a. Yr angen i sicrhau fod y gwerthusiad ar y cyfan yn rhoi darlun cyfannol o berfformiad y strategaeth.

b. Argaeledd data ar wahanol adegau yn ystod oes y strategaeth.

1.57 Nid yw'n ymarferol darparu'r union ganrannau ar gyfer faint o'r gyllideb y dylid ei gwario ar bob math o werthusiad ex-ante gan y byddai gwneud hynny'n gofyn am wybodaeth am union gyfansoddiad y strategaeth o ran polisïau a rhaglenni, rhywbeth a fydd yn esblygu dros amser. Wedi dweud hynny, mae'n bosibl darparu arweiniad cyffredinol ynghylch dosbarthiad bras gwariant rhwng mathau o werthusiadau a sut y bydd hyn yn datblygu dros oes y strategaeth. Dyry Ffigwr 1 arweiniad arddulliedig ar sut y dylai ffocws y gwerthusiad symud dros amser.[19]

**Ffigwr 1 – Esblygiad arddulliedig o'r gwerthusiad**




1.58 Ar draws oes y strategaeth, disgwylir y bydd pwyslais y gwerthusiad yn symud o werthuso proses ar gam cynnar tuag at werthusiad effaith ac economaidd wrth i'r data angenrheidiol ddod ar gael. Bydd gwerthusiad canlyniad yn ffurfio pont rhwng y ddau gam hyn trwy ddarparu tystiolaeth o unrhyw newidiadau sy'n dod i'r

[19] Mae effaith a gwerthusiad economaidd wedi'u grwpio gyda'i gilydd yma oherwydd bod gofynion data'r ddau fath o werthusiad yn gorgyffwrdd. Gweler Mathau o Werthuso am esboniad pellach.

amlwg mewn canlyniadau cyn gynted â phosibl, fel y gellir defnyddio'r canfyddiadau hyn i lywio cynlluniau cyflenwi terfynol y strategaeth.

1.59 **Blynyddoedd 0 i 2**. I ddechrau, bydd yn gwneud synnwyr blaenoriaethu gwerthuso proses am ddau reswm. Yn gyntaf, bydd gwneud hynny yn galluogi ymarferwyr i benderfynu pa bolisïau a rhaglenni sy'n gweithio'n dda a pham, ac addasu cynlluniau cyflenwi'r dyfodol yn unol â hynny. Yn ail, mae'n bosibl casglu data gwerthuso proses yn llawer cynharach nag sy'n wir ar gyfer data canlyniadau, sy'n caniatáu i werthusiad proses gael ei gwblhau yn llawer cynt nag sy'n wir am fathau eraill o werthusiadau.

1.60 **Blynyddoedd 2 i 5**. Ar ôl y cyfnod cychwynnol hwn, bydd y newidiadau mewn deilliannau a yrrir gan brosiectau a rhaglenni cynnar y strategaeth yn ddigon aeddfed i'r achosion cyntaf o werthuso canlyniadau ddigwydd. Bydd y gwerthusiadau canlyniadau cynnar hyn yn rhoi syniad cynnar i ymarferwyr o ba mor effeithiol y bu polisïau cychwynnol y strategaeth o ran ysgogi newid. Yn ystod y cyfnod interim hwn, bydd gwariant yn cael ei rannu rhwng prosesau a gwerthuso canlyniadau, gyda gwerthuso canlyniadau yn ffurfio cyfran fwy o wariant dros amser.

1.61 **Blynyddoedd 5 i 8**. O flwyddyn 5 ymlaen, gellir dechrau gosod y sylfaen ar gyfer gwerthusiad effaith ac economaidd yn ei le. Mae'n debygol na fydd yn bosibl dechrau'r gwerthusiad effaith ac economaidd tan y pwynt hwn yn oes y strategaeth oherwydd yr oedi rhwng gweithredu'r prosiect a'r pwynt y gallai effeithiau fod yn weladwy yn y data. Gall gwerthusiadau effaith uchelgeisiol ddechrau mor gynnar â blwyddyn 6, gan ddechrau paratoi amdanynt flwyddyn ynghynt. Yn ystod y cyfnod hwn, bydd y defnydd o werthusiadau proses yn dod i ben yn raddol wrth i'r cwmpas ar gyfer bwydo eu canlyniadau i gynlluniau cyflenwi yn y dyfodol leihau. Efallai y bydd hefyd yn bosibl cynnal peilot ar raddfa fach o ddulliau i archwilio beth sy'n ymarferol ddichonadwy gyda'r data a nodi unrhyw broblemau. Bydd gwerthuso canlyniadau yn parhau i roi arwyddion cynnar o effeithiolrwydd rhai prosiectau a rhaglenni.

1.62 **Blynyddoedd 8 i 10**. Rhwng blynyddoedd 8 a 10, bydd y gwariant yn cael ei rannu rhwng canlyniad, gwerthusiad effaith ac economaidd, gyda'r pwyslais yn symud tuag at werthusiad effaith ac economaidd wrth i'r data angenrheidiol ddod yn gynyddol ar gael.

1.63 **Blwyddyn 10 ymlaen**. Am y blynyddoedd ar ôl i'r strategaeth ddod i ben, bydd yn gwneud synnwyr cynnal gwerthusiad effaith ac economaidd y strategaeth gyfan. Bydd gwerthusiadau dilynol yn caniatáu gwerthusiad o'r graddau yr oedd yr effeithiau a nodwyd yn rownd gyntaf y gwerthusiad effaith yn parhau.

1.64 Dyna'n union yw'r canllawiau arddulliedig, wrth gwrs, a bydd y ffordd y bydd y strategaeth yn datblygu dros amser yn dylanwadu'n bendant ar y ffordd y mae'r gwerthusiad yn esblygu. Er enghraifft, yn yr achos pan fo'r strategaeth yn ehangu ei gweithgareddau'n sylweddol yn ei blynyddoedd olaf, efallai y byddai'n gwneud synnwyr i ohirio'r rhan fwyaf o'r gwariant gwerthusiad effaith ac economaidd tan hyd yn oed yn hwyrach na'r hyn a ragnodir, er mwyn sicrhau bod effaith y gweithgareddau hyn yn cael ei dal.

1.65 Awgryma'r MRC (2021): 'gellid cynnal modelu economaidd ar y cam dichonoldeb i asesu'r tebygolrwydd y bydd buddion disgwyliedig yr ymyriad yn cyfiawnhau'r costau (gan gynnwys cost ymchwil pellach), ac i helpu'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau i benderfynu p'un a yw bwrw ymlaen i werthusiad ar raddfa lawn yn werth chweil. Yn dibynnu ar ganlyniadau'r astudiaeth ddichonoldeb, efallai y bydd angen gwneud rhagor o waith i fireinio'r ymyriad yn raddol cyn dechrau ar werthusiad llawn'.

## Banc data

1.66 Fel rhan o'r fframwaith gwerthuso, rydym wedi adeiladu banc data sy'n ceisio mapio'r bydysawd data yng Nghymru fel y mae'n berthnasol i strategaeth HWHW. Y syniad yw i'r banc data weithredu fel y pwynt cyfeirio cyntaf ar gyfer gwerthuswyr y dyfodol wrth iddynt geisio cynllunio eu gwerthusiad. Mae'r banc data hefyd yn arf ar gyfer tynnu sylw at fylchau data a meysydd lle gallai fod yn ymarferol bosibl i Lywodraeth Cymru gasglu data sylfaenol ychwanegol. Gweler y banc data yn Atodiad B.

1.67 Mae'r banc data wedi'i gynllunio i fod mor hawdd ei ddefnyddio â phosibl ac mae wedi'i ddadansoddi yn ôl math o werthusiad fel y gall gwerthuswyr ganolbwyntio ar y ffynonellau data sydd fwyaf tebygol o fod yn berthnasol i'w gwerthusiad penodol. Ymhellach, mae'r golofn gyntaf yn amlygu'r is-thema a'r gweithgaredd (fel y'u diffinnir yn y damcaniaethau newid) y mae'r set ddata yn fwyaf tebygol o fod yn berthnasol iddynt; mae hyn eto yn culhau chwiliad y gwerthuswyr. Hefyd,

mae’r tablau yn nodi gronynnedd y data, y dangosyddion sydd ar gael o'r ffynhonnell ddata sydd fwyaf tebygol o fod yn berthnasol a lle y gellir dod o hyd i ddata ar gyfer senario gwrthffeithiol.

1.68 Mae’r ffynonellau data a gesglir yma’n cynnwys ystadegau cenedlaethol, data arolygon, data gweinyddol, data’r sector preifat a ffynonellau anhraddodiadol o ddata mawr (e.e., chwiliadau google neu ddata lloeren). Ceir awgrymiadau hefyd ar gyfer meysydd newydd o gasglu data a nodir fel “Awgrym” yn y golofn ffynhonnell.

1.69 Mae’r dull o gasglu data yn amrywio yn ôl y math o werthusiad, o ystyried eu gofynion data gwahanol. Ar gyfer gwerthuso proses, mae'n arfer safonol i gasglu data monitro sylfaenol ar gyfer rhai dangosyddion perfformiad allweddol (KPIs), felly mewn llawer o achosion ni fydd angen dibynnu ar ffynonellau data presennol i gefnogi'r mathau hyn o werthusiadau. Gyda hynny mewn golwg, fe wnaethom ganolbwyntio ar ychwanegu ychydig o fesurau y gellid eu defnyddio yn ogystal ag unrhyw ddata monitro ac ar rai agweddau ar y strategaeth lle gallai fod angen dull gwahanol (h.y., y rhwydwaith teithio a chyffredinolrwydd mannau gwyrdd). Mae dangosyddion gwerthuso canlyniadau ac effaith wedi'u cyfuno'n un tabl, o ystyried y gorgyffwrdd yn y canlyniadau a ystyriwyd ym mhob un o'r mathau hyn o werthusiad. Yn yr adran hon, rydym wedi cynnwys ystod mor eang â phosibl o ddangosyddion a mesuriadau y gellid eu defnyddio i amcangyfrif y newidiadau mewn canlyniadau ac ymddygiadau a ysgogwyd gan y strategaeth a’i his-gydrannau. Yn achos gwerthusiad economaidd, cawsom afael ar y data a fyddai fwyaf defnyddiol i roi gwerth ariannol effeithiau tymor hir y strategaeth a nodir yn y model rhesymeg a’r damcaniaethau newid.

1.70 Yn ystod ein hymarfer cwmpasu, nodwyd nifer o fylchau data a meysydd penodol lle gallai casglu data ychwanegol fod o werth mawr i werthuso HWHW. Mewn rhai o’r achosion hyn, megis gwerthuso proses yn gyffredinol, roedd disgwyl y bwlch hwn oherwydd, yn ôl diffiniad, mae gwerthusiadau proses yn dibynnu’n helaeth ar gasglu data sylfaenol yn ystod cyfnod gweithredol y rhaglen/polisi.

1.71 Mewn achosion eraill, megis yn achos mesuriadau cynrychioliadol o BMI yng Nghymru, mae’r bwlch hwn yn fwy trafferthus o ystyried pwysigrwydd y mesuriad i’r strategaeth. Er bod ffynonellau data perthnasol yn bodoli, megis Arolwg Cenedlaethol Cymru a'r Rhaglen Mesur Plant (CMP), mae cyfyngiadau i'r ddau. Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru yn ddata hunan-gofnodedig ac nid yw’r sampl

yn ddigon mawr i fod yn gynrychioliadol ar lefel awdurdod lleol. Dim ond plant rhwng 4 a 5 oed a ystyrir yn y Rhaglen Mesur Plant, felly mae'r darlun o'r hyn sy'n digwydd gyda gweddill y boblogaeth plant yn cael ei adael yn wag.

1.72 I grynhoi, dyma'r meysydd lle mae ein hymarfer cwmpasu data wedi amlygu dau fwlch data sylfaenol y gellid yn ymarferol eu llenwi:

- *Mesur taldra a phwysau sampl cynrychioliadol o oedolion yng Nghymru*. Mae meddygon teulu a gwasanaethau gofal sylfaenol eraill yn darparu llwybr ymarferol ar gyfer cynhyrchu set ddata ychwanegol o daldra a phwysau yng Nghymru. Efallai y bydd angen rhywfaint o safoni unedau mesur ar gyfer mesuriadau taldra a phwysau hefyd.
- *Mesur canlyniadau sy'n ymwneud â'r is-thema lleoliadau gwaith a chymunedol iach.* Mae data ar ymddygiadau gwaith yn y gweithle a hybrid yn brin, ac felly gallai sefydlu systemau monitro darpariaeth bwyd a'r defnydd o deithio llesol yn adrannau'r llywodraeth, awdurdodau lleol, sefydliadau cysylltiedig, ac yn y GIG ddarparu llwybr ar gyfer asesu newid ymddygiad yn y maes hwn. Gallai monitro yma gynnwys defnyddio arolygon, defnyddio data prynu o ffreuturau yn y gweithle, a data ar y defnydd o feysydd parcio.

1.73 Er bod y banc data wedi'i gynllunio i fod yn ffynhonnell ddata ddefnyddiol ac eang ar gyfer gwerthuswyr yn y dyfodol, mae ganddo rai cyfyngiadau y dylid eu nodi. Yn gyntaf, nid yw'n ymarferol casglu pob ffynhonnell ddata a allai fod yn berthnasol o ystyried y ffaith bod union natur polisïau a rhaglenni'r strategaeth wrth symud ymlaen yn aneglur ar hyn o bryd. O'r herwydd, dylid cynnal chwiliad data ychwanegol byr i wirio a ellir ychwanegu at y banc data i gwmpasu unrhyw feysydd polisi/rhaglen newydd neu i gynnwys setiau data newydd cyn y gwerthusiad. Pryder posibl arall yw'r ffaith, er bod y ffynonellau data a restrir yn y Banc Data yn gyfredol ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, nad yw'n bosibl gwarantu y bydd y ffrydiau data hyn yn dal i gael eu casglu ar y pwynt gwerthuso nac ar draws y cyfnod cyfan sy'n berthnasol i'r gwerthusiad. Mae'r risg hon yn arbennig o berthnasol yn achos data a gesglir gan endidau sector preifat.

# 6. Dull gwerthuso

1.74 O ystyried bod yr adolygiad llenyddiaeth wedi canfod mai prin iawn yw'r enghreifftiau o werthusiadau cyfannol a chynhwysfawr o strategaethau tebyg i Pwysau Iach: Cymru Iach, rydym wedi datblygu dull gwerthuso newydd i raddau helaeth. Wedi dweud hynny, mae'r llenyddiaeth yn darparu dwy ystyriaeth ddefnyddiol ar gyfer ein gwaith yr ydym wedi ceisio eu hintegreiddio i'n dull. Yn gyntaf, y dylai ffocws y gwerthusiad esblygu dros amser. Yn ail, y dylai unrhyw werthusiad o strategaeth i leihau ac atal gordewdra gynnwys effaith ar ddangosyddion gordewdra fel metrig allweddol o lwyddiant y strategaeth.

1.75 Ategwyd datblygiad ein dull hefyd gan broses ymgysylltu helaeth â rhanddeiliaid a oedd yn cynnwys rhanddeiliaid o Fyrddau Iechyd Cymru, Llywodraeth Cymru, y byd academaidd, Iechyd Cyhoeddus Cymru a Chynghrair Gordewdra Cymru.

1.76 Er mwyn darparu ffordd strwythuredig o feddwl am y gwerthusiad o HWHW, nodwyd pedair ystyriaeth allweddol ar gyfer pecyn cymorth i asesu gwerthusadwyedd gwahanol agweddau ar HWHW:

**Argaeledd Data** – Beth ellir ei wneud gyda'r data sy'n cael ei gasglu ar hyn o bryd neu y gellir ei gasglu'n ymarferol yn ystod oes y strategaeth?

**Cost** – A yw cost unrhyw werthusiad posibl yn realistig mewn termau gros ac o ran ei gymesuredd â chost gweithredu'r rhaglen?

**Amseroldeb** – A yw'r gwerthusiad yn ddigon amserol i ganiatáu i'w ganlyniadau gael eu bwydo'n ôl i benderfyniadau cynllunio'r strategaeth?

**Cadernid** – A yw'r gwerthusiad yn ddigon cadarn yn ei ddulliau ac yn ddigon cyfannol ei ddulliau i ddarparu tystiolaeth gredadwy o lwyddiant y strategaeth?

1.77 Mae'r pedair ystyriaeth hyn, ynghyd â'r angen ymhlyg i werthuso'r strategaeth ar y lefel strategol a'r lefel rhaglen/polisi, wedi arwain at ein hawgrym ar gyfer dull tair haen o werthuso Strategaeth Pwysau Iach: Cymru Iach.

- Gwerthusiad proses o weithrediad y strategaeth i gyflenwi gwelliannau proses a allai helpu i wella canlyniadau yn y pen draw.
- Gwerthusiad effaith o allu'r strategaeth i gyflenwi newid systemau a newid mewn tueddiadau o ran canlyniadau ac ymddygiad sy'n gysylltiedig â gordewdra er mwyn cynhyrchu canlyniadau gwell yn y pen draw

- Gwerthusiad economaidd i benderfynu a yw'r ymyriad yn cyflawni gwerth am arian lle mae'r buddion yn gorbwyso costau ymyrraeth. Gall fod ystyriaethau economaidd eraill hefyd megis effeithiau cydraddoldeb.

Mae pecyn cymorth wedi'i deilwra y gellir ei gymhwyso i bob rhaglen/polisi i asesu ar wahân p'un a yw gwerthusiad proses, canlyniad, effaith neu economaidd yn briodol ar gyfer y rhaglen/polisi penodol dan sylw.

### Y lefel strategol

1.78 Mae gan y strategaeth Pwysau Iach: Cymru Iach nodau uchelgeisiol ar gyfer creu newid systemau yn y ffordd yr eir ati i atal a lleihau gordewdra. O'r herwydd, yn rhesymegol dylai ei allu i gyflawni'r nod uchelgeisiol hwn fod yn rhan greiddiol o werthusiad y strategaeth. At hynny, mae'r strategaeth yn cynrychioli strategaeth tymor hir Cymru i atal a lleihau gordewdra, felly byddai unrhyw werthusiad nad oedd yn asesu i ba raddau y bu'n llwyddiannus o ran effeithio ar y canlyniadau a'r ymddygiadau sy'n gysylltiedig â gordewdra yn anghyflawn.

1.79 Mae asesu newid systemau a newidiadau mewn canlyniadau ac ymddygiadau yn golygu bod angen defnyddio gwerthuso effaith, felly drwy'r lens hon y byddwn yn edrych ar gydran lefel strategol y gwerthusiad.

### Newid systemau

1.80 Er mwyn asesu gallu'r strategaeth i ysgogi newid systemau, rydym yn cynnig bod y gwerthusiad yn canolbwyntio ar dri maes allweddol:

- Fframweithiau cynllunio'r GIG a'r Byrddau Iechyd[20]
- Cwricwla ysgolion
- Ymddygiadau cyhoeddus a gwneud penderfyniadau

1.81 O ran fframweithiau cynllunio'r GIG a'r Byrddau Iechyd, bydd angen i'r gwerthusiad asesu a yw'r strategaeth wedi arwain at newid yn y ffordd y mae'r fframweithiau hyn yn gweithredu. A yw pwysau iach a gordewdra wedi'u hintegreiddio mewn penderfyniadau cynllunio mewn ffordd sy'n cefnogi pobl Cymru drwy wneud dewisiadau iach yn ddewisiadau hawdd, ac mewn ffordd sy'n gyson â theimlad Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol? Bydd gwerthuso'r dimensiwn hwn o newid systemau  angen dull gweithredu ansoddol yn unig. Dylid

[20] Mae Byrddau Iechyd yn cyfeirio at y cynlluniau hyn fel Cynlluniau Tymor Canolig Integredig (IMTPs).

cymhwyso’r pecyn cymorth gwerthuso effaith ansoddol (h.y., astudiaethau achos, astudiaethau arsylwadol, cyfweliadau a grwpiau ffocws) at sampl mor eang ag sy’n bosibl o gynllunwyr, ymarferwyr ac aelodau’r cyhoedd er mwyn asesu i ba raddau y maent wedi arsylwi ar newid gwirioneddol mewn blaenoriaethau.

1.82 Bydd angen dull tebyg o asesu newid systemau mewn cwricwla ysgolion. Mae’r strategaeth yn nodi’n benodol ffyrdd y bydd yn ceisio dod â diet iach a gweithgarwch corfforol i galon y cwricwlwm ysgol trwy fentrau fel Maes Iechyd a Llesiant Dysgu a Phrofiad. Os yw’r strategaeth yn mynd i gael yr effaith a ddymunir ar ieuenctid heddiw ac oedolion yfory, yna mae asesu cynnydd ar y dimensiwn hwn yn hollbwysig. Y dulliau gorau o asesu a yw'r newid a ddymunir mewn lleoliadau dysgu wedi'i gyflawni yw arolygon, cyfweliadau a grwpiau ffocws gyda gweinyddwyr, athrawon, rhieni a myfyrwyr.

1.83 Bydd asesiad o allu’r strategaeth i ddylanwadu ar ymddygiad a phenderfyniadau angen dull gwahanol. Bydd asesiad o'r graddau y mae'r strategaeth wedi bod yn llwyddiannus o ran newid ymddygiadau a adroddir a gwneud penderfyniadau yn rhoi arwydd cryf o lefel y newidiadau systemau a gyflawnwyd. Bydd cymysgedd o arolygon (strategaeth sylfaenol ac ôl-strategaeth) a dadansoddiad o ffynonellau data anhraddodiadol fel data chwilio Google yn fodd i ateb y cwestiwn hwn.

1.84 Yn ogystal, mae’r strategaeth yn rhoi pwyslais cryf ar rymuso pobl i wneud dewisiadau iach ac felly bydd asesu’r ffyrdd y mae pobl yn teimlo’n fwy abl i wneud y dewisiadau hyn o ran diet ac ymarfer corff yn rhoi cipolwg ar lwyddiant y strategaeth yn y dimensiwn hwn. Unwaith eto, dulliau arolwg fydd y ffordd fwyaf priodol i asesu'r cynnydd hwn.

1.85 Er bod arolygon ar gyfer asesu newid mewn ymddygiad iechyd yn oddrychol a chyda thuedd o ran eu natur, mae Karacabeyli et al. (2018) yn dod i’r casgliad bod arolygon yn dal i fod yn ddefnyddiol gan eu bod yn bragmataidd yn caniatáu gweinyddiaeth eang, gydag anghenion cost a staffio cymharol isel.

## Canlyniadau

1.86 Er bod y newidiadau systemau y mae'r strategaeth yn ceisio'u creu yn ymwneud â siapio amgylcheddau a lleoliadau pobl, nod terfynol cyflawni'r newid systemau hwn yw helpu i atal a lleihau gordewdra. Gyda hyn mewn golwg, rydym yn cynnig dau ganlyniad allweddol y dylid eu gwerthuso fel rhan o gydran strategol y gwerthusiad.

- Cyfraddau gordewdra
- Amlder pwysau iach.

1.87 Mae gordewdra a phwysau iach wrth wraidd y strategaeth ac felly bydd ystyried sut mae'r strategaeth wedi effeithio ar y metrigau hyn ar lefel genedlaethol, bwrdd iechyd ac awdurdod lleol yn ffactor pwysig wrth asesu llwyddiant y strategaeth. Dylai'r gwerthusiad hwn ystyried ar wahân yr effaith ar y canlyniadau hyn i oedolion a phlant yn ogystal ag ystyried unrhyw anghydraddoldebau o ran effeithiau rhwng gwahanol grwpiau demograffig a daearyddiaeth. Trafodir dewis y grwpiau hyn a'r priod strategaethau ymgysylltu yn Adran 9.

1.88 Mae nifer o ffyrdd y gellid ymdrin â'r agwedd hon ar y gwerthusiad ar lefel strategaeth, ond y ddau ddull a ffefrir yw gwahaniaeth-mewn-gwahaniaethau (gyda pharu) a dyluniad diffyg parhad atchweliad (RDD). Yn y ddau achos, Lloegr a gwledydd eraill y DU sy'n darparu'r sail orau ar gyfer creu sefyllfa wrthffeithiol y gellir cymharu perfformiad Cymru yn ei erbyn. O ganlyniad, mae gan RDD a gwahaniaeth-mewn-gwahaniaethau fantais dros ddulliau gwrthffeithiol eraill oherwydd eu bod yn trosoleddu data presennol, cymariaethau gwrthffeithiol naturiol rhwng daearyddiaethau cyfagos ac yn cymhwyso techneg ddadansoddol llai cymhleth a goddrychol. Mae gwerthusiad o Raglen Gordewdra Plentyndod Leeds (Rudolf et al., 2018) yn rhoi enghraifft ddefnyddiol o ble y manteisiwyd ar y tebygrwydd daearyddol hyn i ddatblygu sefylla wrthffeithiol.

1.89 Yn achos y dull gwahaniaeth-mewn-gwahaniaethau, byddai pobl yng Nghymru yn cael eu cymharu â'r rhai yn Lloegr nad oeddent yn elwa o'r strategaeth HWHW. Byddai'r gwahaniaeth rhwng y canlyniadau Cymreig a Seisnig cyn y strategaeth yn cael ei gymharu â'r gwahaniaeth ar ôl gweithredu'r strategaeth, gyda'r gwahaniaeth rhwng y gwahaniaethau hyn yn cynrychioli effaith y strategaeth. Gellid defnyddio paru i wella cadernid y dull hwn trwy gymharu'n

uniongyrchol bobl sy'n debyg o ran pethau a welir, fel oedran, rhyw a lefel amddifadedd.

1.90 Byddai dull diffyg parhad atchweliad yn defnyddio ffin Cymru â Lloegr fel llinell rannu rhwng y rhai a gafodd fudd o HWHW a'r rhai nad oeddent wedi cael budd. Drwy gymharu'r rhai sy'n byw yn agos iawn at y ffin ar ochr Cymru â'r rhai sy'n byw'n agos iawn at y ffin ar ochr Lloegr, rydych yn cryfhau'r rhagdybiaeth y bydd y cymunedau hyn yn debyg iawn, fel y gellir cysylltu unrhyw wahaniaeth mewn canlyniadau â'r Strategaeth HWHW yn unig. Mae hyn yn gwneud rhagdybiaethau ynghylch symudiad trawsffiniol cyfyngedig a thebygrwydd unrhyw ymddygiadau a nodweddion perthnasol rhwng y rhai sy'n byw yng Nghymru a Lloegr, y bydd angen rhoi prawf arnynt er mwyn i'r dull hwn fod yn ddilys.

1.91 Yr opsiynau ar gyfer ffynonellau data a allai fod yn sail i'r ddau ddull yw'r Rhaglen Mesur Plant (ar gyfer plant), Arolwg Cenedlaethol Cymru (ar gyfer oedolion) a'r mesuriadau meddygon teulu ychwanegol (ar gyfer oedolion), a awgrymir fel ffrwd ddata newydd yn yr adran Banc data. Yn achos y Rhaglen Mesur Plant ac Arolwg Cenedlaethol Cymru, gellir defnyddio Rhaglen Mesur Plant Lloegr ac Arolwg Panel Aelwydydd Prydain (e.e., ar gyfer iechyd a'r defnydd o wasanaethau iechyd) fel data ar gyfer y sefyllfa wrthffeithiol.

1.92 Mae gan bob un o'r setiau data hyn gyfyngiadau. Ar hyn o bryd, dim ond un mesuriad o 4 i 5 oed sydd gan y Rhaglen Mesur Plant ac felly nid yw'n rhoi unrhyw fewnwelediad i sut mae pwysau plant yn datblygu trwy weddill eu plentyndod.[21] Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru yn ddata hunan-gofnodedig ac nid yw'r sampl yn ddigon mawr i ddarparu samplau cynrychioliadol ar lefel awdurdod lleol. Bydd y casgliad data arfaethedig gan feddygon teulu yn cymryd blynyddoedd i'w roi ar waith, hyd yn oed os gwneir yr argymhelliad, a byddai'r sampl ond yn cynrychioli'r isadran o'r boblogaeth sy'n ymweld â'r meddyg teulu.[22] Er gwaethaf y cyfyngiadau hyn, mae'r setiau data hyn yn cynrychioli'r data gorau y gellid yn ymarferol eu gweithredu i fesur effeithiau'r strategaeth ar y canlyniadau allweddol hyn.

1.93 Gellid ystyried gwerthusiad ar sail damcaniaeth lle mae cyfyngiadau sylweddol ar gynnal technegau lled-arbrofol, yn enwedig lle mae cyfyngiadau data,

[21] Mae ychwanegu ail fesur ar y gweill a bydd ei weithrediad yn cyfrannu rhywfaint at liniaru'r pryder hwn.
[22] Pryder ychwanegol am y set ddata arfaethedig hon yw i ba raddau y mae'n ymarferol mewn byd lle mae mwy a mwy o ymgynghoriadau'n cael eu cynnal ar-lein.

cyfyngiadau cyllidebol neu lle mae angen archwilio pam na fyddai ymyriad yn gweithio, sy’n dueddol o beidio â chael ei ystyried mewn astudiaethau arbrofol. Cynhelir gwerthusiadau seiliedig ar ddamcaniaeth drwy ddatblygu Damcaniaeth Newid neu fodelau Resymeg, fel y gwneir yn Adran 4, ac yna casglu tystiolaeth sy’n bodoli eisoes a chynnal dadansoddiad (lle bo’n bosibl) i asesu’r mecanwaith achos-ac-effaith dan sylw.

1.94 Lle mae pryderon ynghylch ymarferoldeb gwerthusiadau, argymhellir cynnal cynlluniau peilot ar raddfa lai i archwilio gwerthusadwyedd a rhoi arwyddion cynnar o’u heffeithiolrwydd. Gallai canfyddiadau'r cynlluniau peilot hyn hefyd roi gwersi gwerthfawr yn gynharach na gwerthusiad llawn.

# 7. Asesiad gwerthusadwyedd: pecyn cymorth

### Pecyn cymorth lefel rhaglen/polisi

1.95 Mae'r pecyn cymorth yn darparu ffordd strwythuredig i flaenoriaethu gwerthuso mewn amgylchedd lle mae adnoddau'n gyfyngedig. Mewn theori, gallai fod digon o ddata ac adnoddau i bob polisi HWHW gael gwerthusiad proses, canlyniad, effaith ac economaidd cynhwysfawr, ond yn ymarferol nid yw hyn yn ddichonadwy oherwydd cyfyngiadau data, adnoddau ac, mewn rhai achosion, argaeledd technegau gwerthuso cadarn addas.

1.96 Mae rhai rhaglenni a pholisïau yn fwy addas ar gyfer gwerthuso, a bydd hyn hefyd yn amrywio rhwng mathau o werthusiad. Er enghraifft, efallai y byddai'n bosibl cynnal gwerthusiad proses cyfannol ac amserol o bolisi penodol, ond y byddai cost y gwerthusiad hwn yn gyfran anghymesur o fawr o gyllideb werthuso gyfan y strategaeth. Mae'n aneglur pa un o'r ffactorau cystadleuol hyn y bernir eu bod fwyaf tyngedfennol, ac felly mae'r pecyn cymorth yn rhoi ffordd drefnus o ystyried y cyfaddawd rhwng y cyfyngiadau a'r gofynion sy'n cystadlu â'i gilydd. Y cyfyngiadau a'r gofynion allweddol yw argaeledd data, cost, amseroldeb a chadernid.

1.97 Bwriedir i'r pecyn cymorth gael ei ddefnyddio ochr yn ochr â'r canllawiau ar esblygiad y gwerthusiad. Fel y cyfryw, bydd yn gwneud synnwyr i ganolbwyntio i ddechrau ar botensial rhaglen/polisi ar gyfer gwerthusiad proses, yna symud y ffocws tuag at werthusiad effaith ac economaidd dros oes y strategaeth.

1.98 Bydd angen cymhwyso rhai agweddau ar y pecyn cymorth mewn ffordd wahanol gan ddibynnu ar y math o werthusiad dan sylw, a gwneir hyn yn glir isod ar sail ffactor unigol.

1.99 Y pwynt olaf i'w ystyried ar gyfer cymhwyso'r pecyn cymorth yw'r achos lle nad yw rhaglen o dan gwmpas na rheolaeth Llywodraeth Cymru ond yn hytrach o dan gwmpas neu reolaeth un o'r partneriaid cyflenwi niferus sy'n cyfrannu at weithgareddau'r strategaeth. Yn y sefyllfa hon, efallai y byddai'n well o safbwynt gweithredol darparu'r pecyn cymorth i'r sefydliad partner fel y gallant ystyried dichonoldeb gwerthuso eu rhaglen yn fewnol.

## Sgorio

1.100 ***Cam 1*** - Mae dichonoldeb y math o werthusiad sy'n cael ei ystyried ar gyfer y rhaglen/polisi dan sylw yn cael ei sgorio allan o 4 ar gyfer pob un o'r pedair ystyriaeth allweddol.

1.101 ***Cam 2*** - Cyfunir y pedair sgôr hyn i ffurfio sgôr gyfartalog wedi'i thalgrynnu sy'n benodol i'r rhaglen/polisi a'r math o werthusiad a gynigir. Bydd y sgôr gyfartalog hon yn rhoi arweiniad ynghylch a yw'r math hwnnw o werthusiad yn ymarferol ac yn ddymunol ar gyfer y rhaglen/polisi dan sylw. Mae cyfartaledd wedi'i dalgrynnu o 3 neu 4 yn dynodi argymhelliad ar gyfer gwerthuso. Yr eithriad i'r rheol hon yw'r achos lle ceir sgôr o 0 allan o 4 ar gyfer unrhyw un o'r pedair ystyriaeth allweddol sydd wedyn yn drech na'r cyfartaledd ac yn dangos na argymhellir gwerthuso.

1.102 Mae angen dull ychydig yn wahanol ar gyfer gwerthusiadau proses ac economaidd o ystyried nad yw argaeledd data yn broblem bosibl yn yr un ffordd ag sy'n wir am y mathau eraill o werthusiadau. Yn achos gwerthusiad proses, mae'n arfer safonol i gasglu data sylfaenol fel rhan o'r gwerthusiad (ansoddol a meintiol) ac felly nid yw pryderon ynghylch ansawdd, cadernid a hygyrchedd y ffrydiau data presennol yn berthnasol yn yr achos hwn. Fel y nodir yn yr adran math o Werthusiad, mae gwerthusiadau economaidd da yn defnyddio canlyniadau gwerthusiad effaith fel sail i'w cyfrifiadau ac felly dim ond ychydig iawn o ddata cynradd y maent yn tueddu i'w casglu.

1.103 Fel y cyfryw, ar gyfer gwerthusiadau proses ac economaidd, nid yw'r agwedd argaeledd data o'r pecyn cymorth yn berthnasol ac felly mae'r cyfartaledd wedi'i dalgrynnu a'r argymhelliad yn seiliedig ar y tair ystyriaeth allweddol sy'n weddill.

1.104 Mae'r sgorau ar gyfer pob un o'r ystyriaethau allweddol wedi'u cynllunio fel bod 3 neu 4 allan o 4 yn awgrymu y byddai'r gwerthusiad arfaethedig yn ddichonadwy ac yn ymarferol. Maent yn awgrymu bod digon o ddata (neu y gellid casglu data newydd yn ymarferol), fod y gost yn gymesur, y byddai'r canlyniadau ar gael o fewn amserlen briodol, neu fod potensial i ddefnyddio dulliau gwerthuso sy'n ddigon cadarn a chyfannol iddo fod yn gredadwy. I'r gwrthwyneb, mae 0 allan o 4 yn awgrymu bod argaeledd data, cost, amseroldeb neu bryderon cadernid yn golygu y byddai'r gwerthusiad arfaethedig bron yn amhosibl.

## Argaeledd data

1.105 Nid yw argaeledd data yn llinol, ac yn aml ceir achosion lle mae rhywfaint o ddata yn bodoli, ond efallai nad yw o ansawdd neu ronynnedd digonol i fod yn ddefnyddiol ar gyfer gwerthuso. Er mwyn mynd i'r afael â'r aflinoledd hwn ac i roi cyfrif am oddrychedd asesu argaeledd ac ansawdd data, rydym wedi datblygu set o bedwar cwestiwn i asesu a fyddai gwerthusiad arfaethedig yn ddichonadwy o safbwynt argaeledd data. Bydd pob cwestiwn yn cael ei sgorio yn 0, ½ neu 1, gyda chyfanswm y pedair sgôr cwestiwn yn cynrychioli'r sgôr ar gyfer argaeledd data yn ei gyfanrwydd. Os mai 0 yw'r ateb i unrhyw un o'r pedwar cwestiwn, bydd y sgôr cyffredinol ar gyfer argaeledd data yn 0 hefyd.

1.106 Y banc data sy'n rhoi'r pwynt cyfeirio cyntaf ar gyfer ateb y pedwar cwestiwn ar argaeledd data, ond efallai y bydd angen chwiliad data atodol byr oherwydd cyfyngiadau'r banc data (gweler yr adran Banc Data am ragor o fanylion am gyfyngiadau).

*Cwestiwn 1 – A oes data priodol yn bodoli?*

1.107 Cynlluniwyd y cwestiwn cyntaf i asesu a oes mesur priodol o'r allbwn, canlyniad neu effaith ar gael neu a yw'n ddichonadwy ei gasglu. Er enghraifft, os yw rhywun yn bwriadu mesur faint o bobl a gafodd wasanaeth rheoli pwysau penodol, a gesglir y data ar eu presenoldeb ynteu eu cofrestriad? Y gwahaniaeth yw y gallai pobl gofrestru a pheidio â mynychu, felly byddai data cofrestru yn ffordd amherffaith o fesur yr allbwn dan sylw. Cyfeirir at y math hwn o fesuriad anuniongyrchol fel procsi.

1.108 Lle nad oes data priodol eisoes yn bodoli, gall fod yn opsiwn i gychwyn ffrwd newydd o gasglu data. O'r herwydd, bydd y sgôr ar gyfer y cwestiwn hwn hefyd yn ystyried lle y gellid ategu data presennol â chasglu data ychwanegol.

**Tabl 1 – Matrics ateb cwestiwn 1 argaeledd data**

| Ateb | Sgôr |
|---|---|
| Oes, mae mesuriad priodol o'r union ganlyniad(au) yn bodoli | 1 |
| Oes, mae mesur procsi priodol o'r canlyniad(au) yn bodoli | ½ |
| Nid oes unrhyw fesurau (procsi) priodol yn bodoli, ond byddai'n ymarferol casglu'r data gofynnol | ½ |
| Nid oes unrhyw fesurau neu brocsis priodol yn bodoli ac ni fyddai'n ymarferol casglu data ychwanegol | 0 |

*Cwestiwn 2 – Beth yw lefel gronynnedd y data?*

1.109 Mae lefel ronynnedd y data yn ffactor allweddol sy'n pennu pa mor drylwyr yw gwerthusiadau o'r math hwn. Gellir defnyddio data mwy gronynnog i gymharu'n uniongyrchol y rhai a 'driniwyd' gan ymyriad â'r rhai nad ydynt wedi'u 'trin', sy'n caniatáu nodi effeithiau na fyddai'n weladwy mewn data cyfanredol. At hynny, gellir defnyddio data gronynnog i roi mewnwelediad i'r ffyrdd yr oedd effeithiau rhaglen/polisi yn amrywio rhwng gwahanol grwpiau demograffig a daearyddiaeth.

1.110 Mewn rhai achosion, efallai y byddai'n ymarferol cynnal gwerthusiad credadwy gyda mwy o ddata lefel gyfanredol (h.y., lefel bwrdd iechyd neu lefel genedlaethol), ond dim ond mewn rhaglenni/polisïau sydd ar raddfa ddigon mawr i ysgogi effeithiau ar lefelau cyfanredol y byddai hynny'n wir. Byddai polisi cenedlaethol i ddarparu prydau ysgol iach am ddim yn enghraifft o bolisi o'r fath. Byddai darparu gwasanaethau rheoli pwysau wedi'u targedu i gannoedd neu hyd yn oed miloedd o bobl yn enghraifft o bolisi na fyddai data cyfanredol yn briodol ar ei gyfer.

**Tabl 2 - Matrics ateb cwestiwn 2 argaeledd data**

| Ateb | Sgôr |
|---|---|
| Ar lefel aelwyd neu unigolyn | 1 |
| Data bwrdd iechyd neu lefel genedlaethol (rhaglen/polisi ar raddfa fawr) | ½ |
| Data bwrdd iechyd neu lefel genedlaethol (rhaglen/polisi ar raddfa fach) | 0 |

*Cwestiwn 3 – A oes data ar gyfer sefyllfa wrthffeithiol gadarn yn bodoli ar yr un lefel o ronynnedd?*

1.111 Er mwyn i werthusiadau ddarparu canlyniadau credadwy, mae angen llunio sefyllfa wrthffeithiol gredadwy (gweler Adran 5 am ragor o esboniad). O ganlyniad, nid yn unig y mae angen casglu data ar effaith y rhaglen/polisi ar y rhai a 'driniwyd', ond hefyd ar grŵp tebyg o bobl na chawsant eu 'trin'. Mae'r cwestiwn hwn yn ymwneud ag argaeledd data ar y rhai na chawsant eu 'trin' neu'r grŵp rheoli.

**Tabl 3 - Matrics ateb cwestiwn 3 argaeledd data**

| Ateb | Sgôr |
|---|---|
| Oes | 1 |
| Na, ond maent yn bodoli ar lefel fwy cyfanredol a fyddai'n dal yn ddefnyddiadwy ar gyfer y gwerthusiad | ½ |
| Na, naill ai nid ydynt yn bodoli neu dim ond ar lefel gyfanredol na fyddai'n gydnaws â'r gwerthusiad arfaethedig y maent yn bodoli | 0 |

*Cwestiwn 4 - A yw'r data ar gael ac yn hawdd i'w cyrchu?*

1.112 Mae'r graddau y mae'r data sy'n ofynnol ar gyfer gwerthusiad ar gael yn rhwydd ac yn hygyrch yn agwedd bwysig ar ddibynadwyedd y ffrwd ddata hon fel sail i adeiladu gwerthusiad arni. Os daw'r data oddi wrth ddarparwr sector preifat, mae perygl na fydd y data'n cael ei gasglu mwyach neu y bydd mynediad yn cael ei gyfyngu tra bod y gwerthusiad yn cael ei gynnal. Gyda hyn mewn golwg, mae'r cwestiwn hwn yn ceisio asesu pa mor ddibynadwy yw mynediad gwerthuswr at y data gofynnol.

1.113 Fodd bynnag, cydnabyddir y gall rhywfaint o ddata a gedwir yn breifat fod yn bwysig ar gyfer gwerthusiadau o'i gymharu â'r hyn sydd ar gael i'r cyhoedd. Mewn achosion o'r fath, mae'n bwysig bod modd cyrchu'r data hwn yn ddibynadwy ac yn hawdd a'i wirio'n barhaus yn y dyfodol.

**Tabl 4 - Matrics ateb cwestiwn 4 argaeledd data**

| Ateb | Sgôr |
|---|---|
| Mae'n hawdd casglu a rheoli yr holl ddata hanfodol (neu bydd yn hawdd) gan Lywodraeth Cymru neu bartneriaid eraill yn y sector cyhoeddus wrth symud ymlaen | 1 |
| Ni fydd yn hawdd i werthuswyr gasglu a dilysu data critigol yn barhaus yn y dyfodol | 0 |

## Cost

Mae dwy brif ystyriaeth cost ar gyfer gwerthuso rhaglen/polisi yng nghyd-destun HWHW: (i) a yw'r gost yn gymesur â chost gweithredu, a (ii) sut mae'r gost yn cyd-fynd â chyllideb werthuso ehangach y strategaeth. I'r perwyl hwnnw, rydym wedi datblygu mynegai sy'n cyfuno'r ddwy ystyriaeth i mewn i un mesur. Mae'r mesur hwn, y Mynegai Cost, yn cael ei gyfrifo drwy rannu cymhareb cost y gwerthusiad â'r gyllideb werthuso â chymhareb cost gweithredu'r rhaglen/polisi â chyfanswm cyllideb y strategaeth HWHW. Y gyllideb  werthuso yw'r gyllideb werthuso flynyddol, a'r gyllideb strategaeth yw'r gyllideb strategaeth flynyddol.

1.114

$$\text{Mynegai cost} = \left(\frac{\text{Cost gwerthuso (£)}}{\text{Y gyllideb werthuso (£)}}\right) \div \left(\frac{\text{Cost gweithredu (£)}}{\text{Y gyllideb strategaeth (£)}}\right)$$

1.115 Dyluniwyd y mynegai i ymgorffori'r ddau bryder posibl mewn un metrig hawdd ei ddehongli. Os yw cost y gwerthusiad yn cynrychioli cyfran o'r gyllideb werthuso sy'n anghymesur â graddfa'r rhaglen/polisi mewn perthynas â'r strategaeth HWHW ehangach, bydd y Mynegai Cost yn fwy nag 1. Po fwyaf yw gwerth y mynegai, y mwyaf anghymesur y gost.

1.116 Gellir cymhwyso'r mynegai i bob un o'r mathau o werthusiad yn yr un modd i bob pwrpas, a'r unig wahaniaeth yw'r gyllideb werthuso. Dylai'r gyllideb werthuso fod yn gyllideb werthuso ar gyfer y math penodol hwnnw o werthusiad, gyda'r gyllideb werthuso benodol yn cael ei phennu ar sail y canllawiau a nodir yn yr adran Esblygiad y Gwerthusiad.

**Tabl 5 – Matrics ateb cost**

| Mynegai Cost | Sgôr |
|---|---|
| x > 1.45 | ○ |
| 1.30 < x ≤ 1.45 | ◔ |
| 1.15 < x ≤ 1.30 | ◑ |
| 1.00 < x ≤ 1.15 | ◕ |
| x ≤ 1.00 | ● |

## Amseroldeb

1.117 Mae amseroldeb gwerthusiad yn hollbwysig er mwyn sicrhau y gall y gwerthusiad gyflawni un o’i brif ddibenion: llywio penderfyniadau polisi yn y dyfodol. Mae gan wahanol fathau o werthusiad wahanol linellau amser naturiol oherwydd yr amser y mae'n ei gymryd i effeithiau fod yn weladwy yn y data o gymharu â dangosyddion proses, y gellir eu mesur ar unwaith, er enghraifft. O ganlyniad, mae gennym fatricsau ateb ar wahân i werthusiadau prosesau, canlyniadau a gwerthusiadau effaith ac economaidd. Rydym yn grwpio gwerthusiad effaith ac economaidd gyda’i gilydd am y rhesymau a drafodwyd yn Adran 5. Mae ‘amser tan y canlyniadau’ yn cyfeirio at yr amser rhwng cychwyn y rhaglen/prosiect a’r pwynt lle mae canlyniadau’r gwerthusiad ar gael.

**Tabl 6 – Matrics ateb amseroldeb (Proses)**

| Amser tan y canlyniadau | Sgôr |
|---|---|
| x > 3 blynedd | ○ |
| 2.5 flynedd < x ≤ 3 blynedd | ◔ |
| 2 flynedd < x ≤ 2.5 flynedd | ◑ |
| 1.5 blwyddyn < x ≤ 2 flynedd | ◕ |
| x ≤ 1.5 blwyddyn | ● |

**Tabl 7 - Matrics ateb amseroldeb (Canlyniad)**

| Amser tan y canlyniadau | Sgôr |
|---|---|
| x > 6 blynedd | ○ |
| 5 mlynedd < x ≤ 6 blynedd | ◔ |
| 4 blynedd < x ≤ 5 mlynedd | ◑ |
| 3 blynedd < x ≤ 4 blynedd | ◕ |
| x ≤ 3 blynedd | ● |

**Tabl 8 - Matrics ateb amseroldeb (Effaith/Economaidd)**

| Amser tan y canlyniadau | Sgôr |
|---|---|
| x > 12 mlynedd | ○ |
| 10 mlynedd < x ≤ 12 mlynedd | ◔ |
| 8 mlynedd < x ≤ 10 mlynedd | ◑ |
| 6 blynedd < x ≤ 8 mlynedd | ◕ |
| x ≤ 6 blynedd | ● |

## Cadernid

1.118 Yn debyg i argaeledd data, nid yw asesu cadernid mor llinol ag yw yn achos amseroldeb a chost. Mae nifer o bryderon yn ymwneud â chadernid, gan gynnwys i ba raddau y mae'n bosibl creu sefyllfa wrthffeithiol gadarn yn achos dulliau meintiol, yn ogystal â'r graddau y mae'r gwerthusiad yn gyfannol, gan gyfuno dulliau ansoddol a meintiol yn briodol.

1.119 Er mwyn mynd i'r afael â'r aflinoledd a'r goddrychedd hwn, rydym wedi datblygu set o bedwar cwestiwn i asesu a fyddai gwerthusiad arfaethedig yn ddigon cadarn. Mae pob cwestiwn yn cael ei sgorio yn 0 neu 1, gyda chyfanswm y pedair sgôr cwestiwn yn cynrychioli'r sgôr ar gyfer argaeledd data yn ei gyfanrwydd.

*Cwestiwn 1 – A oes lle i gynnwys dadansoddiad meintiol ac ansoddol?*

1.120 Er mwyn i werthusiad fod yn ddigon cyfannol, mae'n ddymunol cael rhywfaint o ddulliau cymysg. Yn gyffredinol, mae dadansoddiad meintiol yn cynnig mantais sylweddol o ran yr ehangder y gellir ei gwmpasu, tra gall dulliau ansoddol yn aml ychwanegu lefel o ddyfnder nad yw'n gyraeddadwy gyda dulliau meintiol yn unig. Fel y cyfryw, mae'r cwestiwn hwn yn mynd i'r afael â'r mater sylfaenol iawn hwn gyda'r bwriad o gymell y defnydd o gyfuniad o ddulliau yn y gwerthusiadau ar lefel rhaglen/polisi.

1.121 Nid yw'r cwestiwn hwn yn berthnasol yn achos gwerthusiad economaidd a dylid ei neilltuo fel 1 yn ddiofyn pan fydd y pecyn cymorth yn cael ei gymhwyso i werthusiadau economaidd posibl. Mae hyn oherwydd bod gwerthusiadau economaidd yn dibynnu ar ddata a thystiolaeth sydd eisoes yn bodoli i gynhyrchu dadansoddiad ac felly ni fyddent yn cynnwys unrhyw gasgliad sylweddol o wybodaeth ansoddol na meintiol.

**Tabl 9 – Matrics ateb cwestiwn 1 Cadernid**

| Ateb | Sgôr |
|---|---|
| Oes | 1 |
| Nac oes | 0 |

*Cwestiwn 2 – A yw'n ymarferol defnyddio technegau lled-arbrofol?*

1.122 Yn absenoldeb hap-dreialon rheoledig, dulliau lled-arbrofol yw'r safon aur o ran gwerthuso effaith ac, yn unol â hynny, mae eu defnydd yn arwain at ganlyniadau llawer mwy credadwy nag sy'n wir am ddulliau amgen.

1.123 Nid yw'r cwestiwn hwn yn berthnasol yn achos gwerthusiad proses neu economaidd a dylid ei neilltuo fel 1 yn ddiofyn pan fydd y pecyn cymorth yn cael ei gymhwyso i werthusiadau proses neu economaidd posibl. Mae hyn oherwydd mai dim ond ar gyfer gwerthuso effaith y defnyddir technegau lled-arbrofol. Mae gwerthusiadau Proses yn tueddu i ganolbwyntio ar ddadansoddiad llai technegol, tra bod gwerthusiadau economaidd yn defnyddio data sydd eisoes yn bodoli a byddent yn cymryd unrhyw ddadansoddiadau lled-arbrofol presennol fel y rhoddir, os ydynt ar gael.

**Tabl 10 – Matrics ateb cwestiwn 2 Cadernid**

| Ateb | Sgôr |
|---|---|
| Ydy | 1 |
| Nac ydy | 0 |

*Cwestiwn 3 – A oes astudiaethau o bolisïau tebyg mewn cyd-destunau tebyg y gellir eu defnyddio ar gyfer gwiriadau cadernid?*

1.124 Gall astudiaethau blaenorol o bolisïau tebyg hefyd fod yn sail ar gyfer gwirio synnwyr canfyddiadau'r gwerthusiad. Os yw canfyddiadau'r gwerthusiad o fewn ffiniau rhesymol amcangyfrifon o bolisïau tebyg mewn cyd-destunau tebyg, mae hynny'n rhoi hygrededd pellach i'r canlyniadau.

**Tabl 11 - Matrics ateb cwestiwn 3 Cadernid**

| Ateb | Sgôr |
|---|---|
| Oes | 1 |
| Nac oes | 0 |

*Cwestiwn 4 – A oes ffynhonnell ddata ychwanegol y gellir ei defnyddio ar gyfer gwiriadau cadernid?*

1.125 Mae llu o faterion a all godi gyda setiau data unigol, megis diffyg cynrychiolaeth, maint sampl a chywirdeb. Fel y cyfryw, mae budd mawr mewn cael mwy nag un set ddata y gellir cynnal gwerthusiad arni. Gall dadansoddi setiau data ychwanegol fel gwiriadau cadernid helpu i liniaru risgiau materion a all godi wrth ddefnyddio setiau data unigol.

**Tabl 12 - Matrics ateb cwestiwn 4 Cadernid**

| Ateb | Sgôr |
|---|---|
| Oes | 1 |
| Nac oes | 0 |

# 8. Asesiad gwerthusadwyedd: enghreifftiau

1.126 Er mwyn dangos sut y dylid rhoi'r pecyn cymorth ar waith yn ymarferol, rydym wedi datblygu tair enghraifft ymarferol sy'n dangos sut i gymhwyso'r pecyn cymorth i bolisïau a rhaglenni dethol yng nghynllun cyflenwi strategaeth 2022-24. Gan nad yw'r holl wybodaeth berthnasol ar gael ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, gwnaed rhai tybiaethau ynghylch cost gymharol y gwerthusiad ac amserlen y rhaglen/polisi.

1.127 Drwy gydol yr enghreifftiau hyn, gwneir yn glir lle mae'r asesiadau'n seiliedig ar ragdybiaethau yn hytrach nag ar ddata neu wybodaeth sy'n bodol.

## **Enghraifft 1** (Gwerthusiad proses)

1.128 Mae'r enghraifft hon yn ystyried gwerthusiad proses posibl y rhaglen, sy'n buddsoddi mewn ymyriad newid ymddygiad i annog rhieni a gofalwyr, a'r rhai sy'n cynllunio beichiogrwydd, i addasu eu ffordd o fyw.

### Argaeledd data

1.129 Yn wahanol i werthuso canlyniadau ac effaith, nid yw gwerthusiadau proses yn dibynnu ar argaeledd data allbwn neu ganlyniad, yn enwedig gan y gallai diffyg data monitro fod yn ganfyddiad o'r gwerthusiad proses ei hun. Felly, nid yw argaeledd data yn cael ei ystyried yn faen prawf perthnasol mewn asesiad gwerthusadwyedd o werthusiadau proses. Sgôr = Amherthnasol.

### Cost

1.130 Er mwyn asesu dichonoldeb y gwerthusiad effaith hwn o safbwynt cost, rydym yn defnyddio'r fformiwla mynegai cost a nodir yn y pecyn cymorth. Unwaith eto, mae'n rhaid inni wneud rhai tybiaethau hyddysg ynghylch cost y gwerthusiad arfaethedig, cyllideb werthuso'r strategaeth a chost gweithredu'r polisi dan sylw. Rydym wedi defnyddio cyllideb gyffredinol y strategaeth o £52m fel cyllideb y strategaeth. I amcangyfrif y gyllideb gwerthusiad proses, rydym yn dechrau drwy ddefnyddio'r rheol gyffredinol y dylid neilltuo tua 10% o gyllideb ymyriad ar gyfer gwerthuso, sy'n awgrymu cyfanswm cyllideb werthuso o £5.2m. O'r fan honno, cynigiwn y dylid neilltuo 15% o'r gyllideb werthuso honno ar gyfer gwerthusiad

proses, sy'n awgrymu cyllideb gwerthusiad proses o £0.78m. Yna tybiwn mai cost y rhaglen fydd £3m a chost y gwerthusiad proses yw £50,000. Mae mewnbynnu'r niferoedd hyn i fformiwla mynegai cost, fel y gwneir isod, yn arwain at fynegai cost o 1.11.

$$\text{Mynegai cost} = \left(\frac{£0.05\text{m}}{£0.78\text{m}}\right) \div \left(\frac{£3.0\text{m}}{£52.0\text{m}}\right) = 1.11$$

1.131 Mae'r mynegai cost rhwng y trothwyon 1.00 ac 1.15, a'r sgôr cost yw 3 ac felly bernir bod y gost yn gymesur â'r gyllideb werthuso.

## Amseroldeb

1.132 Yn achos gorwel amser y gwerthusiad, mae gofynion amser pob gwerthusiad yn unigryw a byddant yn dibynnu ar adnoddau, capasiti ac argaeledd data. Wedi dweud hynny, nid oes gennym unrhyw reswm i ddisgwyl y bydd gwerthusiad proses y rhaglen hon yn hirach na'r hyn sy'n safonol ac felly, os tybiwn gyfnod dylunio o 6 mis, cyfnod monitro 1 flwyddyn a chyfnod gwerthuso o 3 mis, yna disgwylir canlyniadau o fewn 21 mis i gychwyn y rhaglen. Byddai 21 mis yn awgrymu sgôr amseroldeb o 3 gan ei fod o dan y trothwy o 2 flynedd (gweler Tabl 6).

## Cadernid

1.133 Er mwyn asesu cadernid y gwerthusiad arfaethedig, rydym yn ateb y pedwar cwestiwn a nodir yn y pecyn cymorth.

*C1 – A oes lle i gynnwys dadansoddiad meintiol ac ansoddol?*

1.134 Mae gan y gwerthusiad proses arfaethedig le i gyfuno dadansoddiad ansoddol a meintiol. Gallai data monitro ar faint o rieni y cysylltwyd â nhw drwy'r rhaglen fod yn sail ar gyfer gwerthusiad meintiol, tra gellid cynnal data monitro ansoddol a chyfweliadau gydag ymarferwyr a darpar rieni i fesur eu barn ar yr hyn a weithiodd a'r hyn nad oedd yn gweithio ar y rhaglen. Sgôr = 1.

*C2. A yw'n ymarferol defnyddio technegau lled-arbrofol?*

1.135 Mae'r pecyn cymorth yn egluro nad yw'r cwestiwn hwn yn berthnasol i werthuso proses ac y dylid ei sgorio fel 1 yn ddiofyn. Sgôr = 1.

*C3. A oes astudiaethau o bolisïau tebyg mewn cyd-destunau tebyg y gellir eu defnyddio ar gyfer gwiriadau cadernid?*

1.136 Na, nid yw'n ymddangos bod gwerthusiadau proses sydd ddigon tebyg o raglenni tebyg mewn cyd-destun tebyg. Sgôr = 0.

*C4. A oes ffynhonnell ddata ychwanegol y gellir ei defnyddio ar gyfer gwiriadau cadernid?*

1.137 Na, nid yw'n ymddangos bod unrhyw setiau data ychwanegol y gellid eu defnyddio ar gyfer gwerthusiad proses y rhaglen hon. Sgôr = 0.

1.138 Mae'r atebion i'r pedwar cwestiwn yn arwain at sgôr cyfun cadernid o 2 allan o 4.

## Casgliad

1.139 Yn gyffredinol, mae cymhwyso'r pecyn cymorth i'r polisi hwn wedi arwain at sgôr gyfartalog wedi'i dalgrynnu o 3, sy'n nodi y byddai gwerthusiad proses yn debygol o fod yn ymarferol yn yr achos hwn (gweler Tabl 13). Mae'r achos o blaid gwerthusiad yn gryf o safbwynt cost ac amseroldeb, a'r unig ffynhonnell sy'n peri pryder yw mai cyfyngedig yw'r opsiynau i gynnal gwiriad cadernid ar ganlyniadau'r gwerthusiad.

**Tabl 13 - Crynodeb sgôr enghraifft 1**

| Ystyriaeth allweddol | Sgôr |
|---|---|
| Argaeledd data | Amherthnasol |
| Cost | ◕ |
| Amseroldeb | ◕ |
| Cadernid | ◑ |
| Cyfartaledd wedi'i dalgrynnu | ◕ |
| Argymhelliad | *Gwneud* gwerthusiad |

## **Enghraifft 2** (Gwerthusiad effaith)

1.140 Mae’r enghraifft hon yn ystyried gwerthusiad effaith bosibl y rhaglen sy’n buddsoddi £1m mewn cynlluniau peilot beiciau trydan ar gyfraddau teithio llesol i’r cymunedau sy’n eu derbyn.

### Argaeledd data

1.141 Er mwyn asesu cadernid y gwerthusiad arfaethedig, rydym yn ateb y pedwar cwestiwn a nodir yn y pecyn cymorth.

*C1. A oes data priodol yn bodoli?*

1.142 Oes, mae mesur priodol o'r union ganlyniad yn bodoli. Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru yn darparu data hunan-gofnodedig ar weithgarwch corfforol pobl, gan gynnwys beicio. Sgôr = 1.

*C2. Beth yw gronynnedd y data?*

1.143 Mae'r data ar gael ar lefel yr unigolyn a lefel y cartref. Sgôr = 1.

*C3. A oes data ar gyfer sefyllfa wrthffeithiol gadarn yn bodoli ar yr un lefel o ronynnedd?*

1.144 Oes, mae Arolwg Panel Aelwydydd Prydain ac Arolwg Iechyd Lloegr yn darparu data cymaradwy ar weithgarwch corfforol ar lefel unigolion a chartrefi. Sgôr = 1.

*C4. A yw’r data ar gael ac yn hawdd i’w cyrchu?*

1.145 Ydy, mae Arolwg Cenedlaethol Cymru o dan gylch gorchwyl Llywodraeth Cymru. Sgôr = 1.

1.146 Arweiniodd yr atebion i’r pedwar cwestiwn at sgôr cyfunol argaeledd data o 4 allan o 4.

### Cost

1.147 Er mwyn asesu dichonoldeb y gwerthusiad effaith hwn o safbwynt cost, rydym yn defnyddio'r fformiwla mynegai cost a nodir yn y pecyn cymorth. Ar y pwynt hwn, mae’n rhaid i ni eto wneud rhai tybiaethau hyddysg ynghylch cost y gwerthusiad arfaethedig, cyllideb werthuso’r strategaeth a chost gweithredu’r polisi dan sylw. Rydym wedi defnyddio cyllideb gyffredinol y strategaeth o £52m fel cyllideb y strategaeth. I amcangyfrif y gyllideb gwerthusiad effaith, rydym yn dechrau drwy ddefnyddio’r rheol gyffredinol y dylid neilltuo tua 10% o gyllideb ymyriad i’w

gwerthuso, sy'n awgrymu cyfanswm cyllideb werthuso o £5.2m. O'r fan honno, cynigiwn y dylid neilltuo 30% o'r gyllideb werthuso honno ar gyfer gwerthusiad effaith, sy'n awgrymu cyllideb gwerthusiad effaith o £1.56m. Diffinnir cost y rhaglen fel £1m. Ar gyfer yr amcangyfrif o gost y gwerthusiad effaith, rydym wedi amcangyfrif hyn yn £50,000 ar sail ein gwaith yn y gorffennol ar werthuso effaith. Mae mewnbynnu'r niferoedd hyn i fformiwla mynegai cost, fel y gwneir isod, yn arwain at fynegai cost o 1.67.

$$\text{Mynegai cost} = \left(\frac{£0.05\text{m}}{£1.56\text{m}}\right) \div \left(\frac{£1.0\text{m}}{£52.0\text{m}}\right) = 1.67$$

1.148 Mae'r mynegai cost hwn fymryn yn uwch na'r trothwy 1.45, ac ar ôl hynny mae'r sgôr cost wedi'i gosod ar 0, felly bydd y gost anghymesur hon yn arwain at argymhelliad na ddylid gwerthuso effaith y polisi hwn. Mae'r sgôr o 0 allan o 4 ar gyfer cost yn drech na'r sgôr cyfartalog wedi'i thalgrynnu.

1.149 Er mwyn gwirio synnwyr y canlyniad hwn, gallwn gymharu'r gost gwerthusiad effaith o £50,000 â chyfanswm y gyllideb gwerthusiad effaith o £195,000. Yn reddfol, byddai gwario bron i 1/4 o'r gyllideb ar werthuso un rhaglen yn ei hun yn ddigon i gefnogi ein hargymhelliad y byddai cost gwerthusiad effaith yn anghymesur yn yr achos hwn. Fel y trafodwyd yn Adran 6, gall dulliau seiliedig ar ddamcaniaeth fod yn ddefnyddiol ar gyfer asesu effaith lle nad yw gwerthusiadau empirig yn ymarferol.

### Amseroldeb

1.150 Yn achos gorwel amser y gwerthusiad, mae gofynion amser pob gwerthusiad yn unigryw a byddant yn dibynnu ar adnoddau, capasiti ac argaeledd data. Gan nad oes gennym wybodaeth am yr agweddau hyn ar hyn o bryd, ni allwn ond seilio'r asesiad hwn ar ragdybiaethau. Mae'n rhesymol y byddem yn disgwyl gweld effaith sylweddol ar y defnydd o deithio llesol yn lle dewisiadau eisteddog eraill o fewn 5 mlynedd neu lai. Mae ein hamcangyfrif yn fyrrach na'r disgwyl ar gyfer polisi gwlad gyfan, gan y dangosir yn aml bod cynlluniau peilot wedi'u targedu yn cael effeithiau mwy a chyflymach nag sy'n wir am bolisïau neu raglenni a gyflwynir ar lefel genedlaethol. Byddai 5 mlynedd yn awgrymu sgôr amseroldeb o 4, gan ei fod o dan y trothwy 6 blynedd (gweler Tabl 8).

## Cadernid

1.151 Er mwyn asesu cadernid y gwerthusiad arfaethedig, rydym yn ateb y pedwar cwestiwn a nodir yn y pecyn cymorth.

*C1. A oes lle i gynnwys dadansoddiad meintiol ac ansoddol?*

1.152 Oes, mae lle ar gyfer gwerthusiad effaith meintiol trwyadl gan ddefnyddio'r data a amlinellir yn y cwestiynau argaeledd data, ac mae lle hefyd ar gyfer agwedd ansoddol ar y gwerthusiad. Gallai arolygon a chyfweliadau gyda gweinyddwyr a buddiolwyr y rhaglen ychwanegu dyfnder at y gwerthusiad a thaflu goleuni ar y mecanweithiau a ddefnyddiwyd gan y rhaglen i effeithio ar eu harferion gweithgarwch corfforol. Sgôr = 1.

*C2. A yw'n ymarferol defnyddio technegau lled-arbrofol?*

1.153 Ydy, mae dulliau megis gwahaniaeth-mewn-gwahaniaethau a dadansoddiad econometrig cyfres amser yn ddwy enghraifft o ffyrdd y gellid gwerthuso effaith y rhaglen hon gan ddefnyddio technegau lled-arbrofol. Yn y ddau achos, byddai'r gwerthusiad yn cymharu lefel y gweithgarwch corfforol a wneir gan y rhai a fydd yn elwa o'r rhaglen cyn ac ar ôl ei gweithredu. Yn achos gwahaniaeth-mewn-gwahaniaethau, byddai'r gwahaniaeth hwn hefyd yn cael ei gymharu â'r gwahaniaeth a welwyd yn y sampl o bobl na chafodd fudd o'r rhaglen. Sgôr = 1.

*C3. A oes astudiaethau o bolisïau tebyg mewn cyd-destunau tebyg y gellir eu defnyddio ar gyfer gwiriadau cadernid?*

1.154 Oes, un enghraifft bosibl o'r fath fyddai adroddiad 2016 y Sefydliad Astudiaethau Cyflogaeth (IES) ar effaith y Cynllun Beicio i'r Gwaith. Sgôr = 1.

*C4. A oes ffynhonnell ddata ychwanegol y gellir ei defnyddio ar gyfer gwiriadau cadernid?*

1.155 Na, nid ydym yn ymwybodol o unrhyw ffynonellau data ychwanegol y gellid eu defnyddio ar gyfer gwiriadau cadernid. Sgôr = 0.

1.156 Mae'r atebion i'r pedwar cwestiwn yn arwain at sgôr cyfun ar gyfer cadernid o 3 allan o 4.

## Casgliad

1.157 Mae Tabl 14 yn dangos y canlyniadau terfynol ar gyfer cymhwysiad enghreifftiol o'r pecyn cymorth i'r rhaglen hon. Dangoswyd bod gwerthusiad effaith arfaethedig y rhaglen yn addawol o safbwynt argaeledd data, amseroldeb a

chadernid, ond arweiniodd ei gost anghymesur at argymhelliad i beidio â bwrw ymlaen â’r gwerthusiad. Sylwer y gellid dal i benderfynu bwrw ymlaen â gwerthusiad yn dibynnu ar flaenoriaethu’r gwerthusiad hwn yn erbyn eraill, yn ogystal â deall pa fath o werthusiad a allai fod yn ymarferol gyda chyllideb fwy cymesur.

**Tabl 14 – Crynodeb sgôr enghraifft 2**

| Ystyriaeth allweddol | Sgôr |
|---|---|
| Argaeledd data | ● |
| Cost | ○ |
| Amseroldeb | ● |
| Cadernid | ◕ |
| Cyfartaledd wedi’i dalgrynnu | ◕ |
| Argymhelliad | *Peidio* gwerthuso (oherwydd sgôr cost = 0) |

## **Enghraifft 3** (Gwerthusiad economaidd)

1.158 Mae’r enghraifft hon yn ystyried y potensial ar gyfer gwerthusiad economaidd o’r casgliad o bolisïau a rhaglenni sy’n canolbwyntio ar faethiad da drwy gydol y diwrnod ysgol. Maent yn cynnwys:

- Ehangu'r ddarpariaeth prydau ysgol am ddim i bob disgybl ysgol gynradd fel bod plant yn gallu cael dau bryd iach y dydd, ochr yn ochr â'r fenter brecwast ysgol am ddim, gan sefydlu arferion bwyta'n iach yn gynnar mewn bywyd. Mae'r fenter brecwast ysgol am ddim wedi ei gwerthuso'n gadarn gan Brifysgol Caerdydd, felly gallai fod potensial i ddatblygu ymhellach y dull ar gyfer cyflwyno a gwerthuso prydau ysgol am ddim.
- Adolygu'r rheoliadau ar faeth bwyd ysgol yn unol â'r safonau a'r canllawiau maeth diweddaraf, a diweddaru safonau cyfredol. Bydd hyn yn cynnwys archwilio labelu bwyd, caffael lleol, newid hinsawdd a thrafnidiaeth, darpariaeth ysgol ac amseriad y diwrnod ysgol.

- Adeiladu ar y gwaith gyda Veg Power i hyrwyddo ffrwythau a llysiau yn gadarnhaol trwy ysgolion cynradd ledled Cymru.
- Hyrwyddo rhaglenni ehangach, fel y Cynllun Gwên, i annog negeseuon ymddygiad cadarnhaol ynghylch iechyd y geg a deintyddol ac effaith bwyd llawn siwgr ar ddannedd a deintgig.

1.159 Mae’r enghraifft hon wedi’i chynllunio i ddangos y potensial ar gyfer defnyddio’r pecyn cymorth gyda grŵp o bolisïau yn hytrach nag un polisi unigol yn unig. Dylai gwerthusiad economaidd da fod yn seiliedig ar ganlyniadau gwerthusiad effaith trwyadl, felly ar gyfer yr enghraifft hon, byddwn yn cymryd bod y gwerthusiad effaith hwn eisoes wedi’i gynnal a bod effaith y gyfres hon o bolisïau ar faeth mewn ysgolion wedi’i hamcangyfrif.

## Argaeledd data

1.160 Bernir nad yw'r maen prawf hwn yn berthnasol ar gyfer gwerthusiadau economaidd. Mae hyn oherwydd bod gwerthusiadau economaidd yn defnyddio tystiolaeth a dadansoddiadau sy'n bodoli eisoes, megis gwerthusiadau effaith a fyddai eisoes wedi'u cynnal. Gall gwerthusiadau economaidd ddefnyddio rhywfaint o gasglu a dadansoddi data, ond byddai hyn fel arfer yn gyfyngedig. Felly, ni chaiff yr agwedd hon ar y pecyn cymorth ei chymhwyso ar gyfer yr enghraifft hon. Sgôr = Amherthnasol.

## Cost

1.161 Er mwyn asesu dichonoldeb y gwerthusiad economaidd hwn o safbwynt cost, rydym yn defnyddio'r defnyddio'r fformiwla mynegai cost a nodir yn y pecyn cymorth. Unwaith eto, mae’n rhaid inni wneud rhai tybiaethau hyddysg ynghylch cost y gwerthusiad arfaethedig, cyllideb werthuso’r strategaeth a chost gweithredu’r polisi dan sylw. Rydym wedi defnyddio cyllideb gyffredinol amcangyfrifedig y strategaeth o £52m fel cyllideb y strategaeth. I amcangyfrif y gyllideb gwerthusiad effaith, rydym yn dechrau drwy ddefnyddio’r rheol gyffredinol y dylid neilltuo tua 10% o gyllideb ymyriad i’w gwerthuso, sy’n awgrymu cyfanswm cyllideb werthuso o £5.2m. O'r fan honno, rydym yn cynnig cyllideb gwerthuso economaidd o £500,000. Tybiwn hefyd mai cost gyfunol y rhaglenni a’r polisïau yw £4m ac mai cost amcangyfrifedig y gwerthusiad economaidd yw £70,000. Mae mewnbynnu'r niferoedd hyn i fformiwla Mynegai Cost, fel y gwneir isod, yn arwain at Fynegai Cost o 1.33.

$$\text{Mynegai cost} = \left(\frac{£0.07\text{m}}{£0.50\text{m}}\right) \div \left(\frac{£4.0\text{m}}{£52.0\text{m}}\right) = 1.82$$

1.162 Mae'r Mynegai Cost hwn uwchlaw'r trothwy o 1.82, sy'n awgrymu bod cost y gwerthusiad yn uchel.

## Amseroldeb

1.163 Yn achos gorwel amser y gwerthusiad, o gofio y bydd y gwerthusiad economaidd yn seiliedig ar werthusiad effaith blaenorol, bydd angen ystyried yr amser sydd ei angen i gynnal y gwerthusiad rhagarweiniol hwn. Gallem, felly, ddisgwyl yn rhesymol i'r gwerthusiad effaith gorffen o fewn 8 mlynedd, gyda gwerthusiad economaidd yn cael ei gynnal y flwyddyn ganlynol. Byddai 9 mlynedd yn awgrymu sgôr amseroldeb o 2 gan ei fod rhwng y trothwyon 8 a 10 mlynedd (gweler Tabl 8).

## Cadernid

1.164 Er mwyn asesu cadernid y gwerthusiad arfaethedig, rydym yn ateb y pedwar cwestiwn a nodir yn y pecyn cymorth.

*C1. A oes lle i gynnwys dadansoddiad meintiol ac ansoddol?*

1.165 Mae'r pecyn cymorth yn egluro nad yw'r cwestiwn hwn yn berthnasol i werthuso economaidd ac y dylid ei sgorio fel 1 yn ddiofyn. Sgôr = 1.

*C2. A yw'n ymarferol defnyddio technegau lled-arbrofol?*

1.166 Mae'r pecyn cymorth yn egluro nad yw'r cwestiwn hwn yn berthnasol i werthuso economaidd ac y dylid ei sgorio fel 1 yn ddiofyn. Sgôr = 1.

*C3. A oes astudiaethau o bolisïau tebyg mewn cyd-destunau tebyg y gellir eu defnyddio ar gyfer gwiriadau cadernid?*

1.167 Oes, un enghraifft o'r fath fyddai Vale et al. (2012) a oedd yn canolbwyntio ar bolisi bwyd ysgol yn Newcastle. Sgôr = 1.

*C4. A oes ffynhonnell ddata ychwanegol y gellir ei defnyddio ar gyfer gwiriadau cadernid?*

1.168 Nid yw'n ddichonadwy asesu hyn heb wybod yr union fanteision y bydd y gwerthusiad economaidd yn ceisio eu hamcangyfrif. Yn ein profiad ni o gynnal CBAs, yn amlach na pheidio mae yna ffordd i ddefnyddio amcangyfrif neu gyfres

ddata amgen i wirio'r dadansoddiad synnwyr. Gyda hynny mewn golwg, byddwn yn tybio bod yr opsiwn hwn yn bodoli ar gyfer y senario hwn. Sgôr = 1.

1.169 Mae’r atebion i’r pedwar cwestiwn yn arwain at sgôr cyfun ar gyfer cadernid o 3 allan o 4.

## Casgliad

1.170 Mae Tabl 15 yn dangos y canlyniadau terfynol ar gyfer cymhwyso'r pecyn cymorth i'r gyfres hon o raglenni. Mae’r sgôr derfynol o 2 wedi’i thalgrynnu yn arwain at argymhelliad i beidio â gwerthuso, sy’n adlewyrchu’r ffaith bod y gost yn cael ei hystyried yn anghymesur o uchel a’r gorwel amser ar gyfer cael y canlyniadau ar gael ar ôl hynny, gan adael rhy ychydig o le i fwydo canfyddiadau yn ôl i brosesau cynllunio’r strategaeth. Er gwaethaf hyn, roedd y sgôr ar yr ymylon ac roedd gan y gwerthusiad arfaethedig y potensial i fod yn fethodolegol gadarn ac felly, mewn amgylchedd cost gwahanol gallai fod yn ddichonadwy.

**Tabl 15 - Crynodeb sgôr enghraifft 3**

| Ystyriaeth allweddol | Sgôr |
|---|---|
| Argaeledd data | Amherthnasol |
| Cost | ○ |
| Amseroldeb | ◑ |
| Cadernid | ● |
| Cyfartaledd wedi’i dalgrynnu | ◑ |
| Argymhelliad | *Peidio* gwerthuso |

# 9. Materion gwerthuso ymarferol

1.171 Mae nifer o faterion ymarferol sy'n gyffredin i'r holl fethodolegau gwerthuso y mae angen i werthuswyr eu cadw mewn cof:

- casglu data
- protocolau data
- gosod y gwaelodlin

## Casglu data

1.172 Er bod ein hargymhelliad yn trafod yr angen i gasglu data ychwanegol mewn rhai meysydd (gweler Adran 5), bydd angen i'r gwerthuswyr benderfynu ar agweddau penodol o ymarferoldeb casglu data wrth gynllunio pob darn penodol o waith gwerthuso.

1.173 Mewn achosion lle'r ystyrir casglu ffrydiau data newydd, dylai gwerthuswyr gadw'r pryderon ymarferol a ganlyn mewn cof:

- Y costau sy'n gysylltiedig â chasglu a rheoli data.
- P'un a yw'r data sy'n ymarferol ei gasglu yn cynrychioli sampl digon mawr i'w ddefnyddio ar gyfer gwerthusiad cadarn ac ystyrlon.
- Y cynllun samplu: i ba raddau y byddai'r sampl y gellid ei chasglu'n ymarferol yn gynrychioliadol o'r boblogaeth y maent yn ei hastudio.
- P'un a oes enghreifftiau perthnasol o'r data hwn yn cael ei gasglu mewn cyd-destunau tebyg y gellir eu defnyddio fel canllaw.
- P'un a yw'r data'n cael ei gasglu gan bartner yn y sector cyhoeddus neu breifat a lefel y mynediad i'r data a'u rheolaeth.
- Gronynnedd y data y gellir ei gasglu'n ymarferol, megis ar gyfer dadansoddiadau ar lefel data aelwydydd/cwmni, bwrdd iechyd neu genedlaethol.
- Argaeledd data cymaradwy y gellid ei ddefnyddio fel sefyllfa wrthffeithiol ar gyfer y ffrwd ddata newydd hon yn yr achos lle mae'r data i'w ddefnyddio ar gyfer gwerthusiad meintiol canlyniad neu effaith.

## Protocolau data

1.174 Rhaid i werthuswyr yn y dyfodol gadw at y safonau cyfrinachedd a diogelwch data gofynnol.[23] Mae cyfrinachedd yn cyfeirio at gytundeb y gwerthuswyr i sicrhau nad yw unrhyw ddata a gesglir gan gyfranogwyr ymchwil y gwerthusiad yn cael ei ddatgelu'n amhriodol. Mae diogelwch yn cyfeirio at allu'r gwerthuswyr i gadw data a gasglwyd gan gyfranogwyr ymchwil yn ddiogel ac yn unol â rheoliadau cyfreithiol diogelu data.

1.175 Er mwyn cydymffurfio â Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol newydd y Deyrnas Unedig (UK GDPR), dylai'r gwerthuswyr:

- Neilltuo rôl preifatrwydd data i un aelod o'r prosiect i ymdrin yn benodol â rheoliad GDPR y DU, sy'n gyfrifol am storio, trosglwyddo a gwaredu data'n gywir.
- Cynnal Asesiadau o'r Effaith ar Breifatrwydd ar gyfleusterau'r gwerthuswyr eu hunain neu unrhyw bartïon prosesu data trydydd parti ac, os oes angen, adolygu unrhyw gontractau safonol neu bolisïau diogelwch presennol i fodloni rheoliadau GDPR y DU.
- Creu protocol swyddogol ar gyfer cyfranogwyr sydd eisiau cyrchu neu ddileu eu data. Gellid cyfathrebu hyn drwy ffurflenni caniatâd.
- Creu protocol swyddogol ar gyfer achosion o dorri data.

1.176 Er bod data a gesglir ar gyfer y gwerthusiad hwn i gyd yn debygol o fod yn ddienw, mae'n dal yn debygol o fod yn ddadlennol (h.y., gallai rhywun adnabod unigolyn ar sail y wybodaeth ddienw amdano). Yn ogystal â sicrhau bod data'n cael ei gadw'n ddiogel, dylai'r arweinydd preifatrwydd data sicrhau nad yw unrhyw ddata a adroddir mewn adroddiadau interim neu derfynol yn ddadlennol.

## Gosod y gwaelodlin

1.177 Bydd angen i'r holl ddulliau casglu data ychwanegol a drafodir yn yr asesiad hwn o werthusiad, ar wahân i'r rhai sy'n ymwneud â gwerthuso proses, gael rownd casglu data gwaelodlin y gellir mesur cynnydd yn ei erbyn. Bydd union ddyddiadau'r gwaelodlin yn dibynnu ar fanylion y gwerthusiad dan sylw. Er

[23] Defnyddir y term "data" yn yr ystyr ehangaf. Mae'n cynnwys ffeiliau meintiol, megis ystadegau a ffeiliau rhifiadol, a deunyddiau ansoddol, megis trawsgrifiadau cyfweliad a nodiadau maes. Gall data ymchwil gynnwys fformatau sain a fideo, gwybodaeth ddaearyddol a gwefannau.

enghraifft, mae angen gosod gwaelodlin ar ffrydiau data i werthuso ar lefel strategol cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl er mwyn i'r gwerthusiad yn y dyfodol gasglu effaith y strategaeth yn ei chyfanrwydd. Ar y llaw arall, ar gyfer gwerthusiadau canlyniad neu effaith o bolisïau neu raglenni unigol, dylid cynnal rownd gwaelodlin o gasglu data cyn gynted â phosibl, cyn i'r prosiect gael ei roi ar waith.

## Ymgysylltu â rhanddeiliaid

1.178 Gall ymgysylltu â rhanddeiliaid mewn gwerthusiadau fod yn bwysig er mwyn galluogi canfyddiadau gwerthusiadau i ysgogi canlyniadau ymarferol a all lywio'r strategaeth a gwella prosesau gwneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth yn y dyfodol. Er enghraifft, gall ymgysylltu â rhanddeiliaid sicrhau bod canfyddiadau allweddol yn cael eu mynegi'n glir ac yn ystyrlon mewn ffordd y gellir ei gweithredu'n hawdd gan y rhai sy'n llai cyfarwydd â manylion technegol y gwerthusiad. At hynny, gall cynnwys rhanddeiliaid sicrhau bod yr argymhellion yn cynnwys ystod amrywiol o safbwyntiau sy'n berthnasol i gyflenwi gwelliannau i'r strategaeth neu raglenni'r dyfodol, er mwyn sicrhau gwell gwerth am arian yn y pen draw. Yn olaf, gall cynnwys rhanddeiliaid greu cefnogaeth i'r gwerthusiad, a allai yn ei dro gefnogi hygrededd a gweithrediad ei ganfyddiadau.

1.179 Mae canllawiau wedi'u diweddaru gan y Cyngor Ymchwil Feddygol (2021) yn amlygu pwysigrwydd ymgysylltu â rhanddeiliaid fel rhywbeth sy'n hanfodol ar gyfer blaenoriaethu cwestiynau ymchwil, cyd-ddatblygu theori rhaglenni, dewis y persbectif ymchwil mwyaf defnyddiol, a goresgyn rhwystrau ymarferol i werthuso a gweithredu. Fodd bynnag, mae hefyd yn argymell y dylai ymchwilwyr fod yn ymwybodol o wrthdaro buddiannau ymhlith rhanddeiliaid a defnyddio dulliau tryloyw i gofnodi gwrthdaro buddiannau posibl.

Mae'r tabl isod yn crynhoi sut y gellir cynnwys rhanddeiliaid drwy gydol y broses werthuso.

| Cam gwerthuso | Manylion |
|---|---|
| **Cynllunio** | Mae rhanddeiliaid yn bobl neu bartïon y gallai gwerthusiad y rhaglen effeithio arnynt. Dylid nodi rhanddeiliaid a'u rôl yn y gwerthusiad ar ddechrau'r gwerthusiad. Gellir defnyddio rhanddeiliaid i adnabod nodau tymor byr a tymor hir y gwerthusiad, y gellid eu defnyddio yn y pen draw i bennu llwyddiant y rhaglen. Gall rhanddeiliaid hefyd helpu i wella’r nifer sy’n manteisio ar ganfyddiadau’r gwerthusiad drwy helpu i bennu’r gynulleidfa darged. Gall eu mewnbwn hefyd fod yn ddefnyddiol i nodi a lliniaru risgiau allweddol y rhaglen. |
| **Gweithredu** | Gall ymgysylltu â rhanddeiliaid helpu i oresgyn unrhyw faterion nas rhagwelwyd, megis recriwtio a chadw, a gallu'r gwerthusiad i ddilyn cynllun y prosiect. Dylai gwerthusiad proses gynnwys ystod amrywiol o randdeiliaid i gynhyrchu barn gynrychioliadol ar sut y gellir gwella gweithrediad, a allai yn ei dro wella gallu’r rhaglen i gyflawni ei hamcanion. |
| **Cwblhau** | Gellir cefnogi gwerthusiad canlyniadau tymor hir ac asesiadau gwerth am arian trwy ddwyn ynghyd safbwyntiau amrywiol y rhanddeiliaid a allai gefnogi datblygiad modelau rhesymeg a Damcaniaeth Newid. Gall rhanddeiliaid hefyd awgrymu targedu allbynnau neu ganlyniadau penodol a all gael eu derbyn yn fwy rhwydd gan y rhai sy’n gwneud penderfyniadau. |
| **Lledaenu ac adrodd** | Mae lledaenu a gweithredu’r canfyddiadau gwerthuso yn llwyddiannus yn cael ei ddylanwadu gan allu’r gwerthuswyr i ddatblygu cynllun lledaenu cynhwysfawr sy'n targedu'r gynulleidfa iawn yn y ffordd iawn ar yr amser iawn. O ystyried y gallai fod gan y cynulleidfaoedd hyn ddiddordebau |

| Cam gwerthuso | Manylion |
|---|---|
| | a safbwyntiau amrywiol, mae'n hollbwysig bod rhanddeiliaid sy'n cynrychioli safbwyntiau o'r fath yn cymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu'r cynllun lledaenu a chynnwys yr adroddiad er mwyn sicrhau bod y cyflwyniad/ iaith yn cael ei theilwra yn y ffordd gywir. Gall rhanddeiliaid sydd wedi ymgysylltu'n llwyddiannus hefyd helpu i hyrwyddo canfyddiadau allweddol a sicrhau eu bod yn cael eu mabwysiadu wrth wneud penderfyniadau yn y dyfodol. |

## Dal grwpiau gwahanol yn y gwerthusiad

1.180 Dylid cynnwys grwpiau gwahanol a'u profiadau o ymyriad mewn gwerthusiad, yn enwedig os oes rheswm i gredu y gallai effeithiolrwydd ymyriad amrywio rhwng grwpiau. Er enghraifft, mae cydberthynas uchel rhwng gordewdra ac amddifadedd, felly gall ymyriadau sy'n mynd i'r afael â gordewdra gael effeithiau gwahanol ar y rheiny sydd â lefelau amddifadedd amrywiol. Yn yr un modd, gall gweithredu rhaglen genedlaethol arwain at lefelau gwahanol iawn o lwyddiant ar lefel leol, efallai oherwydd bod gweithredu'n digwydd yn dameidiog yn lleol, neu fod lefelau amrywiol o gefnogaeth leol. Mewn achosion o'r fath, gallai anwybyddu'r gwahaniaethau hyn ar draws y grwpiau hyn arwain at i'r gwerthusiad golli cyfle allweddol i wella canlyniadau i'r grwpiau hynny, gan gyfyngu ar lwyddiant cyffredinol y rhaglen.

1.181 Er nad oes rhestr benodol o grwpiau y dylid eu hystyried, yn aml, yr arfer gorau yw ymgysylltu â rhanddeiliaid, yn ogystal ag adolygu tystiolaeth bresennol a blaenorol, i nodi pa grwpiau a allai gael profiadau gwahanol. Gall gwerthuswyr hefyd ystyried grwpiau sy'n ymwneud â'r naw nodwedd warchodedig benodol yn Neddf Cydraddoldeb 2010 sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus ystyried a fydd pobl â'r nodweddion hyn yn cael eu heffeithio'n anghymesur gan effeithiau penderfyniad (h.y., oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas. a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw, a chyfeiriadedd rhywiol).

1.182 Mae'n bosibl y bydd rhai grwpiau'n ymwneud yn haws â'r gwerthusiad nag eraill, a allai gynyddu'r risg o ragfarnau a chanfyddiadau anghynrychioliadol. Unwaith y bydd grwpiau perthnasol wedi'u nodi, dylai gwerthuswyr deilwra eu dulliau ymchwil a gwerthuso i gydnabod unrhyw wahaniaethau yng ngallu rhai grwpiau i ymgysylltu neu gael eu dal yn y data. Mae'r tabl isod yn rhoi rhywfaint o arweiniad ar sut y gall dulliau casglu gwybodaeth amrywio ar draws rhai grwpiau enghreifftiol.

| Grwpiau | Priodoldeb dulliau casglu gwybodaeth |
|---|---|
| Demograffig | • Cyfweliadau a grwpiau ffocws: gallai hyn fod yn briodol ar gyfer rhai grwpiau demograffig a allai ei chael yn haws rhannu gwybodaeth wyneb yn wyneb yn hytrach na thrwy gyfryngau digidol neu ysgrifenedig (e.e., yr henoed).<br>• Arolygon a pholau piniwn: o'u cynnal yn ddigidol, gallai hyn fod yn addas i grwpiau sydd â lefel uchel o lythrennedd digidol. I'r gwrthwyneb, mae'n bosibl y bydd grwpiau oedrannus sydd fel arfer yn gysylltiedig â lefelau is o ymgysylltu digidol yn ei chael hi'n anoddach cwblhau arolygon ar-lein. Mewn achosion o'r fath, gallai galluogi dulliau digidol a dulliau nad ydynt yn ddigidol fod yn ddefnyddiol.<br>• Gellid defnyddio metrigau allbwn/perfformiad ac astudiaethau arsylwi ansoddol fel dull o gasglu data yn systematig ar draws yr holl grwpiau, ar yr amod bod y data hwn yn gynrychioliadol. |
| Rhanbarthau/ ardaloedd lleol | • Cyfweliadau a grwpiau ffocws: efallai na fydd yn ymarferol cynnal cyfweliadau a grwpiau ffocws ym mhob rhanbarth, yn dibynnu ar raddfa'r gwerthusiad.<br>• Arolygon a pholau piniwn a metrigau allbwn/perfformiad: gallai'r technegau casglu data hyn ffafrio gwerthusiadau sy'n ceisio casglu gwybodaeth fanwl yn systematig ar draws daearyddiaeth eang. |

| Grwpiau | Priodoldeb dulliau casglu gwybodaeth |
|---|---|
| | Fodd bynnag, efallai y bydd angen ystyried llythrennedd digidol hefyd os yw hyn yn rhywbeth sy'n amrywio fesul rhanbarth. |
| Amddifadedd | • Gall grwpiau difreintiedig ei chael yn ariannol anodd cymryd rhan mewn grwpiau ffocws a chyfweliadau personol oherwydd cost teithio.<br>• Yn yr un modd, gall cyfathrebu ar-lein gael ei effeithio hefyd oherwydd efallai na fydd grwpiau difreintiedig yn gallu fforddio mynediad i'r rhyngrwyd.<br>• Gallai casglu unrhyw fetrigau perfformiad neu ymgysylltu â rhanddeiliaid egluro i ba raddau y gall profiad grwpiau amddifadedd amrywiol fod yn wahanol i'w gilydd. |

# 10. Casgliad ac argymhellion

1.183 Un casgliad y gellir ei dynnu o’r ymchwil a gynhaliwyd yw bod llawer o le ar gyfer gwerthusiad proses, effaith ac economaidd, ac mae’n bendant yn ymarferol bwrw ymlaen â rhywfaint o hyn ar lefel y strategaeth gyffredinol a nifer o raglenni/ polisïau unigol. Hefyd, ceir rhannau o HWHW na fydd yn ymarferol eu gwerthuso’n unigol oherwydd cyfyngiadau o ran argaeledd data, cost, amseroldeb neu gadernid.

1.184 Mae’r torbwynt ar gyfer ble i dynnu’r llinell rhwng yr hyn sy’n werthusadwy a’r hyn nad yw’n werthusadwy yn dibynnu ar rai penderfyniadau nad ydynt wedi’u gwneud eto (e.e. cyfanswm y gwariant ar werthusiad HWHW yn ystod ei oes a’r ffordd y mae’r polisïau a’r rhaglenni sy'n rhan o'r strategaeth yn esblygu dros amser). Rydym wedi darparu pecyn cymorth i asesu ble i dynnu'r llinell wrth i'r penderfyniadau hyn gael eu gwneud.

1.185 Gellid dal i benderfynu bwrw ymlaen â gwerthusiad, yn dibynnu ar flaenoriaethu’r gwerthusiad hwn yn erbyn rhai eraill, yn ogystal â deall pa fath o werthusiad a allai fod yn ymarferol gyda chyllideb fwy cymesur.

1.186 Mae gweddill yr adran hon yn darparu’r camau nesaf ymarferol yn dilyn yr adroddiad hwn i fireinio a llywio asesiadau yn y dyfodol.

### Cam 1: Casglu gwybodaeth

1.187 Dylai asesiadau gwerthusadwyedd gael eu mireinio wrth i'r ddealltwriaeth y tu ôl i'r strategaeth gael ei datblygu, megis o ran yr ymyriadau, cyllidebau priodol ac argaeledd gwybodaeth. Mae’r blwch isod yn cyflwyno rhestr wirio arddulliedig o’r mathau o wybodaeth y dylid ei chasglu i fireinio’r asesiad gwerthuso.

**Rhestr wirio o ofynion gwybodaeth** ar gyfer yr asesiad gwerthusadwyedd:

- Mae amcanion y strategaeth, yn ogystal â'r meini prawf ar gyfer llwyddiant, wedi'u diffinio'n glir. Mae canlyniadau allweddol yn fesuradwy gyda data ar gael yn rhwydd.
- Mae'r strategaeth a'r ymyriadau wedi'u diffinio, gyda dealltwriaeth fanwl o'r gweithgareddau cysylltiedig, yr effeithiau posibl a'r carfannau.
- Mae rhesymeg gydlynol yn cysylltu'r mewnbynnau, gweithgareddau, allbynnau a chanlyniadau ar lefel rhaglen a phrosiect.
- Mae'r cyllidebau ar lefel strategaeth ac ymyrraeth wedi'u diffinio'n gywir, gan gynnwys y symiau a neilltuwyd ar gyfer gwerthuso.
- Mae proses drefniadol glir ar gyfer cynllunio, gweithredu a dysgu o ganfyddiadau gwerthuso.
- Mae ffrwd waith neu strwythur penodol (e.e., staff) ar gyfer rheoli gwaith gwerthuso.
- Mae cynllun cynhwysfawr ar gyfer casglu data a monitro ymyriadau a'r strategaeth.
- Mae'r amserlenni ar gyfer gwaith gwerthuso yn glir.

## Cam 2: Cynllunio'r asesiad gwerthusadwyedd

1.188 Mae'r pecyn cymorth a ddisgrifir yn Adran 7 yn darparu methodoleg dryloyw y gellir ei hailadrodd i gynnal yr asesiad gwerthuso. Fodd bynnag, cydnabyddir y gellid ystyried gwerthusiadau fesul achos fel y gellid dal i gynnal gwerthusiad er bod y pecyn cymorth yn barnu nad yw'n ymarferol.

1.189 Gallai rhai argymhellion a fydd yn helpu i gynyddu gwerthusadwyedd gynnwys:

- **Cymhwyso’r pecyn cymorth yn gynnar a’i adolygu’n rheolaidd** – bydd penderfyniadau ar werthusadwyedd polisïau HWHW yn amrywio dros amser wrth i benderfyniadau gael eu gwneud ar faint o adnoddau sydd ar gael i werthuso ac wrth i bolisïau newydd gael eu rhoi ar waith. Er mwyn sicrhau'r gwerth mwyaf posibl o gyllidebau gwerthuso, argymhellir bod y pecyn cymorth yn cael ei gymhwyso a'i ddiweddaru'n rheolaidd wrth i benderfyniadau newydd gael eu gwneud o ran cyllidebau a pholisïau gwerthuso. Bydd blaenoriaethu cynnar yn gymorth i benderfynu ble i ganolbwyntio’r ymdrechion casglu data a darparu amseroedd arwain hirach ar gyfer cynllunio gweithgareddau gwerthuso.

- **Ystyried cynlluniau monitro yn gynnar a phenderfynu lle mae angen casglu data ychwanegol** – mae arfer gorau yn cynnwys ystyried monitro a gwerthuso yn gynnar yn y broses o lunio polisïau, gyda monitro yn aml yn allweddol i werthusadwyedd. Mae nifer o ffynonellau data eisoes yn bodoli a gellir casglu rhywfaint o ddata yn ôl-weithredol, ond mae gwella'r broses barhaus o gasglu data yn allweddol i sicrhau'r gwerthusadwyedd mwyaf.
- **Casglu data gwaelodlin, yn enwedig ar gyfer gwerthuso newid systemau a yrrir gan strategaeth gyffredinol HWHW** – ar gyfer gwerthuso gallu'r strategaeth HWHW i gyflawni newid systemau, argymhellir bod data sylfaenol yn cael ei gasglu cyn gynted â phosibl i greu sylfaen dystiolaeth o arferion ac agweddau cyfredol. Bydd hyn yn galluogi gwerthuswyr mewn gwerthusiadau dilynol i gasglu data tebyg i gymharu â'r gwaelodlin er mwyn asesu a yw systemau wedi'u newid. Fel y trafodwyd yn y bennod ar faterion gwerthuso ymarferol, mae'n bwysig ystyried a yw polisïau eraill o fewn HWHW hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i gasglu data gwaelodlin er mwyn cynyddu gwerthusiad.

## Cam 3: Gweithredu canfyddiadau'r asesiad gwerthusadwyedd

1.190 Yn y pen draw, dylai'r asesiad gwerthusadwyedd fod yn sail i'r broses o wneud penderfyniadau ar yr hyn y dylid ei werthuso a sut. Dylid mynegi'r argymhellion hyn yn glir fel canlyniad yr asesiad, gyda'r strwythurau penderfynu priodol i weithredu ar y canfyddiadau.

1.191 Mae'n bosibl y gallai'r asesiad gwerthusadwyedd fod yn broses ailadroddol, gan y gallai ysgogi trafodaethau pellach ar rai o'r ymyriadau a'r cynlluniau gwerthuso, yn enwedig os nodir rhwystrau penodol i werthusadwyedd y gellir eu goresgyn yn gymharol gyflym. Mae'n bosibl hefyd y gallai'r gwerthusadwyedd canfyddedig newid unwaith y bydd y rhaglen wedi'i rhoi ar waith a bod gwell dealltwriaeth o gasglu data a'r gyllideb werthusadwyedd debygol.

# Cyfeiriadau

Bagnall, A., Radley, D., Jones, R., Gately, P., Nobles, J., Van Dijk, M., Blackshaw, J., Montel, S. and Sahota, P., 2019. Whole systems approaches to obesity and other complex public health challenges: a systematic review. *BMC Public Health*, 19(1).

Brown, A.D., Whelan, J., Bolton, K.A., Nagorcka-Smith, P., Hayward, J., Fraser, P., Strugnell, C., Felmingham, T., Nichols, M., Bell, C. and Le, H.N., 2022. A Theory of Change for Community-Based Systems Interventions to Prevent Obesity. *American journal of preventive medicine*, 62(5), pp.786-794.

Department for Business, Energy & Industrial Strategy, 2021. Valuation of greenhouse gas emissions: for policy appraisal and evaluation *[Data Set]*, Valuation of greenhouse gas emissions: for policy appraisal and evaluation - GOV.UK

DFID, FCO and MoD, 2017. External evaluation of the National Action Plan on women, peace and security: endline report. *The UK Government*.

Digital Health and Care Wales, 2022. Diagnostic and therapy services waiting times (2005-2022) *[Data Set],* AssetName - Asset Manager

Frontier Economics, 2022. Estimating the full costs of obesity.

Gadsby, E.W., Hotham, S., Eida, T., Lawrence, C. and Merritt, R., 2020. Impact of a community-based pilot intervention to tackle childhood obesity: a 'whole-system approach' case study. *BMC public health*, 20(1), pp.1-12.

Greater Manchester Combined Authority (GMCA), 2014. Greater Manchester CBA model [*Data Set]*, https://www.greatermanchester-ca.gov.uk/what-we-do/research/research-cost-benefit-analysis/

Housing Associations' Charitable Trust (2014), 2014. Social Value Bank *[Data Set]*, UK Social Value Bank | HACT

HM Revenues and Custom, 2022. Payrolled employments in the UK by region, industry and nationality, *UK Government [Data Set]*, Payrolled employments in the UK by region, industry and nationality, from July 2014 to June 2021 - GOV.UK

HM Treasury, 2020. Magenta Book: Central Government guidance on evaluation, *UK Government*.

HM Treasury, 2022. Green Book: Appraisal and evaluation in central government, *UK Government*.

Institute for Employment Studies, 2016. Impact of the Cycle to Work Scheme: Evidence Report.

Internal Oversight Change, 2021. Evaluation of the UNESCO Strategy for Action on Climate Change (2018-2021), *UNESCO*.

Karacabeyli, D., Allender, S., Pinkney, S. and Amed, S., 2018. Evaluation of complex community-based childhood obesity prevention interventions. Obesity Reviews, 19(8), pp.1080-1092.

Kumanyika, S.K., 2019. A framework for increasing equity impact in obesity prevention. *American Journal of Public Health*, 109(10), pp.1350-1357.

Kwon, J., Reeve, E., Mann, D., Swinburn, B. and Sacks, G., 2022. Benchmarking for accountability on obesity prevention: evaluation of the Healthy Food Environment Policy Index (Food-EPI) in Australia (2016–2020). *Public health nutrition*, 25(2), pp.488-497.

Medical Research Council, Skivington K, Matthews L, Simpson SA, Craig P, Baird J, Blazeby JM, Boyd KA, Craig N, French DP, McIntosh E, Petticrew M, Rycroft-Malone J, White M, Moore L. A new framework for developing and evaluating complex interventions: update of Medical Research Council guidance. BMJ. 2021 Sep 30;374:n2061. doi: 10.1136/bmj.n2061. PMID: 34593508; PMCID: PMC8482308.

Mackenbach JP, Meerding WJ, Kunst AE, 2011. Economic costs of health inequalities in the European Union. *Journal of Epidemiology & Community Health*; 65:412-419.

Moon, H., Yoo, S.H. and Huh, S.Y., 2021. Monetary valuation of air quality improvement with the stated preference technique: A multi-pollutant perspective. *Science of The Total Environment*, 793, p.148604.

NatCen Social Research. 2016. Welsh Health Survey, 2015. *[data collection]*. *UK Data Service*. SN: 8090 *[Data Set]*, DOI: 10.5255/UKDA-SN-8090-1

NatCen Social Research, Food Standards Agency, 2020. Food and You Survey, 2018. [data collection]. 2nd Edition. *UK Data Service*. SN: 8574 *[Data Set]*, DOI: 10.5255/UKDA-SN-8574-2

National Survey for Wales /Arolwg Cenedlaethol Cymru, Arolwg Cenedlaethol Cymru | LLYW.CYMRU

NHIPPC (National Health Information and Performance Principal Committee), 2017. The Australian Health Performance Framework. *Adelaide: COAG Health Council.*

NHS, 2022. Electronic Staff Record (ESR) *[Data Set]*, Electronic Staff Record (datadictionary.nhs.uk)

NHS Digital, National Diabetes Audit Programme [Data Set], National Diabetes Audit dashboards

Office for National Statistics, 2022. Labour productivity *[Data Set]*, Cynhyrchiant llafur - Office for National Statistics (ons.gov.uk)

Pérez-Escamilla, R., Lutter, C.K., Rabadan-Diehl, C., Rubinstein, A., Calvillo, A., Corvalán, C., Batis, C., Jacoby, E., Vorkoper, S., Kline, L. and Ewart-Pierce, E., 2017.

Prevention of childhood obesity and food policies in Latin America: from research to practice. *Obesity Reviews*, 18, pp.28-38.

Pringle, A., McKenna, J. and Zwolinsky, S., 2017. Linking physical activity and health evaluation to policy: Lessons from UK evaluations. *In Routledge handbook of physical activity policy and practice* (pp. 425-440). Routledge.

Public Health England, 2018. Outcome evaluation: evaluation in health and wellbeing, *UK Government*.

Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2021. Adroddiad Rhaglen Mesur Plant Cymru 2020-21 *[banc data]*, CMP 2020-21 - Public Health Wales (nhs.wales)

Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2016. Mesur Anghydraddoldebau *[banc data]*, Measuring inequalities 2016 - Public Health Wales (nhs.wales)

Ramos, M.F., Weber, J., Thompson, J.A., Werk, L., Shuell, J., Woods, K. and Bamdad, T., 2021. Evaluation of "Healthy Way to Grow": An obesity prevention program in early care and education centers. *Early Childhood Education Journal*, 49(4), pp.553-566.

Rudolf, M., Perera, R., Swanston, D., Burberry, J., Roberts, K. and Jebb, S., 2019. Observational analysis of disparities in obesity in children in the UK: Has Leeds bucked the trend*?. Pediatric obesity*, 14(9), p.e12529.

Sawyer, A., den Hertog, K., Verhoeff, A.P., Busch, V. and Stronks, K., 2021. Developing the logic framework underpinning a whole-systems approach to childhood overweight and obesity prevention: Amsterdam Healthy Weight Approach. *Obesity science & practice*, 7(5), pp.591-605.

StatsCymru: Iechyd cyffredinol oedolion a salwch *[Banc data]*, Iechyd cyffredinol oedolion a salwch (llyw.cymru)

StatsCymru: Ffordd o fyw oedolion *[Banc data]*, Ffordd o fyw oedolion (llyw.cymru)

StatsCymru: Ansawdd aer *[Banc data]*, Ansawdd aer (llyw.cymru)

StatsCymru: Ffordd o fyw plant *[Banc data]*, Ffordd o fyw plant (llyw.cymru)

StatsCymru: Casgliad *[Banc data],* Casgliad (llyw.cymru)

StatsCymru: Disgwyliad oes *[Banc data],* Disgwyliad oes (archif) (llyw.cymru)

StatsCymru: Iechyd a lles meddyliol *[Banc data]*, Iechyd a lles meddyliol (llyw.cymru)

StatsCymru: Rhaglen Gyllideb y GIG *[Banc data]*, Rhaglen cyllideb y GIG (llyw.cymru)

The Climate Change Committee, 2021. Industrial decarbonisation policies for a UK net zero target.

Theis, D.R. and White, M., 2021. Is obesity policy in England fit for purpose? Analysis of government strategies and policies, 1992–2020. *The Milbank Quarterly*, 99(1), pp.126-170.

UNICEF, 2020. The Amsterdam Healthy Weight Approach: Investing in healthy urban childhoods: A case study on healthy diets for children.

Vale, L., Adamson, A., Critchley, J., Rushton, S., Armstrong, N., Donaldson, C., 2012. Economic evaluation: evaluating the short-term impacts of the school food policy and experimental modelling of longer term impacts. *Public Health Research Consortium.*

Llywodraeth Cymru, 2015. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Llywodraeth Cymru, 2019. Pwysau Iach: Cymru Iach. Ein strategaeth tymor hir i atal a lleihau gordewdra yng Nghymru.

Llywodraeth Cymru, 2020. Cynllun cyflenwi Pwysau Iach: Cymru Iach 2020 i 2022.

Llywodraeth Cymru, 2021a. Cynllun cyflenwi Pwysau Iach: Cymru Iach 2021 i 2022.

Llywodraeth Cymru, 2021b. Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2020-2021. [casglu data]. Gwasanaeth Data y DU. SN: 8870 *[Banc data]*, DOI: 10.5255/UKDA-SN-8870-1

Llywodraeth Cymru, 2022a. Cynllun cyflenwi Pwysau Iach: Cymru Iach 2022 i 2024.

Llywodraeth Cymru, 2022b. Llwybrau Cymeradwy Teithio Llesol *[banc data]*, Llwybrau Cymeradwy Teithio Llesol | MapDataCymru (llyw.cymru)

# Atodiad A – Sail dystiolaeth damcaniaeth newid

**Sail dystiolaeth ar gyfer damcaniaeth newid yr Amgylchedd Bwyd**

| Disgrifiad | Ffynhonnell |
|---|---|
| Hysbysebu: Cynyddodd oedolion a oedd yn gweld hysbysebion bwyd eu defnydd o fyrbrydau afiach o 28% | Zimmerman, F.J. and Shimoga, S.V., 2014. The effects of food advertising and cognitive load on food choices. BMC Public Health, 14(1), pp.1-10. |
| Ailfformiwleiddio a chynhyrchu: Arweiniodd trethiant ar fwyd a diod afiach at fwyta llai o'r cynhyrchion hyn ac arweiniodd at gwmnïau'n ailfformiwleiddio eu cynhyrchion. | Economics observatory, 2021. Would taxes on unhealthy foods reduce obesity? |
| Manwerthu iachach a gwell gwybodaeth i ddefnyddwyr: Arweiniodd labelu calorïau at ostyngiad yn y defnydd o galorïau. | Crockett, R., King, S., Marteau, T., Prevost, A., Bignardi, G., Roberts, N., Stubbs, B., Hollands, G., Jebb, S., 2018. Nutritional labelling for healthier food or non-alcoholic drink purchasing and consumption. *Cochrane Database of Systematic Reviews 2018*, Issue 2. |

**Sail dystiolaeth ar gyfer damcaniaeth newid yr Amgylchedd Actif**

| Disgrifiad | Ffynhonnell |
|---|---|
| Teithio Llesol: Mae manteision iechyd teithio llesol ar lefel y boblogaeth yn cynnwys llai o ordewdra a chyfraddau uwch o weithgarwch corfforol | Pucher, J., Buehler, R., Bassett, D.R. and Dannenberg, A.L., 2010. Walking and cycling to health: a comparative analysis of city, state, and international data. *American journal of public health*, 100(10), pp.1986-1992. |
| Cymunedau Diogel: Arweiniodd y rhaglen Llwybrau Diogel i'r Ysgol (SRTS) yn UDA at gynnydd o hyd at 25% mewn cerdded a beicio. | McDonald, N.C., Steiner, R.L., Lee, C., Rhoulac Smith, T., Zhu, X. and Yang, Y., 2014. Impact of the safe routes to school program on walking and bicycling. *Journal of the American Planning Association*, 80(2), pp.153-167. |
| Mannau Gwyrdd/Tirweddau: Mae tystiolaeth yn awgrymu y gall cyfrannau ardal leol o fannau gwyrdd fod yn gysylltiedig â hapusrwydd a boddhad bywyd. | Houlden, V., Weich, S. and Jarvis, S., 2017. *A cross-sectional analysis of green space prevalence and mental wellbeing in England*. BMC public health, 17(1), pp.1-9. |

| | |
|---|---|
| Seilwaith a Chyfleusterau: Mae mynychu ysgol sydd â seilwaith a chyfleusterau is-safonol yn lleihau'r tebygolrwydd o gymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol pan yn oedolyn (Black et al., 2019). Mae anweithgarwch corfforol yn cynyddu'r risg o ganser, clefyd y galon, strôc a diabetes 20-30% (WHO). | (a) Black, N., Johnston, D.W., Propper, C. and Shields, M.A., 2019. The effect of school sports facilities on physical activity, health and socioeconomic status in adulthood. *Social Science & Medicine*, 220, pp.120-128.<br>(b) WHO, 2022. Physical activity. |

**Sail dystiolaeth ar gyfer damcaniaeth newid y Lleoliadau Dysgu Iach**

| Disgrifiad | Ffynhonnell |
|---|---|
| Lleoliadau Gofal Plant Iach: Arweiniodd darparu gwasanaeth bwyd o brydau iach i blant at sgorau ansawdd diet uwch. | Yoong, S.L., Grady, A., Seward, K., Finch, M., Wiggers, J., Lecathelinais, C., Wedesweiler, T. and Wolfenden, L., 2019. The impact of a childcare food service intervention on child dietary intake in care: an exploratory cluster randomized controlled trial. *American Journal of Health Promotion*, 33(7), pp.991-1001. |
| Ysgolion Iach: Roedd ysgolion â seilwaith a chyfleusterau gwael yn lleihau'r tebygolrwydd o wneud gweithgareddau corfforol pan yn oedolion. | Black, N., Johnston, D.W., Propper, C. and Shields, M.A., 2019. The effect of school sports facilities on physical activity, health and socioeconomic status in adulthood. Social Science & Medicine, 220, pp.120-128. |

**Sail dystiolaeth ar gyfer damcaniaeth newid y Lleoliadau Gwaith a Chymunedol Iach**

| Disgrifiad | Ffynhonnell |
|---|---|
| Gweithleoedd Iach: Arweiniodd darparu gwasanaethau bwyd iach ar weithleoedd at fwyta mwy o ffrwythau a llysiau a llai o fwyta bwyd cyflym. | Dodson, E.A., Hipp, J.A., Gao, M., Tabak, R.G., Yang, L. and Brownson, R.C., 2016. The impact of worksite supports for healthy eating on dietary behaviors. *Journal of occupational and environmental medicine/American College of Occupational and Environmental Medicine*, 58(8), p.e287. |

**Sail dystiolaeth ar gyfer damcaniaeth newid Atal ac Ymyrraeth Gynnar**

| Disgrifiad | Ffynhonnell |
|---|---|
| Y Cychwyn Gorau: Mae maint ac/neu ansawdd diet is-safonol yn cyfrannu at golli potensial datblygu a gwahaniaethau iechyd ac economaidd gydol oes. | Hurley, K., Yousafzai, A. and Lopez-Boo, F., 2016. Early Child Development and Nutrition: A Review of the Benefits and Challenges of Implementing Integrated Interventions. *Advances in Nutrition*, Volume 7, Issue 2. |

**Sail dystiolaeth ar gyfer damcaniaeth newid Gwasanaethau wedi'u Targedu ac Arbenigol**

| Disgrifiad | Ffynhonnell |
|---|---|
| Cymorth Arbenigol: Mae llawfeddygaeth bariatrig yn ddull profedig o leihau pwysau. | Douglas, I.J., Bhaskaran, K., Batterham, R.L. and Smeeth, L., 2015. Bariatric surgery in the United Kingdom: a cohort study of weight loss and clinical outcomes in routine clinical care. *PLoS medicine*, 12(12), p.e1001925. |

# Atodiad B - Banc data

## Data ar gyfer gwerthuso proses

| **Is-thema** (gweithgaredd) | **Dangosydd** | **Disgrifiad** | **Ffynhonnell** | **Gronynnedd data** |
|---|---|---|---|---|
| **Amgylchedd actif** (Teithio llesol) | Hyd y rhwydwaith teithio llesol (km) | Hyd y rhwydwaith teithio llesol. Gall hyn fod ar lefel genedlaethol, bwrdd iechyd a lleol. | Llywodraeth Cymru (2022b) | Amherthnasol |
| **Amgylchedd actif** (Mannau gwyrdd/ tirweddau) | % ardal drefol sy'n fan gwyrdd | Gellir defnyddio data lloeren i ddangos esblygiad mannau gwyrdd yn erbyn mannau llwyd mewn ardaloedd trefol. | *Awgrymwyd* | Amherthnasol |
| **Gwasanaethau wedi'u targedu ac arbenigol** (Cymorth arbenigol) | Amseroedd aros ar gyfer dieteteg | Amseroedd aros ar gyfer gwasanaethau diagnostig a therapi penodedig. | Iechyd a Gofal Digidol Cymru (2022) | Byrddau Iechyd Lleol |

## Data ar gyfer gwerthuso canlyniadau ac effaith

| Is-thema (gweithgaredd) | Dangosydd | Disgrifiad | Ffynhonnell | Gronynnedd | Sefyllfa wrthffeithiol |
|---|---|---|---|---|---|
| **Amgylchedd bwyd** (Gwell arferion maeth) | Bwyta ffrwythau a llysiau | Nifer y dognau o ffrwythau a llysiau a fwytawyd ddoe. | Arolwg Cenedlaethol Cymru | Lefel unigolyn/cartref | Mae data cymaradwy ar gael ar gyfer gwledydd eraill y DU |
| **Amgylchedd bwyd** (Gwell arferion maeth) | Bwyta bwydydd afiach | P'un a yw ymatebydd wedi dechrau bwyta llai o fwyd sy'n uchel mewn siwgr, braster (dirlawn) neu halen yn ystod y 6 mis diwethaf. | Arolwg Bwyd a Chi | Lefel unigolyn/cartref | Mae data cymaradwy ar gael ar gyfer gwledydd eraill y DU |
| **Amgylchedd actif** (Gwell llesiant corfforol) | Ansawdd bywyd sy'n benodol i ordewdra (QSQL) | Holiadur cyd-destunol sy'n gofyn cwestiynau fel “Ydych chi'n teimlo bod eich pwysau yn amharu ar eich tasgau/ gweithgareddau dyddiol. | *Awgrymwyd* | Lefel unigolyn/cartref | Amherthnasol |
| **Amgylchedd actif** (Teithio llesol) | Cyfradd gweithgarwch corfforol (plant) | Nifer y diwrnodau mewn wythnos y mae'r plentyn yn actif am 1 awr neu fwy. | Arolwg Cenedlaethol Cymru | Lefel unigolyn/cartref | Mae data cymaradwy ar gael ar gyfer gwledydd eraill y DU |
| **Yr holl is-themâu a’r strategaeth yn ei chyfanrwydd** | Newid ymddygiad a gwneud penderfyniadau yn ymwneud â gweithgareddau cysylltiedig â gordewdra | Data arolwg hunan-gofnodedig ar newidiadau i arferion. | *Awgrymwyd* | Amherthnasol | Mae data cymaradwy ar gael ar gyfer gwledydd eraill y DU |
| **Dysgu iach** (bob gweithgaredd) | Yfed diodydd meddal, bwyta ffrwythau a llysiau (plant) | P'un a yw'r plentyn (a) yn yfed Coke (b) yn yfed Diet Coke (c) | Arolwg Cenedlaethol Cymru | Lefel unigolyn/cartref | Mae data cymaradwy ar gael ar gyfer |

| Is-thema (gweithgaredd) | Dangosydd | Disgrifiad | Ffynhonnell | Gronynnedd | Sefyllfa wrthffeithiol |
|---|---|---|---|---|---|
| | | yn bwyta ffrwythau (d) yn bwyta llysiau bob dydd. | | | gwledydd eraill y DU |
| **Amgylchedd bwyd** (Bob gweithgaredd) | Arferion prynu | Data prynu ar dros 100,000 o gynhyrchion bwyd a diod sy'n cynnwys cynnwys calorig, braster, carb, siwgr, protein, ffibr a sodiwm y cynhyrchion. | Kantar | Lefel unigolyn/cartref | Kantar has data for other countries which could be used as comparators |
| **Amgylchedd actif** (Teithio llesol) | Defnyddio teithio llesol ar gyfer cymudo i'r ysgol (plant) | Modd trafnidiaeth a phellter cymudo. | Arolwg Cenedlaethol Cymru | Lefel unigolyn/cartref | Mae data cymaradwy ar gael ar gyfer gwledydd eraill y DU |
| **Amgylchedd actif** (Bob gweithgaredd) | Cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol | Munudau o weithgarwch corfforol cymedrol i egnïol yr wythnos. | Arolwg Cenedlaethol Cymru | Lefel unigolyn/cartref | Mae data cymaradwy ar gael ar gyfer gwledydd eraill y DU |
| **Yr holl is-themâu a'r strategaeth yn ei chyfanrwydd** | BMI plant | Taldra, pwysau a BMI plant 4 i 5 oed. | Rhaglen Mesur Plant (CMP) | Lefel unigolyn/cartref | Mae data cymaradwy ar gael ar gyfer gwledydd eraill y DU |
| **Gwasanaethau wedi'u targedu ac arbenigol** (Cymorth arbenigol) | Cyfranogiad mewn gweithgarwch corfforol gan unigolion gordew | Cyfuniad o BMI a dangosyddion gweithgarwch corfforol. | Arolwg Cenedlaethol Cymru | Lefel unigolyn/cartref | Mae data cymaradwy ar gael ar gyfer gwledydd eraill y DU |
| **Yr holl is-themâu a'r strategaeth yn ei chyfanrwydd** | Gordewdra a phwysau iach | BMI. | Arolwg Cenedlaethol Cymru | Lefel unigolyn/cartref | Mae data cymaradwy ar gael ar gyfer gwledydd eraill y DU |

| **Is-thema** (gweithgaredd) | **Dangosydd** | **Disgrifiad** | **Ffynhonnell** | **Gronynnedd** | **Sefyllfa wrthffeithiol** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Lleoliadau gwaith a chymunedol iach** (Bob gweithgaredd) | Argaeledd bwyd a diod iach mewn gweithleoedd | Arolwg wedi'i dargedu ar weithwyr yn y sector preifat a chyhoeddus yn gofyn cwestiynau fel "A yw eich gweithle yn annog arferion bwyta'n iach?" ac "A yw opsiynau bwyd iach ar gael naill ai yn eich gweithle neu yn yr ardal gyfagos?" | *Awgrymwyd* | Lefel unigolyn/cartref | Amherthnasol |
| **Yr holl is-themâu a'r strategaeth yn ei chyfanrwydd** | Cyfraddau diabetes | Nifer yr achosion o ddiabetes math 2. | Rhaglen Archwilio Diabetes Genedlaethol | Lefel unigolyn/cartref | Mae data cymaradwy ar gael ar gyfer gwledydd eraill y DU |
| **Yr holl is-themâu a'r strategaeth yn ei chyfanrwydd** | Iechyd a llesiant corfforol | Iechyd cyffredinol hunan-gofnodedig a nifer yr achosion o salwch. | Arolwg Cenedlaethol Cymru | Lefel unigolyn/cartref | Mae data cymaradwy ar gael ar gyfer gwledydd eraill y DU |
| **Yr holl is-themâu a'r strategaeth yn ei chyfanrwydd** | Llesiant meddyliol | Graddfa Llesiant Meddyliol Warwick-Caeredin. | Arolwg Cenedlaethol Cymru | Lefel unigolyn/cartref | Mae data cymaradwy ar gael ar gyfer gwledydd eraill y DU |
| **Yr holl is-themâu a'r strategaeth yn ei chyfanrwydd** | Costau GIG | Gwariant blynyddol y GIG yn ôl categori clefyd. | StatsCymru: Rhaglen Gyllideb y GIG | Cenedlaethol | Mae data cymaradwy ar gael ar gyfer gwledydd eraill y DU |
| **Yr holl is-themâu a'r strategaeth yn ei chyfanrwydd** | Llygredd aer | Dangosyddion Ansawdd Aer ar gyfer crynodiadau NO2, PM2.5 a PM10 cyfartalog ar draws | StatsCymru: Dangosyddion ansawdd aer | Awdurdod lleol, bwrdd iechyd | Mae data cymaradwy ar gael ar gyfer |

| Is-thema (gweithgaredd) | Dangosydd | Disgrifiad | Ffynhonnell | Gronynnedd | Sefyllfa wrthffeithiol |
|---|---|---|---|---|---|
| | | ardaloedd awdurdodau lleol ac ardaloedd byrddau iechyd, yn deillio o ddata wedi'i fodelu ar gyfer pob cilomedr sgwâr yng Nghymru, wedi'i fesur mewn µg/m3. | | | gwledydd eraill y DU |
| **Yr holl is-themâu a'r strategaeth yn ei chyfanrwydd** | Cyfradd absenoldeb oherwydd salwch | Cyfraddau absenoldeb oherwydd salwch gweithwyr ym marchnad lafur y DU, gan gynnwys nifer y dyddiau a gollwyd a rhesymau dros absenoldeb. | SYG | Lefel bwrdd iechyd | Mae data cymaradwy ar gael ar gyfer gwledydd eraill y DU |

## Data ar gyfer gwerthuso economaidd

| Dangosydd | Disgrifiad | Ffynhonnell | Unedau |
|---|---|---|---|
| **Gwell llesiant meddyliol** | Arbedion cost y GIG yn gysylltiedig â gwell iechyd meddwl. | Greater Manchester Combined Authority (2014) | £ fesul person y flwyddyn |
| **Gwell iechyd cyffredinol** | Gwerth ariannol gwelliannau mewn iechyd hunan-gofnodedig. | Housing Associations' Charitable Trust (2014) | £ fesul person y flwyddyn |
| **Lleihau gordewdra** | Cost flynyddol gymdeithasol gordewdra. | Frontier Economics (2022) | % o gynnyrch domestig gros |
| **Gwell llesiant corfforol** | Gwerth ariannol cadw'n ffit yn gorfforol. | Housing Associations' Charitable Trust (2014) | £ fesul person y flwyddyn |
| **Gwell llesiant corfforol** | Gwerth ariannol cerdded yn rheolaidd. | Housing Associations' Charitable Trust (2014) | £ fesul person y flwyddyn |
| **Llai o lygredd aer** | Prisiau amgylcheddol ar gyfer llygryddion aer. | Moon et al. (2021) | Ewro fesul kg |
| **Llai o allyriadau** | Gwerthoedd carbon. | Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (2021) | £ fesul tunnell |
| **Llai o absenoldeb salwch** | Cynhyrchiant llafur. | Swyddfa Ystadegau Gwladol (2021) | Allbwn fesul gweithiwr y flwyddyn |
| **Llai o anghydraddoldebau iechyd a diet** | Cost anghydraddoldeb iechyd. | Mackenbach et al. (2011) | % o gynnyrch domestig gros |